Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil gymdeithasol: 25/2026

Dyddiad cyhoeddi: 23/02/2026

# Gwerthusiad o Bolisi Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd Llywodraeth Cymru: Adroddiad Interim

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-029-9

Gwerthusiad o Bolisi Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Cynradd Llywodraeth Cymru

Adroddiad Interim

Haysey, Nicola; Smiles, Beth; Falla, Dr Abby; Cooper, Priya; Cleaver, Rhydian Rolant; Cross, Roisin

Adroddiad Ymchwil Llawn: Haysey, N et al. (2026). Gwerthusiad o Bolisi Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd Llywodraeth Cymru: Adroddiad Interim. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 25/2026

Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-cynllun-prydau-ysgol-am-ddim-i-holl-blant-ysgolion-cynradd-adroddiad-interim

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil Ysgolion

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr o dablau ........ 6

Geirfa ........ 7

1. Cyflwyniad ........ 8

2. Cyd-destun polisi ........ 9

2.1. Gweithredu’r polisi ........ 10
2.2. Cyllid y polisi ........ 10
2.3. Polisïau perthnasol eraill ........ 11

3. Methodoleg ........ 12

3.1. Cyfweliadau ansoddol lled-strwythuredig ........ 12
3.2. Astudiaethau achos ysgolion ........ 13
3.2.1. Recriwtio ar gyfer astudiaethau achos ........ 13
3.2.2. Dulliau casglu data astudiaethau achos ........ 14
3.3. Arolwg ysgolion ........ 14
3.4. Cyfyngiadau’r astudiaeth a bylchau ymchwil sy'n dod i'r amlwg ........ 15
3.4.1. Cyfyngiadau’r astudiaeth ........ 15
3.4.2. Bylchau ymchwil sy'n dod i'r amlwg ........ 15

4. Canfyddiadau’r gwerthusiad proses ........ 16

4.1. Pa mor effeithiol y mae’r polisi UPFSM wedi'i weithredu? ........ 17
4.1.1. Barn ar y cyhoeddiad polisi ........ 17
4.1.2. Barn ar amserlenni cyffredinol a chyflwyno fesul cam ........ 17
4.1.3. Cyfathrebu a chymorth ........ 18
4.1.4. Cyfalaf / uwchraddio seilwaith ........ 19
4.1.5. Recriwtio ........ 21
4.1.6. Hyrwyddo manteisio ar y cynnig ........ 21
4.2. Sut mae ALlau / y darparwr arlwyo wedi gweithredu newidiadau i arferion cyrchu a chaffael bwyd yn dilyn cyflwyno UPFSM? ........ 25
4.2.1. Rhwystrau i gaffael lleol ........ 25
4.2.2. Hwyluswyr caffael lleol ........ 26

5. Deilliannau ac effeithiau sy'n dod i'r amlwg ........ 28

5.1. Sut mae UPFSM wedi effeithio ar nifer y dysgwyr sy’n manteisio ar brydau ysgol am ddim? ........ 28
5.1.1. Lefelau y dysgwyr yn manteisio ar y cynnig UPFSM ........ 28

5.1.2. Dylanwad cynnig cyffredinol ar y nifer sy'n manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim ..... 29
5.2. Beth yw’r effeithiau sy'n dod i'r amlwg o'r polisi ar fywyd ysgol? ..... 30
5.2.1. Effaith ar y profiad amser cinio ..... 31
5.2.2. Effaith ar lwyth gwaith a llesiant staff ..... 32
5.2.3. Effaith ar wastraff bwyd ..... 34
5.2.4. Effaith ar lwythi gwaith gweinyddol ..... 35
5.2.5. Effaith ar weddill y diwrnod ysgol ..... 38
5.3. Pa effaith mae'r polisi wedi'i chael ar iechyd a llesiant plant a theuluoedd? ..... 38
5.3.1. Effaith ar newyn ac ansicrwydd bwyd ..... 39
5.3.2. Ansawdd bwyd a maeth ..... 40
5.4. Beth yw’r effeithiau addysgol sy'n dod i'r amlwg o'r polisi? ..... 42
5.4.1. Effaith ar sgiliau cymdeithasol a datblygiad y dysgwr ..... 42
5.4.2. Effaith ar ymddygiad a chanolbwyntio ..... 43
5.4.3. Effaith ar bresenoldeb ..... 44
5.5. Pa effaith mae'r polisi wedi'i chael ar gyllid teuluoedd? ..... 44
5.5.1. Effaith ar gyllid teuluol ..... 45
5.5.2. Effeithiau ar stigma ..... 45
5.5.3. Effeithiau ar fywyd teuluol ..... 46
5.6. Pa effaith gafodd y polisi ar system fwyd ysgolion Cymru, dosbarthwyr, cyflenwyr a chynhyrchwyr? ..... 46
5.6.1. Effeithiau cadarnhaol cynnar ..... 46
5.6.2. Diffyg ymwybyddiaeth ..... 47
6. Casgliadau, gwersi a ddysgwyd, ac argymhellion ..... 47
6.1. Casgliadau ..... 47
6.2. Gwersi a ddysgwyd ac argymhellion ..... 49
6.2.1. Cymorth parhaus i ALlau ac ysgolion i hyrwyddo dysgwyr i fanteisio ar y cynnig UPFSM ..... 49
6.2.2. Nifer y dysgwyr sy’n manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim ..... 49
6.2.3. Data ..... 50
6.2.4. Dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim ..... 50
6.2.5. Cynnyrch lleol ..... 51
6.2.6. Darpariaethau lefel ysgolion uwchradd ..... 52
6.2.7. Profiad amser cinio ..... 52
Atodiad 1: Setiau data ..... 53

Atodiad 2: Fframwaith gwerthuso manwl ....................................................................56
Atodiad 3: Atodiad methodolegol ..........................................................................60
Atodiad 3.1: Dulliau cyfweliadau ansoddol ....................................................60
Atodiad 3.2: Dulliau'r arolwg ysgolion.............................................................61
Atodiad 3.3: Dulliau astudiaethau achos ysgolion ............................................65

## Rhestr o dablau

Tabl 1: Cyllid refeniw UPFSM wedi'i ddyrannu fesul ALI (GBP)..........................................53
Tabl 2: Cyllid cyfalaf UPFSM fesul ALI (GBP)....................................................................54
Tabl 3: Enw'r ALI a dyddiad cyflwyno’r polisi yn llawn.........................................................55
Tabl 4: Nifer yr unigolion a ymatebodd i’r arolwg fesul ALI .................................................63
Tabl 5: Ymatebwyr yr arolwg yn ôl maint yr ysgol................................................................64
Tabl 6: Ymatebwyr yr arolwg fesul canran o ddysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim mewn ysgol ....................................................................................................64
Tabl 7: Cyfrwng iaith a nifer y cyfranogwyr fesul astudiaeth achos ysgol ............................69

## Geirfa

**ADY**

Anghenion dysgu ychwanegol

**ALI**

Awdurdod lleol

**CLIC**

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**CYBLD**

Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

**PDG**

Y Grant Datblygu Disgyblion

**UPFSM**

Prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd

**Y DU**

Y Deyrnas Unedig

# 1. Cyflwyniad

Ym mis Medi 2024, comisiynodd Llywodraeth Cymru ICF Consulting Services Ltd (ICF) mewn partneriaeth ag Ymchwil Arad i ddylunio a chyflawni gwerthusiad o bolisi prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd (UPFSM) yng Nghymru. Y nod strategol cyffredinol ar gyfer y gwerthusiad yw darparu mewnwelediadau cynhwysfawr i wneud y mwyaf o effaith polisi UPFSM. Mae'r adroddiad interim hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau cynnar o flwyddyn gyntaf y gwerthusiad, gan ganolbwyntio ar y broses a gymerwyd i weithredu'r polisi ac unrhyw ddeilliannau ac effeithiau sy'n dod i'r amlwg. Bydd y canfyddiadau hyn yn cael eu datblygu ymhellach drwy weithgareddau ymchwil yn ail flwyddyn (2026) y gwerthusiad. Adroddir ar ymchwil ychwanegol unwaith y bydd y gweithgareddau casglu data wedi dod i ben.

Mae gan y gwerthusiad yr amcanion canlynol:

- gwerthuso effeithiolrwydd gweithredu'r polisi UPFSM, gan gynnwys asesu'r prosesau sy'n gysylltiedig â'r gweithrediad, nodi rhwystrau a hwyluswyr a brofwyd wrth weithredu'r polisi, a nodi unrhyw effeithiau/deilliannau anfwriadol a brofwyd
- nodi ac archwilio effeithiau sy'n dod i'r amlwg o'r polisi, gan gynnwys effeithiau posibl ar gydraddoldeb, drwy archwilio sut mae'r polisi'n effeithio ar ddysgwyr, teuluoedd, ysgolion, a rhanddeiliaid ehangach, a sut y gallai gwahanol grwpiau gael eu heffeithio arnynt yn wahanol
- datblygu argymhellion ar gyfer sicrhau'r effaith fwyaf posibl o ran polisi a chynyddu nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar y cynnig, gan gynnwys ymhlith y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, drwy nodi'r ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar y niferoedd sy'n manteisio ar y cynnig a darparu argymhellion ymarferol i wella cyfranogiad
- cwmpasu a chyflwyno opsiynau ar gyfer cynnal Gwerthusiad Gwrthffeithiol o Effaith cadarn ac asesiad gwerth am arian o'r polisi i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru (i'w hadrodd amdanynt ar wahân)

Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Pennod 2 yn amlinellu'r cyd-destun polisi y gweithredwyd UPFSM ynddo
- Mae Pennod 3 yn disgrifio'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer casglu data ac yn tynnu sylw at unrhyw gyfyngiadau
- Mae Pennod 4 yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad proses, gan ganolbwyntio ar baratoi a chyflwyno'r polisi
- Mae Pennod 5 yn archwilio'r deilliannau a'r effeithiau sy'n dod i'r amlwg
- Mae Pennod 6 yn cloi'r adroddiad ac yn nodi gwersi a ddysgwyd ac argymhellion

## 2. Cyd-destun polisi

Cyhoeddwyd yr ymrwymiad i UPFSM gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2021 ac fe'i nodir yn y cytundeb cydweithio rhwng y Blaid Lafur a Phlaid Cymru (Cytundeb Cydweithio). Daeth y polisi i'r amlwg mewn ymateb i bryderon cynyddol ynghylch ansicrwydd bwyd a chostau byw cynyddol, y gwaethygwyd y ddau gan bandemig y coronafeirws (COVID-19). Yn ystod cyfnodau o gau ysgolion a gwyliau, roedd llawer o ddysgwyr yn wynebu ansicrwydd bwyd, gan dynnu sylw at yr angen am ddarpariaeth fwyd fwy dibynadwy a hygyrch.

Ar yr adeg y cyflwynwyd UPFSM, nid oedd y trothwy incwm ar gyfer bod yn gymwys am brydau ysgol am ddim wedi'i ddiweddaru ers 2019. Credwyd bod y trothwy hwn, a oedd wedi aros yr un fath, wedi cyfrannu at ostyngiad yn nifer y plant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yng Nghymru (prydau ysgol am ddim yng Nghymru). I lawer o deuluoedd, dim ond drwy amddiffyn wrth bontio y cynhaliwyd cymhwysedd – mesur diogelu a gyflwynwyd pan newidiodd y meini prawf cymhwysedd, gan ganiatáu i blant a oedd yn gymwys yn flaenorol ar gyfer prydau ysgol am ddim gadw eu hawlogaeth, hyd yn oed pe bai amgylchiadau eu cartref yn symud uwchlaw'r trothwy yn ddiweddarach. Daeth y cynnig amddiffyn wrth bontio i ben ar 1 Ionawr 2024, er bod dysgwyr a oedd yn gymwys cyn y dyddiad hwn yn gallu cael prydau ysgol am ddim tan ddiwedd eu cyfnod addysg presennol.

Dylanwadodd y dirwedd wleidyddol ar ddatblygiad y polisi, ac roedd awdurdodau lleol (ALlau) yn awyddus i weithredu newidiadau'n gyflym er budd teuluoedd. Cafodd y fenter ei fframio hefyd o fewn cyd-destun ehangach argymhellion o Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru (2020 i 2021), a oedd yn annog adolygiad o hawlogaethau bwyd mewn ysgolion, gan gynnwys dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim.

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r polisi hwn a'i hamcanion llywodraethol ehangach mewn perthynas â thlodi plant, ffyrdd o fyw iachach, a llesiant cenedlaethau'r dyfodol (Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) yn cyd-fynd â’i gilydd. Mae UPFSM yn rhan o ddull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd yn ystod plentyndod a'r heriau cysylltiedig. Mae'r polisi hefyd yn anelu at sicrhau buddion economaidd ehangach drwy ddefnyddio buddsoddiad yn system fwyd ysgolion Cymru i gryfhau cadwyni cyflenwi lleol, meithrin gwydnwch a chynyddu graddfa (rhaglen yr economi sylfaenol).

Nod uniongyrchol UPFSM yn ystod y broses gyflwyno oedd sicrhau y gallai pob dysgwr oedran cynradd nad oeddent yn gymwys o'r blaen gael mynediad at bryd ysgol am ddim. Nod hyn oedd lleddfu'r pwysau ar deuluoedd sy'n cael trafferth o ran costau byw a chael gwared ar rwystrau ariannol i gyfranogiad. Drwy leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â phrydau bwyd am ddim, roedd y polisi hefyd yn ceisio cynyddu'r nifer o ddysgwyr â statws ‘dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim’ neu ‘amddiffyn wrth bontio’ sy’n manteisio ar y cynnig. Yn y pen draw, drwy ysgogi mwy o ddysgwyr yn y ddau grŵp i fanteisio ar y cynnig, nod y polisi yw sicrhau buddion ehangach: maeth gwell, deilliannau iechyd gwell, llai o anghydraddoldebau o ran iechyd, a chyrhaeddiad addysgol gwell drwy ddarparu pryd maethlon a chytbwys i bob dysgwr cynradd (Cael y budd mwyaf o brydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd).

## 2.1. Gweithredu’r polisi

Cyflwynwyd y polisi UPFSM fesul cam, gan ddechrau ym mis Medi 2022, gyda'r dysgwyr ysgol gynradd ieuengaf (dosbarth derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2) cyn cael ei ehangu i grwpiau blwyddyn hŷn. Datblygwyd y cyflwyniad graddol hwn mewn cydweithrediad ag ALlau i sicrhau y gellid ehangu’r polisi yn ddiogel ac yn gyson ledled Cymru. I gefnogi hyn, gosododd Llywodraeth Cymru gerrig milltir cenedlaethol a safonau gofynnol, gan sefydlu llinell sylfaen a rennir o ran darpariaeth. Roedd hyn yn golygu bod yn ofynnol i bob ALl gyrraedd o leiaf yr un lefel isafswm o ddarpariaeth ar yr un pryd. Er bod rhai ALlau wedi gallu gwneud cynnydd yn gyflymach, roedd y dull hwn yn cyfyngu ar anghydraddoldebau mawr o ran mynediad ac yn sicrhau nad oedd unrhyw ardal yn cael ei gadael ar ôl. Rhoddwyd blaenoriaeth i blant iau oherwydd eu bod yn ystadegol yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi incwm cymharol. O ganlyniad, y garfan gyntaf oedd yn gymwys ar gyfer UPFSM yng Nghymru oedd plant a aned ar neu ar ôl 1 Medi 2018 (Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2019 i Fawrth 2020).

Roedd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) rôl gydlynol yn y broses o gyflwyno'r polisi UPFSM drwy gynrychioli a chyfleu safbwyntiau’r awdurdodau lleol. Fe wnaethant roi cipolwg ar sut y gweithredwyd y polisi ledled Cymru, gan dynnu sylw at brofiadau gweithredol a nodi unrhyw amrywiadau neu heriau a ddaeth i'r amlwg rhwng gwahanol ranbarthau. Helpodd hyn i sicrhau bod anghenion ac amgylchiadau ALlau yn cael eu hadlewyrchu mewn trafodaethau cenedlaethol ac ategodd fwy o gysondeb wrth gyflawni.

Roedd cyflymder y cyflwyniad yn amrywio ar draws ALlau a rhanbarthau. Bodlonir pob ALl y dyddiad cau terfynol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, sef mis Medi 2024. Fodd bynnag, roedd y cynnydd yn wahanol: cwblhaodd 13 o awdurdodau lleol ddarpariaeth gyffredinol erbyn mis Medi 2023, blwyddyn gyfan cyn yr amserlen, ac fe wnaeth un ALl llwyddo i sicrhau darpariaeth gyffredinol mor gynnar â mis Ebrill 2023. Cyflwynodd y naw ALl sy'n weddill ddarpariaeth gynradd gyffredinol rhwng mis Ionawr a mis Medi 2024. Mae Atodiad 1 yn darparu dadansoddiad o ddyddiadau cwblhau yn ôl ALl.

Mae ALlau yn amrywio o ran trefniadaeth a chyflenwad darpariaeth arlwyo ysgolion. Ar adeg casglu data (Ionawr 2025 i Orffennaf 2025), roedd 18 o'r 22 ALl yng Nghymru yn gweithredu gwasanaeth arlwyo. Fel rhan o’r model hwn, mae'r darparwr arlwyo o fewn yr ALl fel corff hyd braich ac mae'r tîm yn gyfrifol am ddarparu prydau ysgol a gwasanaethau arlwyo cyhoeddus eraill. Roedd gan ddau ALl gwmni masnachu, ac roedd dau wedi contractio darparwyr arlwyo preifat i ddosbarthu prydau ysgol.

## 2.2. Cyllid y polisi

Er mwyn galluogi a chefnogi cyflwyno'r polisi, dyrannwyd £182.2 miliwn o gyllid refeniw ar draws y 22 ALl dros dair blynedd i gefnogi'r gwaith o gyflawni’r polisi: £23.2 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2022 i 2023, £66.3 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2023 i 2024, a £92.7 miliwn ym mlwyddyn ariannol 2024 i 2025 (Cyllideb Cymru i ddarparu prydau bwyd am ddim i bob disgybl mewn ysgolion cynradd). Caiff cyllid ei weinyddu'n flynyddol drwy grant, a delir yn uniongyrchol i ALlau. Mae'r cynnig grant a ddyrennir i ALlau yn cael ei arwain gan y galw ac yn adlewyrchu pa mor gyflym eu bod yn cyflwyno’r polisi a'u cynlluniau

cyflwyno. Y bwriad oedd cefnogi'r ddarpariaeth yn ystod pob blwyddyn ariannol. Cyflwynir cyfansymiau'r refeniw ar gyfer pob blwyddyn yn ôl ALl yn Atodiad 1.

Cymhwyswyd cyfradd fesul uned ddiffiniedig ar gyfer pryd bwyd o £2.90 yn gyson rhwng 2021 a 2024, gan gwmpasu blynyddoedd cynnar cyflwyno'r cynllun.

Ym mis Awst 2023, cyhoeddodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i ddeall yn well y pwysau cost y mae ALlau yn eu hwynebu wrth ddarparu UPFSM (Deall cost prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd). Tynnodd yr ymchwil sylw at bwysau chwyddiant sy'n effeithio ar ddarpariaeth prydau ysgol, yn enwedig costau bwyd, ynni a llafur cynyddol, a nododd fod prisiau'n parhau i fod yn uchel o'u cymharu â lefelau cyn y pandemig. Fodd bynnag, pwysleisiodd hefyd fod data costau yn anghyflawn ac yn amrywiol, bod ALlau wedi rheoli costau mewn gwahanol ffyrdd, a bod costau union yn anodd eu mesur.

Yn dilyn yr adolygiad hwn, cynyddodd y gyfradd fesul uned ar gyfer prydau bwyd i £3.20 ar gyfer dyraniadau yn y flwyddyn ysgol 2024 i 2025. Ar adeg ysgrifennu, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynnydd pellach i £3.40 ar gyfer blynyddoedd ysgol 2025 i 2026 a 2026 i 2027 (Hwb gwerth £8 miliwn i brydau bwyd mewn ysgolion cynradd yng Nghymru).

Dyrannwyd £60 miliwn mewn cyllid cyfalaf cychwynnol drwy raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i helpu ALlau i uwchraddio cyfleusterau arlwyo ysgolion. Roedd hyn yn cynnwys £25 miliwn yn 2021 i 2022 a £35 miliwn yn 2022 i 2023, gan gefnogi buddsoddiadau megis offer newydd a gwaith i ailwampio ceginau ac uwchraddio systemau digidol. Darparwyd cyllid cyfalaf ychwanegol yn ddiweddarach ar sail achos busnes ar gyfer prosiectau seilwaith mwy, gan gynnwys podiau cegin a chyfleusterau arlwyo mewn adeiladau newydd. Ers 2023 i 2024, mae cyfanswm y buddsoddiad pellach hwn wedi bod ychydig o dan £12 miliwn, ac mae £6.5 miliwn ychwanegol wedi'i ddyrannu hyd at 2026 i 2027. Mae ffigurau a dalwyd hyd yn hyn ar gyfer pob ALl ar gael yn Atodiad 1.

Hefyd, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ar wahân i ALlau i gynnal archwiliadau o ystad ceginau eu hysgolion, a gynhaliwyd naill ai'n fewnol neu drwy gontractwyr allanol. Llywiodd yr archwiliadau hyn benderfyniadau ynghylch gwelliannau i seilwaith a gwnaethant amlygu meysydd sydd angen sylw brys. Datgelodd yr archwiliadau lawer o amrywiad yn seilwaith ceginau ledled Cymru, a gefnogodd y penderfyniad i gyflwyno'r polisi fesul cam er mwyn sicrhau tegwch.

## 2.3. Polisïau perthnasol eraill

Mae pob ysgol gynradd yng Nghymru yn ddarostyngedig i Reoliadau Bwyta'n Iach 2013. Mae'r rheoliadau'n nodi safonau maethol a gofynion bwyd a diod drwy gydol y diwrnod ysgol yn ogystal ag ar gyfer cinio cyffredin. Rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2025, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar fwyta'n iach mewn ysgolion, a'r bwriad yw diweddaru pa fwyd a diodydd y gellir eu darparu mewn ysgolion a'r canllawiau a'r cyfrifoldebau ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach (Bwyta'n iach mewn ysgolion). Ar adeg ysgrifennu, mae'r Rheoliadau Bwyta'n Iach diwygiedig ar gyfer ysgolion meithrin a chynradd a gynhelir wedi'u cyflwyno gerbron y Senedd a disgwylir iddynt ddod i rym yn 2026.

# 3. Methodoleg

Mae'r gwerthusiad yn dilyn dyluniad dulliau cymysg sy'n seiliedig ar ddamcaniaeth. Datblygwyd damcaniaeth newid yn y cam cychwynnol, wedi'i llywio gan adolygiad o dystiolaeth a chyfweliadau cwmpasu â rhanddeiliaid perthnasol. Mae damcaniaeth newid yn nodi'r deilliannau disgwyliedig, y mecanweithiau, a'r ffactorau cyd-destunol sy'n gysylltiedig â'r polisi. Fe lywiodd fframwaith gwerthuso'r astudiaeth, gan egluro beth y gellid ei fesur a pham, ac arweiniodd y gwaith o gasglu a dadansoddi data.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu ar y gweithgareddau casglu data a gwblhawyd hyd yn hyn. Crynhoir y rhain isod, gyda manylion pellach yn Atodiad 3. Wrth gynhyrchu'r adroddiad, darparwyd cyd-destun pellach gan adolygwyr Llywodraeth Cymru ac mae wedi'i ymgorffori yn yr adroddiad.

## 3.1. Cyfweliadau ansoddol lled-strwythuredig

Cynhaliwyd cyfres o gyfweliadau ansoddol lled-strwythuredig i gasglu mewnwelediadau i weithrediad ac effeithiau cynnar polisi UPFSM. Roedd y strategaeth samplu yn targedu tri grŵp craidd o randdeiliaid:

- arweinwyr strategol ALlau ar gyfer UPFSM ar draws pob un o'r 22 ALl yng Nghymru
- darparwyr bwyd ysgol sy'n ymwneud â chynyddu graddfa'r ddarpariaeth
- rhanddeiliaid ehangach o'r sectorau iechyd, addysg, ymchwil, a lliniaru tlodi

Cynhaliwyd cyfweliadau ar-lein drwy Microsoft Teams ac fe'u harweiniwyd gan ganllaw pwnc lled-strwythuredig a oedd yn cyd-fynd â'r ddamcaniaeth newid a'r cwestiynau gwerthuso. Cafodd yr holl gyfweliadau eu recordio, eu trawsgrifio, a'u codio'n thematig â chydsyniad y sawl a gafodd eu cyfweld.

Cwblhawyd cyfanswm o 39 o gyfweliadau:

- 22 o arweinwyr strategol yr ALlau (sy'n cwmpasu holl ALlau Cymru)
- wyth darparwr bwyd ysgol
- naw rhanddeiliad ehangach

O'r rhain, cynhaliwyd tri chyfweliad yn y Gymraeg.

Cynhaliwyd cyfweliadau ag arweinwyr strategol yr awdurdodau lleol rhwng mis Ionawr a mis Mawrth a oedd yn para rhwng 60 a 90 munud. Cynhaliwyd cyfweliadau â darparwyr bwyd ysgol a rhanddeiliaid ehangach rhwng mis Awst a mis Medi 2025 ac roedd y rhain yn para rhwng 30 a 60 munud.

## 3.2. Astudiaethau achos ysgolion

Datblygwyd fframwaith samplu dau gam i ddewis 13 ysgol ar gyfer astudiaethau achos (gweler Atodiad 3.3 am fanylion technegol).

**Cam 1: Dewis ar lefel yr ALI**

Yn y cam cyntaf, dewiswyd saith ALI i adlewyrchu amrywiad yng nghyd-destun cyflwyno'r ddarpariaeth UPFSM, gan gynnwys trefniadau arlwyo ysgolion, cyfansoddiad ysgolion, a nodweddion cymunedol ehangach. Roedd y dewis yn seiliedig ar feini prawf megis:

- y gyfran o ardaloedd trefol
- cyfran y dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim
- yr amddifadedd sy'n effeithio ar blant (% yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn yr ALI sy'n dod o fewn y 10% mwyaf dan anfantais yng Nghymru)
- cyfran y dysgwyr o gefndir ethnig heblaw am Wyn Prydeinig
- nifer yr ysgolion, nifer y dysgwyr fesul ysgol ar gyfartaledd
- cyfran yr ysgolion cyfrwng Cymraeg
- nifer y rhai sy’n manteisio ar UPFSM ar gyfartaledd
- amserlen cwblhau'r cyflwyniad terfynol a'r model arlwyo

Y saith ALI a ddewiswyd oedd y canlynol: Blaenau Gwent, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Sir Ddinbych, Ynys Môn, Bro Morgannwg, ac Abertawe.

**Cam 2: Dewis ar lefel yr ysgol yn seiliedig ar ardal**

O fewn yr ALlau hyn, dewiswyd amrywiaeth o ysgolion i sicrhau amrywiaeth o ran daearyddiaeth, statws economaidd-gymdeithasol, math o ysgol, maint, cyfrwng iaith, a demograffeg dysgwyr (e.e. % y dysgwyr sy'n cael prydau bwyd am ddim, sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol). Cafodd ystyriaethau ymarferol, megis dalgylchoedd ysgolion a chlystyrau poblogaeth leol, eu hymgorffori ochr yn ochr â ffiniau gweinyddol (e.e. Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is) i wella cynrychiolaeth.

### 3.2.1. Recriwtio ar gyfer astudiaethau achos

Cysylltwyd ag ysgolion drwy neges e-bost a ffôn rhwng Ebrill a Mai 2025. Mabwysiadwyd proses recriwtio dreigl, gan ganiatáu cysylltu â’r ysgol nesaf ar y rhestr fer os oedd y cyswllt cychwynnol yn aflwyddiannus. Trefnwyd galwadau cyn yr ymweliad gyda phenaethiaid i gadarnhau amserlenni ac ateb cwestiynau. At ei gilydd, ymwelwyd ag 13 o ysgolion yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2025: gwnaeth wyth ymweliad para ddau ddiwrnod, tra oedd pum ymweliad wedi'u cwblhau mewn un diwrnod oherwydd bod yr ysgolion yn llai o faint.

### 3.2.2. Dulliau casglu data astudiaethau achos

Roedd pob astudiaeth achos fanwl yn cynnwys un neu ddau ddiwrnod o ymchwil ansoddol, gan gynnwys:

- cyfweliadau ag arweinwyr yr ysgol
- cyfweliadau â phrif gogyddion, timau cegin, a goruchwylwyr canol dydd
- cyfweliadau ag athrawon a staff cymorth
- grwpiau ffocws neu drafodaethau grŵp bach gyda dysgwyr (blynyddoedd 3/4 a 5/6)
- bachu ar y cyfle i gael sgyrsiau dan arweiniad â dysgwyr a staff
- ymchwil arsylwadol yn ystod amser cinio
- trafodaethau dewisol â rhieni/gofalwyr pan fo'n ddichonadwy, e.e. yn ystod amser casglu plant o'r ysgol

Ysgrifennwyd pob astudiaeth achos yn erbyn templed safonol a oedd yn cyfuno data o'r holl gyfweliadau, trafodaethau ac arsylwadau yn ystod yr ymweliad. Trefnwyd y canfyddiadau yn ôl grŵp rhanddeiliaid (e.e. dysgwyr, rhieni/gofalwyr, athrawon, a thimau arlwyo). Adolygwyd data monitro ac arolwg perthnasol a ddarparwyd gan yr ysgol hefyd i roi cyd-destun i'r canfyddiadau ansoddol. Strwythurwyd yr astudiaethau achos yn ôl y themâu a'r cwestiynau a nodir yn y canllawiau pwnc.

## 3.3. Arolwg ysgolion

Mae tystiolaeth yn dangos bod uwch-arweinyddiaeth gref a gweladwy – megis cymryd rhan weithredol mewn arferion amser cinio a llunio'r cynnig bwyd – yn benderfynydd hollbwysig ac yn galluogi nifer uchel o ddysgwyr i fanteisio ar y cynnig prydau ysgol (Mwy na phryd o fwyd). Felly, nod yr arolwg ysgolion oedd casglu barn uwch-arweinwyr (e.e. y pennaeth / dirprwy benaethiaid neu reolwyr busnes ysgolion) fel staff sydd â gwybodaeth am brydau ysgol a goruchwyliaeth ohonynt.

Cynhaliwyd cynllun peilot o'r arolwg gyda dau bennaeth ysgol. Fe'i gweinyddwyd ar-lein (yn Gymraeg a Saesneg) drwy Forsta, gan ddefnyddio dull gwthio-i'r-we drwy'r post gyda chodau QR a TinyURL i wneud y mwyaf o ymgysylltiad (Forsta). Defnyddiwyd negeseuon e-bost dilynol a nodiadau atgoffa i ysgolion ac arweinwyr strategol ALI i hybu cyfraddau ymateb a sicrhau bod nifer o ardaloedd a grwpiau demograffig yn cael eu cwmpasu.

Lansiwyd yr arolwg ar 4 Gorffennaf 2025 a daeth i ben ar 28 Gorffennaf 2025. Cafwyd ymatebion gan 47 o ysgolion, sy'n cynrychioli tua 4% o'r holl ysgolion cynradd yng Nghymru. Gwnaed ymdrechion i fonitro dosbarthiad daearyddol a demograffig yr ymatebion er mwyn sicrhau sampl eang a chynhwysol. Ar ôl cwblhau'r arolwg, cafodd data meintiol ei lanhau â llaw a'i ddadansoddi gan ddefnyddio ystadegau disgrifiadol. Cafodd ymatebion

ansoddol, a gasglwyd trwy flychau testun agored, eu codio'n thematig i echdynnu'r prif fewnwelediadau.

## 3.4. Cyfyngiadau’r astudiaeth a bylchau ymchwil sy'n dod i'r amlwg

### 3.4.1. Cyfyngiadau’r astudiaeth

Dylid ystyried sawl cyfyngiad wrth ddehongli'r canfyddiadau.

Heriau priodoli: o ystyried yr amserlen fer a natur alluogi eang y polisi, gall newidiadau a welwyd adlewyrchu ffactorau y tu hwnt i UPFSM (e.e. adferiad ar ôl COVID-19, mentrau addysgol ehangach). Er gwaethaf yr heriau o ran priodoli, mae'r cyfuniad o astudiaethau achos ansoddol, cyfweliadau â rhanddeiliaid, a data arolygon yn darparu tystiolaeth gyfoethog, wedi’i thriongli sy'n helpu i roi cyd-destun i'r newidiadau a welwyd.

Amseriad yr ymchwil: cynhaliwyd y gwerthusiad ar ôl gweithredu'r polisi, sy'n golygu bod y manylion yn dibynnu ar allu rhanddeiliaid i adalw gwybodaeth. Roedd cynnal cyfweliadau ag arweinwyr strategol awdurdodau lleol cyn cynnal ymweliadau astudiaethau achos mewn ysgolion yn hanfodol i driongli canfyddiadau a chael data manwl a dibynadwy.

Cyfradd ymateb i'r arolwg: er bod yr arolwg wedi darparu mewnwelediadau defnyddiol, mae ei gyfradd ymateb isel yn cyfyngu ar ei gynrychioldeb. Gellir esbonio hyn yn rhannol gan y ffaith ei fod wedi'i gyflwyno ar ddiwedd y flwyddyn ysgol. Mae dyfnder y data ansoddol o astudiaethau achos yn lliniaru hyn yn rhannol.

Cwmpas o fathau o ysgolion: ni chynhwyswyd ysgolion arbennig yn y dyluniad ansoddol blwyddyn gyntaf, sy'n cyfyngu ar gymhwysedd y canfyddiadau i'r lleoliadau hyn. Bydd hyn yn ffocws yng nghyfnod nesaf y gwerthusiad (2025/26).

Mynediad at randdeiliaid: roedd ymgysylltu â rhai rhanddeiliaid ehangach, yn enwedig o'r llywodraeth a chyrff goruchwylio, wedi'i gyfyngu gan amseriad y gwaith maes. Bydd ymgysylltu â'r grwpiau hyn yn cael ei ddilyn yng nghyfnod nesaf y gwerthusiad (2025/26).

### 3.4.2. Bylchau ymchwil sy'n dod i'r amlwg

Mae blwyddyn gyntaf y gwerthusiad wedi nodi sawl maes lle mae angen ymchwil bellach i gryfhau dealltwriaeth o effaith y polisi.

Safbwyntiau rhieni/gofalwyr: Mae angen tystiolaeth fanylach ynghylch newidiadau o ran ymddygiad, effeithiau ar drefn teuluoedd, a goblygiadau ariannol UPFSM, gan gynnwys arbedion yn ymwneud ag amser a chost a brofir gan aelwydydd. Aethpwyd i’r afael â’r bwlch hwn drwy arolwg a ddosbarthwyd i rieni a gofalwyr rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2025.

Dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY): Mae angen data mwy manwl yn ymwneud â phrofiad dysgwyr ag ADY o UPFSM, a faint ohonynt sy’n manteisio ar y cynnig, er mwyn sicrhau cynhwysiant a thegwch wrth weithredu’r polisi. Bydd gweithgareddau ymchwil wedi'u targedu, megis ymweld â lleoliad ADY, yn cael eu hystyried yng ngham nesaf yr astudiaeth hon.

Gwastraff bwyd: Er bod gwastraff bwyd wedi'i nodi fel problem cyn UPFSM, nododd sawl rhanddeiliad y gallai'r polisi fod wedi gwaethygu'r broblem hon mewn rhai lleoliadau. Gan fod prydau bwyd am ddim bellach, mae mwy o ddysgwyr yn dewis eu cael; fodd bynnag, nododd llawer o randdeiliaid achosion mynych pan nad oedd dysgwyr yn hoffi'r bwyd a gynigir. Mae hyn, mewn rhai achosion, wedi arwain at lefelau uwch o fwyd heb ei fwyta neu wedi'i daflu. Bydd deall pa gamau, os o gwbl, y mae ALlau ac ysgolion wedi'u cymryd ers cyflwyno'r polisi i liniaru gwastraff bwyd yn un o’r materion y canolbwyntir arnynt yn y cam nesaf.

Dulliau bwyd ysgol gyfan: Er bod dulliau ysgol gyfan o ymdrin â bwyd wedi cael eu harchwilio yng ngham cyntaf y gwerthusiad, mae tystiolaeth yn parhau i fod yn gyfyngedig ynghylch pa mor gyson y mae'r dulliau hyn yn cael eu gweithredu, sut maent yn dylanwadu ar y nifer sy'n manteisio ar y cynnig UPFSM, a'u heffaith ar amgylchedd bwyd ehangach yr ysgol. Bydd hyn yn cael ei ystyried ymhellach yng ngham nesaf y gwaith.

Caffael lleol: Er bod ymgynghoriad cynnar wedi archwilio newidiadau o ran cyrchu a chaffael bwyd, mae angen ymchwil bellach i ddeall sut mae'r arferion hyn yn esblygu dros amser. Mae cyflwyno'r Rheoliadau Bwyta'n Iach newydd, a ddisgwylir i ddod i rym yn 2026, yn rhoi cyfle posibl i archwilio sut mae penderfyniadau caffael yn rhyngweithio â safonau maethol ac ymdrechion ehangach i gynyddu cynhyrchiant bwyd lleol i gefnogi darpariaeth UPFSM.

Data monitro a pherfformiad: Mae tystiolaeth feintiol gadarn yn ymwneud â pha mor gosteffeithiol ac effeithlon yw’r polisi yn gyffredinol yn gyfyngedig. Er bod y gwerthusiad presennol yn rhoi cipolwg ansoddol ar weithredu, y broses, ac effeithiau sy'n dod i'r amlwg, nid yw eto'n meintioli'r costau ariannol, y buddion, na gwerth cymharol y polisi. Fel rhan o'r gwerthusiad, mae ymarferoldeb cynnal Gwerthusiad Gwrthffeithiol o Effaith ac asesiad gwerth am arian yn cael ei archwilio i nodi methodolegau priodol a all fynd i'r afael â'r bwlch hwn.

# 4. Canfyddiadau’r gwerthusiad proses

Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad proses, gan ateb dau gwestiwn o'r fframwaith gwerthuso:

- pa mor effeithiol y mae'r polisi UPFSM wedi'i weithredu
- sut mae ALlau / y darparwr arlwyo wedi gweithredu newidiadau i arferion cyrchu a chaffael bwyd yn dilyn cyflwyno UPFSM

Mae'r bennod yn tynnu ar amrywiaeth o safbwyntiau gan arweinwyr strategol ALlau, penaethiaid, staff ysgolion (gan gynnwys staff arlwyo a goruchwylwyr amser cinio), rhieni, a rhanddeiliaid ehangach. Drwy archwilio'r llwyddiannau a'r heriau a wynebwyd yn ystod y cyflwyniad, mae'r drafodaeth yn cynnig cipolwg ar realiti ymarferol darparu prydau ysgol am ddim i bawb ar raddfa fawr. Mae'n ystyried yr ymatebion cychwynnol i'r cyhoeddiad polisi, natur ac effeithiolrwydd y cymorth a'r cyfathrebu, rôl cyfalaf ac uwchraddio seilwaith, pwysau recriwtio staff, dulliau o hyrwyddo dysgwyr i fanteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim, ac ymdrechion i ddiwallu gofynion deietegol amrywiol. Yn ogystal, mae'r bennod

yn archwilio sut mae ALlau a darparwyr arlwyo wedi addasu eu harferion cyrchu a chaffael bwyd mewn ymateb i'r galw cynyddol a nodau'r polisi. Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn cyflwyno trosolwg cynhwysfawr o'r broses a'r ffactorau gweithredol sy'n llunio gweithrediad cynnar UPFSM, gan amlygu meysydd lle bu cynnydd a materion sydd angen sylw pellach wrth i'r polisi barhau i esblygu.

## 4.1. Pa mor effeithiol y mae'r polisi UPFSM wedi'i weithredu?

### 4.1.1. Barn ar y cyhoeddiad polisi

Roedd cefnogaeth eang i'r polisi ar draws yr holl grwpiau rhanddeiliaid. Y farn gyffredin oedd y dylai pob dysgwr cynradd gael y dewis o gael pryd ysgol am ddim. Roedd y rhesymau dros gefnogi'r polisi yn amrywio: roedd rhai arweinwyr strategol ALlau yn croesawu'r polisi yn dod i Gymru, tra oedd rhanddeiliaid ehangach yn teimlo bod y ddarpariaeth gyffredinol honno'n helpu i gael gwared ar stigma a chywilydd, a allai fod yn gysylltiedig â dysgwyr a oedd gynt yn cael pryd o fwyd am ddim trwy'r cynnig 'dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim'. Ategodd canlyniadau'r arolwg o ysgolion y canfyddiad hwn, gyda 91% o'r ymatebwyr (42 allan o 46 o ymatebwyr) yn nodi bod yr ymateb i'r polisi naill ai wedi bod yn gadarnhaol iawn neu'n weddol gadarnhaol.

Roedd petruster ac amheuaeth i ddechrau ynghylch y polisi gan benaethiaid. Er enghraifft, disgrifiodd arweinwyr strategol o bum ALl ddadleuon ymhlith penaethiaid ynghylch a ddylid cyflwyno darpariaeth gyffredinol. Awgrymwyd y gallai targedu cymorth at y rhai ychydig uwchben y trothwy i fod yn gymwys am brydau ysgol am ddim fod wedi bod yn fwy priodol, gan fod rhai teuluoedd yng Nghymru yn gallu fforddio pryd o fwyd. Byddai dull o'r fath o fudd yn bennaf i ddysgwyr yr effeithir arnynt gan yr argyfwng costau byw ond nad ydynt eisoes yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Atgyfnerthwyd y farn hon gan leiafrif o staff a rhieni/gofalwyr a gymerodd ran mewn astudiaethau achos o ysgolion, a gwestiynodd gyffredinolrwydd y polisi, gan ddadlau y gellid cyfeirio adnoddau'n well at y teuluoedd mwyaf dan anfantais. Mynegodd un pennaeth bryder, gan fod y polisi hefyd o fudd i deuluoedd mwy cyfoethog, ei fod mewn perygl o waethygu anghydraddoldebau pe bai'r dysgwyr mwyaf dan anfantais yn parhau i beidio â chael cymorth.

### 4.1.2. Barn ar amserlenni cyffredinol a chyflwyno fesul cam

Disgrifiodd arweinwyr strategol ALlau amseru'r cyhoeddiad polisi fel un a berwyd llawer o straen, gan nodi eu bod wedi cael "amserlenni tynn" ar gyfer ei weithredu. Cyhoeddwyd y polisi ym mis Rhagfyr 2021, a nodwyd arweinwyr strategol bod yr amseru yn cyd-daro â gwyliau'r Nadolig, gan gyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer cyfathrebu a chynllunio dilynol ar unwaith. Dywedodd un arweinydd strategol:

"Roedden ni'n gwybod adeg y Nadolig, ond cymerodd tan tua mis Mawrth i ddarganfod yn union faint o gyllid oedd gennym ni. Hyn a hyn y gallwch chi gynllunio heb wybod y gyllideb. Gwnaeth hynny'r misoedd cyntaf yn eithaf anhrefnus." Arweinydd strategol ALl

Yn yr un modd, disgrifiodd swyddogion Llywodraeth Cymru ymateb, ochr yn ochr ag ALlau, i ymrwymiad gwleidyddol a gyhoeddwyd yn ddi-oed. O'r safbwynt hwn, roedd yn ofynnol i

Llywodraeth Cymru ac ALlau ddechrau cynllunio'n gyflym yng nghyd-destun gwybodaeth sy'n esblygu, gan gynnwys ansicrwydd ynghylch gofynion cyllido a chyflenwi.

Teimlai arweinwyr strategol mewn awdurdodau lleol fod yr amser cyflwyno byr a'r amserlenni cyflwyno tynn yn ychwanegu mwy o bwysau. Cydnabuwyd yn eang fod gweithredu'n dasg anodd, ac roedd rhai arweinwyr strategol yn cyferbynnu'r cyflymder yng Nghymru â'r Alban, lle mae prydau ysgol am ddim i ddysgwyr cynradd yn cael eu cyflwyno'n raddol dros sawl blwyddyn (Ystadegau Arolwg Byw'n Iach mewn Ysgolion 2022). Er bod y cyflwyniad yng Nghymru wedi'i gyflwyno'n gam wrth gam yn yr un modd, roedd yr amserlen ar gyfer gweithredu'r polisi'n llawn yn llawer byrrach. Cofiodd ychydig o randdeiliaid ehangach a chogyddion a oedd yn rhan o'r astudiaethau achos bryderon cychwynnol ynghylch yr amserlenni uchelgeisiol hefyd.

Er gwaethaf y pwysau hyn, ystyriwyd bod y cyflwyniad graddol yn ddull cadarnhaol ac angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r polisi yn llwyddiannus. Nododd arweinwyr strategol fod y broses gyflwyno fesul cam yn rhoi amser ychwanegol i ysgolion baratoi, gan helpu'r rhan fwyaf o ysgolion i reoli'r broses yn gymharol hwylus. Roedd hefyd yn caniatáu hyblygrwydd ar gyfer cyd-destunau lleol, gan gynnwys ysgolion yr oedd angen i'w seilwaith gael ei uwchraddio (gweler Pennod 4.1.3).

Adroddwyd am rai heriau mewn perthynas â'r cyflwyniad graddol. Creodd gwahaniaethau mewn amseru rhwng ALlau anghydraddoldebau dros dro, ac roedd rhai plant yn cael prydau ysgol am ddim cyn eu brodyr a chwiorydd mewn ALlau cyfagos. Weithiau, nid oedd rhieni a gofalwyr dysgwyr hŷn ym mlynyddoedd 5 a 6 yn ymwybodol pan ddaeth eu plant yn gymwys yn ddiweddarach yn y broses gyflwyno. Disgrifiodd cynrychiolydd banc bwyd un enghraifft o ddysgwr yn cuddio bwyd i'w gymryd adref i frawd neu chwaer nad oedd yn gymwys eto, gan dynnu sylw at y problemau emosiynol a moesegol a grëwyd gan hyn:

"Byddent i'w gweld yn stwffio bwyd yn eu pocedi i'w gymryd adref i'w brodyr a'u chwiorydd hŷn oherwydd eu bod nhw'n gwybod na fyddai ganddyn nhw ddim i'w fwyta, sy'n gwbl, gwbl dorcalonnus."Cynrychiolydd banc bwyd, cyfweliad â rhanddeiliad ehangach

### 4.1.3. Cyfathrebu a chymorth

Gan adeiladu ar y pwysau a ddisgrifiwyd ym Mhennod 4.1.2, roedd profiadau ALlau o gyfathrebu a chymorth wrth gyflwyno UPFSM wedi'u cysylltu'n agos â'r amserlenni tynn a'r cynllunio cyflym oedd ei angen. Adroddodd sawl arweinydd strategol ALl fod canllawiau gan Lywodraeth Cymru ar gyllid, disgwyliadau cyflwyno neu weithredu ymarferol weithiau'n cael eu gohirio, yn aneglur, neu'n annigonol, gan eu gorfodi i ddehongli a gweithredu ar ganllawiau'n annibynnol. Roedd strwythurau cymorth ffurfiol, gan gynnwys sesiynau un-i-un a chyfarfodydd cenedlaethol, ar waith ond nid oedd cyfranogwyr yn cyfeirio atynt yn gyson, gan awgrymu bod ALlau yn dibynnu ar rwydweithiau anffurfiol a'u systemau eu hunain i reoli'r ddarpariaeth.

Tynnodd arweinwyr strategol yr ALlau sylw at ymdeimlad cryf o ddibyniaeth gydfuddiannol â swyddogion Llywodraeth Cymru. Roedd disgwyl i ALlau ddarparu data amserol a chywir i lywio penderfyniadau ariannu a chynllunio, tra oedd Llywodraeth Cymru yn rhannu diweddariadau wrth iddynt ddod ar gael gan weinidogion. Roedd y gyd-ddibyniaeth hon,

ynghyd â graddfa a chymhlethdod y rhaglen, yn golygu bod oediadau cyfathrebu yn gyffredin yn gynnar yn y broses gyflwyno; er hynny, roedd bod yn agored a thryloyw yn cael eu hannog drwyddi draw.

Yn gyffredinol, roedd ysgolion yn nodi eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan eu ALlau. Gwnaeth gyfranogwyr yr astudiaeth achos ddisgrifio’r ffaith eu bod wedi cael cymorth ymarferol megis cynllunio bwydlenni a chyngor ar sut i arlwyo ar gyfer alergeddau, a thynnwyd sylw at gyfathrebu clir a rheolaidd â staff y gegin. Ar yr un pryd, roedd profiadau gyda deunyddiau cyfathrebu Llywodraeth Cymru yn gymysg. Roedd rhai ysgolion yn eu cael yn glir ac yn ddefnyddiol, tra oedd eraill yn nodi bod y deunyddiau'n rhy ffurfiol, â gormod o destun, neu ddim yn gyfeillgar i rieni/gofalwyr. Mewn llawer o achosion, roedd staff yr ysgol yn addasu, symleiddio neu gyfieithu deunyddiau i sicrhau hygyrchedd i bob teulu, yn enwedig mewn cymunedau mwy amrywiol. Ychwanegodd yr addasiadau hyn at lwythi gwaith gweinyddol ond fe'u hystyriwyd yn angenrheidiol i wneud y polisi yn hygyrch ac yn ddealladwy.

Rhoddodd actorion eraill, megis rhanddeiliaid ehangach a oedd yn rhan o astudiaethau achos, wybod am heriau tebyg. Er bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio eu bod yn agored ac yn ymdrechu i ddarparu canllawiau mewn cyd-destun sy'n esblygu'n gyflym, nododd rhanddeiliaid fod oedi ac anghysondebau mewn perthynas â chyfathrebu wedi creu pwysau ychwanegol ar ALlau ac ysgolion. Nodwyd ceisiadau am ganllawiau mwy manwl ac ymarferol – yn enwedig ar faterion megis rheoli deietau arbennig, alergenau, a mwy o dasgau gweinyddol – fel meysydd lle gellid bod cymorth wedi’i gryfhau.

### 4.1.4. Cyfalaf / uwchraddio seilwaith

Cydnabu Llywodraeth Cymru fod angen newidiadau i'r seilwaith mewn rhai ysgolion i gyflwyno UPFSM a sicrhaodd fod cyllid ar gael ar gyfer hyn. Nododd y rhan fwyaf o arweinwyr strategol awdurdodau lleol fod cyllid cyfalaf a refeniw gan Lywodraeth Cymru yn un o’r prif bethau oedd yn gyfrifol am lwyddiant y polisi, gan ganiatáu gwaith i uwchraddio ceginau, ynghyd ag offer, staffio, a diweddaru systemau digidol. Dyrannwyd £71,856,845 mewn cyllid cyfalaf rhwng 2021 a 2026. Dyrannwyd y rhan fwyaf o'r cyllid hwn, £60 miliwn, fel rhan o gyllideb y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (£25 miliwn yn 2021 i 2022 a £35 miliwn yn 2022 i 2023) (Rhaglen Dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy). Mae'r dyraniadau fesul ALl fesul blwyddyn ar gael yn Atodiad 1.

Cyn ei gyflwyno, gofynnodd Llywodraeth Cymru i ALlau ymgymryd â gweithgareddau cynllunio, archwilio ac ymgysylltu yn lleol i lywio sut y gellid cynllunio a chyflawni cyflwyno'r ymrwymiad ar raddfa genedlaethol. Fe wnaethon nhw ddarparu £1.5 miliwn i gefnogi'r gweithgarwch hwn, a oedd yn cynnwys arolygon o geginau a seilwaith ehangach. Gofynnwyd i ALlau asesu eu gofynion cyfalaf, nodi beth oedd ei angen o fewn eu cyd-destun gweithredu, a phenderfynu pryd y gallent gyflwyno'r polisi a'r amserlen ar gyfer gwneud hynny. Adroddwyd canfyddiadau’r arolygon hyn yn ôl i Lywodraeth Cymru ac roeddent yn un o’r prif rhesymau dros gyflwyno’r polisi fesul cam a dros gyflymder y polisi yn genedlaethol.

Roedd arweinwyr strategol ALlau yn ystyried yr arolygon hyn yn hanfodol ar gyfer cyflwyno’r polisi yn llwyddiannus. Nododd un arweinydd strategol mewn ALl fod y cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi'i ddefnyddio i gomisiynu contractwr i arolygu ceginau i asesu offer presennol, a bod hynny wedi llywio buddsoddiad cyfalaf, gan dynnu sylw at yr angen am fwy o gyllid ar gyfer cynnal a chadw adeiladau. Yn yr un modd, soniodd arweinydd strategol arall fod archwiliadau ac arolygon wedi gosod y sylfaen ar gyfer cyflwyniad hwylus. Teimlai un arweinydd strategol ALl fod yr arolygon yn hanfodol oherwydd bod cyflwr ceginau ysgolion wedi’i danamcangyfrif gan Lywodraeth Cymru.

Roedd yr angen i uwchraddio seilwaith yn amrywio'n fawr ar draws ysgolion. Roedd gan rai ddigon o le cegin ac offer i ddarparu ar gyfer yr angen i gynhyrchu mwy o brydau bwyd, tra oedd angen datblygiadau sylweddol ar eraill i reoli’r angen i gynhyrchu mwy o brydau. Adlewyrchir yr amrywiad hwn yn y cyllid cyfalaf a ddyrannwyd i ALlau, a oedd yn amrywio o £1,145,098 (1.6% o gyfanswm y cyllid) i £10,145,803 (14.1%). Mae'r gwahaniaethau hyn yn ymwneud yn bennaf â maint pob ALl a nifer yr ysgolion sydd angen capasiti ychwanegol.

Mewn ysgolion lle roedd angen gwaith uwchraddio, roedd enghreifftiau o astudiaethau achos yn cynnwys gosod ffyrnau newydd, ehangu ardaloedd gweini, ac ychwanegu agoriadau gweini ychwanegol. Yn aml, roedd y gwaith hwn wedi'i drefnu yn ystod gwyliau'r ysgol i leihau'r aflonyddwch. Er enghraifft, adroddodd un ysgol astudiaeth achos ei bod wedi gosod offer a ffyrnau newydd dros yr haf. Yn yr un modd, nododd pennaeth ysgol astudiaeth achos arall fod y gegin wedi'i hadnewyddu dros wyliau'r haf i baratoi ar gyfer y cynnydd yn y niferoedd disgyblion ac adroddodd nad oedd yr ysgol wedi’i haflonyddu llawer.

Profodd o leiaf un ysgol astudiaeth achos aflonyddwch mawr oherwydd y gwaith uwchraddio. Cafodd cegin yr ysgol ei hadnewyddu'n llwyr i ddarparu ar gyfer y nifer uwch o ddysgwyr sy'n cael cinio ysgol. Nododd y pennaeth fod y prosiect wedi'i gynllunio'n wreiddiol heb ystyried capasiti'r gegin yn llawn, gan arwain at gyfnod o aflonyddwch o bedwar mis. Roedd angen mwy o drydan ar ffyrnau newydd nag oedd ar gael, gan achosi problemau yn ymwneud â’r cyflenwad pŵer y bu'n rhaid eu datrys trwy drafodaethau â pherchennog tir lleol. Gwnaeth ddarganfod asbestos arwain at oedi a chostau ychwanegol. Disgrifiodd y pennaeth y sefyllfa fel “hunllef na allai neb fod wedi’i rhagweld”, gan dynnu sylw at raddfa a chymhlethdod gwaith uwchraddio o’r fath.

Yn ystod y cyfnod hwn, roedd staff y gegin yn paratoi ciniawau oddi ar y safle. Er nad oedd y prif gogydd yn cael hyn yn anodd yn weithredol, roedd yn rhoi straen ar drefniadau gweinyddol. Er enghraifft, roedd angen addasiadau i'r cynllun rheoli traffig i gludo prydau poeth yn ddiogel ac roedd yn rhaid i bob dysgwr fwyta mewn un ystafell, gan ymestyn amser cinio. Yn sgil hynny, am fod gorwariannau mawr wedi digwydd, cwestiynodd y pennaeth ai gwaith adnewyddu oedd y defnydd gorau o arian. Pe bai'r cyllid wedi'i gyfeirio at addysg a'r ysgol yn ehangach, efallai y byddai blaenoriaethau eraill (megis cymorth addysgu, cyflogau staff neu atgyweiriadau brys i adeiladau, gan gynnwys to sy'n gollwng a boeler sy'n methu) wedi cael eu trin yn well.

Defnyddiwyd y cyllid cyfalaf oedd ar gael hefyd i gaffael offer cegin ychwanegol. Adroddodd rhai ALlau am anawsterau wrth sicrhau’r offer hyn, gyda tharfu ar y gadwyn gyflenwi yn ystod pandemig COVID-19 a rhyfel Wcráin yn creu oedi. Nododd arweinwyr strategol yr

awdurdodau lleol fod ysgolion a weithredodd y polisi yn ddiweddarach wedi'u heffeithio'n arbennig, gan fod y rhai a fabwysiadodd y polisi'n gynharach eisoes wedi hawlio stoc ar gael, gan adael llai o opsiynau ac amseroedd arweiniol hirach. Siaradodd darparwr bwyd ysgol am y ffaith fod gan eu ALl swyddog prosiect pwrpasol i fynd i'r afael ag anghenion offer ym mhob ysgol. Gwnaed hyn drwy arolwg o'r hyn oedd ei angen ym mhob ysgol. Nodwyd ymhellach, yn yr un achos penodol hwn, fod yr ALl wedi amsugno rhai o'r costau annisgwyl ar gyfer yr offer cegin. Mewn rhai ALlau, roedd yr arolygon yn galluogi prynu offer mewn swmp. Roedd y buddion disgwyliedig yn cynnwys sicrhau prisio mwy cystadleuol a chefnogi cynllunio mwy rhagweithiol, er na chadarnhawyd trwy gyfweliadau ag arweinwyr strategol ALlau a wireddwyd y buddion hyn yn ymarferol.

### 4.1.5. Recriwtio

Cafodd cyflwyniad UPFSM ei lywio gan ddiweddariadau rheolaidd gan ALlau ar eu parodrwydd i gyflawni ar draws grwpiau blwyddyn, a oedd hefyd yn ystyried capasiti'r gweithlu a recriwtio ochr yn ochr â gofynion gweithredol eraill.

Er bod cerrig milltir cyflwyno cenedlaethol yn seiliedig ar yr wybodaeth hon, roedd rhai ysgolion a darparwyr arlwyo yn dal i nodi pwysau o'r galw cynyddol am staff yn sgil UPFSM. Er bod gofynion recriwtio wedi'u hystyried fel rhan o'r gofynion cyfalaf oedd eu hangen ar gyfer y cyflwyniad (gweler Adran 194.1.3), adroddwyd mewn sawl achos bod y cynnydd yn nifer y prydau cinio wedi cynyddu'r llwyth gwaith ar gyfer paratoi a gweini bwyd, yn ogystal â'r angen am oruchwyliaeth ychwanegol amser cinio. Er mwyn rheoli'r pwysau hyn, gwnaeth rhai ysgolion newidiadau i oriau a rolau staff presennol. Er enghraifft, mewn rhai ysgolion astudiaeth achos, ailneilltuwyd cynorthwywyr addysgu neu staff gweinyddol i'r ffreutur; cafodd y newidiadau dros dro hyn eu gwrthdroi unwaith y cwblhawyd y recriwtio ar gyfer staff cegin ychwanegol. Mewn ysgolion eraill, cyflogwyd goruchwylwyr amser cinio ychwanegol, neu estynnwyd oriau staff presennol, i ddiwallu'r galw parhaus o'r cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n cael pryd ysgol.

Mewn ALlau a oedd yn cyflogi staff arlwyo'n uniongyrchol, y mathau o rolau yr oeddent yn cael eu recriwtio iddynt oedd rolau rhan-amser, hyblyg, amser tymor yn bennaf, ac roeddent yn aml yn anodd eu llenwi. Nododd llawer o arweinwyr strategol ALlau fod y galw am staff yn aml yn fwy na'r gallu i recriwtio, tra oedd rhai yn dibynnu ar staff asiantaeth, yn ad-drefnu timau, yn addasu oriau, neu'n cynnig cymhellion i ddenu a chadw staff. Adroddwyd bod dibyniaeth ar staff asiantaeth wedi cynyddu costau ac wedi cyflwyno anghysondebau mewn gweithrediadau amser cinio. Nid yw'n glir a oedd pwysau tebyg yn bodoli hefyd mewn achosion lle'r oedd ysgolion wedi contractio modelau arlwyo preifat neu fewnol. Trafodir yr heriau parhaus sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw staff ym Mhennod 5.2.2.

### 4.1.6. Hyrwyddo manteisio ar y cynnig

Mae nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar y ddarpariaeth yn ddangosydd pwysig o weithredu UPFSM yn llwyddiannus, gan fod effaith y polisi yn dibynnu ar ddysgwyr yn cymryd rhan mewn prydau ysgol. Mae'r is-adran hon yn canolbwyntio ar sut y cefnogodd ysgolion ac ALlau ddysgwyr i fanteisio ar y cynnig, gan gynnwys strategaethau i ymgysylltu â dysgwyr,

cyfathrebu â rhieni a gofalwyr, addasu bwydlenni, a rheoli anghenion deietegol. Cyflwynir canfyddiadau ar lefelau a phatrymau manteisio ar y cynnig ym Mhennod 5.1.

Strategaethau ymarferol amser cinio: chwaraeodd amrywiaeth ar y fwydlen a chymorth ar gyfer bwyta ffyslyd dan arweiniad staff rôl ganolog wrth annog dysgwyr i fanteisio ar y cynnig, yn enwedig ymhlith bwytawyr a ganfyddir eu bod yn “ffyslyd”. Deallwyd nad oedd ymddygiadau bwyta “ffyslyd” yn gysylltiedig ag unrhyw ofynion deietegol penodol nac ADY, ond â dewisiadau dysgwyr. Cyflwynodd rhai ysgolion strategaethau megis canmoliaeth lafar, systemau gwobrwyo, platiau blasu, a chyflwyno bwydydd newydd yn raddol i feithrin hyder ac ehangu dewisiadau. Addasodd staff arlwyo fwydlenni a chyflwyniad i wneud prydau bwyd yn fwy deniadol wrth gydymffurfio â'r Rheoliadau Bwyta'n Iach. Roedd lefel y cymorth yn amrywio, gydag ysgolion mwy yn wynebu heriau mwy o ran darparu anogaeth bersonol. Mewn rhai ysgolion, roedd staff yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod dysgwyr yn bwyta rhywfaint o fwyd yn hytrach na newid arferion bwyta, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae lefelau uwch o ddysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim.

Cafwyd trafodaeth ynghylch ble roedd y cyfrifoldeb am ymddygiadau bwyta “ffyslyd”. Roedd rhai rhieni a gofalwyr yn teimlo y dylai ysgolion annog plant i roi cynnig ar ystod ehangach o fwydydd drwy gydol yr wythnos. Fodd bynnag, roedd staff yr ysgol yn aml yn teimlo mai cyfrifoldeb rhieni a gofalwyr oedd hyrwyddo amrywiaeth ddeietegol yn bennaf, gan nad yw hyn yn flaenoriaeth yn ystod amser cinio. Mynegodd rhieni a gofalwyr a oedd yn rhan o'r astudiaethau achos safbwyntiau cymysg o ran dewisiadau bwydlen. Roedd rhai yn gwerthfawrogi ystod eang o opsiynau oherwydd ei fod yn eu sicrhau y byddai eu plentyn bob amser yn dod o hyd i rywbeth i'w fwyta. Dadleuodd eraill fod cynnig gormod o ddewisiadau yn atgyfnerthu arferion “ffyslyd”, gan ganiatáu i blant ddewis yr un pryd dro ar ôl tro, yn enwedig pan oedd opsiynau cyfarwydd fel pasta neu frechdanau ar gael bob dydd. Roedd rhanddeiliaid ehangach yr un mor amheus ynghylch cynnig nifer fawr o opsiynau bob dydd ac roeddent yn annog llai o ddewisiadau gydag amrywiaeth dros y dyddiau i annog dysgwyr i roi cynnig ar wahanol fwydydd.

#### 4.1.6.1. Bodloni anghenion/gofynion deietegol

Mae ehangu UPFSM wedi arwain at gynnydd amlwg yn nifer y dysgwyr sy'n cymryd prydau ysgol. Wrth i’r niferoedd gynyddu, adroddodd rhai ysgolion a darparwyr arlwyo gynnydd cyfatebol yn nifer ac amrywiaeth yr anghenion deietegol. Er nad yw anghenion deietegol megis alergeddau, anoddefiadau, gofynion a ragnodir yn feddygol, ac, mewn rhai achosion, anghenion synhwyraidd sy'n gysylltiedig â niwroamrywiaeth yn beth newydd, mae'r nifer cynyddol o ddysgwyr sy'n cael mynediad at brydau ysgol wedi gwneud yr anghenion hyn yn fwy heriol yn weithredol.[1]

Adroddodd rhanddeiliaid fod y cynnydd hwn mewn graddfa wedi cyflwyno mwy o gymhlethdod yn y ddarpariaeth, yn enwedig i timau arlwyo. Nododd rhai ysgolion fod darparu ar gyfer nifer uwch o ddysgwyr â gofynion deietegol penodol wedi cynyddu'r llwyth

[1] Roedd rheoli'r cynnydd mewn anghenion deietegol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion a darparwyr arlwyo gydbwyso cydymffurfedd â Rheoliadau Bwyta'n Iach â'u dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.Mae esemptiadau sylweddol o'r rheoliadau fel arfer yn gysylltiedig â gofynion deietegol a ragnodir yn feddygol ac a gefnogir gan dystiolaeth, tra bod addasiadau bach yn cael eu gwneud yn fwy cyffredin o fewn y fframwaith rheoleiddio presennol.

gwaith (gweler Pennod 5.2.2), yn enwedig mewn perthynas â rheoli gwybodaeth, cyfathrebu â rhieni a gofalwyr, a chydymffurfio â rheoliadau. Pan oedd ysgolion yn rheoli gofynion deietegol yn effeithiol, roedd dysgwyr ag alergeddau neu anghenion penodol eraill yn fwy tebygol o gymryd rhan yn UPFSM, gan gefnogi nifer uwch o ddysgwyr yn gyffredinol.

Mewn ymateb i nifer cynyddol ac amrywiaeth yr anghenion deietegol, nododd llawer o ALlau a darparwyr arlwyo eu bod wedi cryfhau neu ffurfioli eu prosesau wrth gyflwyno UPFSM. Er bod systemau eisoes ar waith yn aml cyn eu gweithredu, roedd mwy o bwyslais ar ddefnyddio tystiolaeth feddygol i gefnogi ceisiadau am brydau bwyd amgen neu wedi'u haddasu. Ystyriwyd hyn yn eang gan gyfranogwyr astudiaethau achos fel rhywbeth angenrheidiol i wahaniaethu rhwng gofynion meddygol a dewisiadau deietegol. Mewn rhai ardaloedd, cyflwynwyd systemau digidol i ganiatáu i rieni a gofalwyr lanlwytho tystiolaeth feddygol yn uniongyrchol. Ar gyfer cyflyrau a allai gymryd mwy o amser i'w diagnosio, gan gynnwys rhai sy'n gysylltiedig â niwroamrywiaeth, adroddodd arweinwyr strategol awdurdodau lleol a rhanddeiliaid ehangach y gellir derbyn tystiolaeth dros dro, fel nodyn meddyg yn cadarnhau bod dysgwr ar lwybr diagnostig.

Roedd y dulliau o reoli gofynion deietegol yn amrywio yn dibynnu ar drefniadau arlwyo. Cafodd un darparwr arlwyo mawr ganmoliaeth gan ysgol astudiaeth achos am ei broses strwythuredig pan fo rhieni a gofalwyr yn cwblhau ffurflen safonol yn manylu ar anghenion deietegol dysgwr. Yna defnyddir yr wybodaeth hon i ddatblygu bwydlen bwrpasol ar gyfer y dysgwr unigol, gan gydymffurfio â'r Rheoliadau Bwyta'n Iach pan fo'n berthnasol. Mewn ysgol arall, adroddwyd am ofynion deietegol yn uniongyrchol i gogydd yr ysgol, a gofnododd yr wybodaeth ac addasodd brydau bwyd yn unol â hynny (o fewn fframwaith y Rheoliadau Bwyta'n Iach).

Wrth gyflenwi’r gwasanaeth, disgrifiodd y staff ystod o fesurau ymarferol a gyflwynwyd i reoli'r nifer cynyddol o ddysgwyr ag anghenion deietegol penodol yn ddiogel ac yn effeithlon. Roedd y rhain yn cynnwys defnyddio hambyrddau â chod lliw i wahaniaethu rhwng prydau bwyd ac awgrymiadau gweledol, megis lluniau o ddysgwyr â gofynion prydau bwyd arbennig, i ailddyrannu oriau neu rolau staff dros dro i gefnogi paratoi a gweini bwyd. Mae canfyddiadau o'r arolwg ysgolion yn awgrymu, ar y cyfan, bod ysgolion yn ymateb yn effeithiol i ddiwallu anghenion/gofynion deietegol: roedd 87% o'r ymatebwyr (40 allan o 46) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod darpariaeth ar gyfer deietau arbennig ac anghenion meddygol yn eu hysgol.

Ledled Cymru, croesawodd rhanddeiliaid y gallu i gofrestru alergenau drwy systemau awdurdodau lleol, a gwelwyd bod hyn yn cefnogi cysondeb ar raddfa fawr. Fodd bynnag, mynegodd rhai ysgolion bryderon y gallai cadw gwybodaeth ddeietegol yn bennaf ar lefel yr ALl neu'r darparwr arlwyo, yn hytrach nag o fewn ysgolion, gyfyngu ar ymwybyddiaeth ehangach staff o anghenion dysgwyr unigol, yn enwedig lle roedd cyfathrebu'n digwydd yn uniongyrchol rhwng ALlau a thimau arlwyo.[2]

---

[2] Mae esemptiadau sylweddol o'r rheoliadau fel arfer yn gysylltiedig â gofynion deietegol a ragnodir yn feddygol ac a gefnogir gan dystiolaeth, tra bod addasiadau bach yn cael eu gwneud yn fwy cyffredin o fewn y fframwaith rheoleiddio presennol.

Wrth i nifer ac amrywiaeth y dysgwyr sy'n cael prydau ysgol gynyddu o dan UPFSM, gwnaeth staff mewn rhai ysgolion astudiaeth achos a rhieni a gofalwyr dynnu sylw at addasrwydd diwylliannol a chyfathrebu fel ffactorau ychwanegol yr oedd angen eu rheoli'n well. Yn benodol, adroddodd rhai rhieni a gofalwyr fod gwybodaeth aneglur am opsiynau halal, y ffaith nad oedd bwydlenni pob tro wedi'u cyfieithu, neu ansicrwydd ynghylch cynhwysion wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i ddarparu ciniawau pecyn yn lle. Er bod bwydlenni yn aml ar gael ymlaen llaw, gan ganiatáu i deuluoedd wneud dewisiadau gwybodus, nododd sawl ysgol astudiaeth achos y gallai diffyg amrywiaeth ddiwylliannol o ran y ddarpariaeth amser cinio effeithio ar a oedd dysgwyr o gefndiroedd gwahanol yn canfod bod y bwyd yn apelio neu'n gyfarwydd. Er enghraifft, crybwyllwyd brechdanau bara gwyn gan ysgolion astudiaethau achos fel opsiwn a allai fod yn anghyfarwydd yn ddiwylliannol neu'n annymunol i rai cymunedau ethnig, gyda goblygiadau ar gyfer cyfranogiad er gwaethaf y cynnydd mewn argaeledd.

#### 4.1.6.2. Ymgysylltiad rhieni/gofalwyr

Fe wnaeth cyflwyno UPFSM ysgogi rhai ysgolion ac ALlau i gryfhau ymgysylltiad a chyfathrebu â rhieni/gofalwyr ynghylch prydau ysgol, gan gydnabod y gall canfyddiadau ac ymwybyddiaeth ddylanwadu ar y defnydd o brydau ysgol. Adroddodd staff ysgolion yr astudiaethau achos fod gan lawer o rieni/gofalwyr safbwyntiau hen ffasiwn neu negyddol am brydau ysgol yn seiliedig ar eu profiadau eu hunain, gan adael rhai yn anymwybodol o'r ansawdd a'r amrywiaeth a gynigir bellach. Adroddwyd bod eglurder cyfyngedig ynghylch opsiynau penodol (er enghraifft, prydau halal heb eu hysbysebu'n glir) wedi arwain rhai teuluoedd i ddewis ciniawau pecyn yn hytrach na phrydau ysgol, gan ddangos sut y gall cyfathrebu effeithiol ddylanwadu'n uniongyrchol ar gyfranogiad UPFSM. Felly, gweithredodd rhai ysgolion astudiaeth achos fentrau megis sesiynau blasu, systemau bwydlenni ar-lein, apiau archebu ymlaen llaw, a rhannu lluniau o brydau bwyd i wella tryloywder a meithrin hyder rhieni/gofalwyr yn y cynnig prydau ysgol. Mae'r ymdrechion hyn wedi helpu i dawelu meddyliau rhieni, rhoi mwy o welededd a rheolaeth iddynt, ac annog agweddau mwy cadarnhaol tuag at brydau ysgol.

Yn ôl y sôn, mae heriau o amgylch tryloywder yn parhau. Adroddodd rhai rhieni/gofalwyr mewn rhai ysgolion astudiaeth achos ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r hyn yr oedd eu plentyn wedi'i fwyta i ginio, yn enwedig mewn achosion lle gallai dysgwyr newid eu dewis ar y diwrnod er gwaethaf dewis opsiwn ymlaen llaw ar-lein. Hefyd, nid oedd yn amlwg iawn o faint o'r pryd bwyd a gafodd ei fwyta neu ei wastraffu. Cefnogwyd hyn gan ysgol astudiaeth achos gyda system archebu â llaw sy'n golygu nad oes angen i deuluoedd archebu cinio ysgol ymlaen llaw. Yma, adroddodd staff a oedd yn rhan o'r astudiaethau achos am achosion pan oedd dysgwyr wedi cymryd pecyn cinio i'r ysgol â nhw ond yna wedi cael pryd ysgol hefyd, neu roeddent wedi cael yr un pryd dro ar ôl tro. Roedd hyn yn anodd ei olrhain ac yn cyfrannu at y canfyddiad o welededd cyfyngedig ymhlith rhieni/gofalwyr o faint o'r pryd bwyd a wastraffwyd. Tynnodd un ymateb ansoddol o'r arolwg ysgolion sylw at enghraifft sy'n cefnogi hyn ymhellach:

“Bydd rhieni'n archebu cinio i'w plentyn ond gallant roi brechdanau iddyn nhw (neu gallen nhw fod yn ymprydio). Dydyn nhw ddim yn poeni bod pryd o fwyd yn cael ei baratoi ac yn y

pen draw yn cael ei wastraffu gan nad ydyn nhw'n talu amdano mwyach."Rheolwr busnes ysgol, arolwg ysgol

## 4.2. Sut mae ALlau / y darparwr arlwyo wedi gweithredu newidiadau i arferion cyrchu a chaffael bwyd yn dilyn cyflwyno UPFSM?

Mae newidiadau i arferion cyrchu yn ganolog i ddeall sut mae UPFSM wedi'i weithredu, gan gynnwys sut mae ALlau a darparwyr arlwyo wedi addasu cadwyni cyflenwi, contractau, a chynllunio bwydlenni i ddarparu nifer uwch o brydau bwyd wrth gyflawni amcanion polisi yn ymwneud ag ansawdd a chynaliadwyedd. Fodd bynnag, adroddodd arweinwyr strategol ALlau ddehongliadau gwahanol o'r hyn sy'n cyfrif fel 'caffael lleol'. Yn benodol, roedd y safbwyntiau'n amrywio ynghylch a ddylid rhoi blaenoriaeth i gynhyrchion o Gymru neu'n fwy cyffredinol i gynhyrchion 'lleol', sef mater sy'n arbennig o berthnasol i ALlau sy'n ffinio â Lloegr. Defnyddiodd y rhan fwyaf o arweinwyr strategol yr ALlau bellter wrth ddiffinio 'lleol' ond gwnaethant roi flaenoriaeth i gyrchu o fewn Cymru pan fo'n ymarferol ac yn briodol. Defnyddiodd rhai ddiffiniad haenog, gyda'r sir neu'r rhanbarth yn cael eu dewis yn gyntaf, yna Cymru, yna'r Deyrnas Unedig. Fel rhan o'r cyfiawnhad hwn, ystyriwyd bod cefnogi ffermwyr, cynhyrchwyr a busnesau lleol yn hanfodol.

Ystyriwyd yn eang bod annog caffael lleol fel nod polisi yn gadarnhaol, yn enwedig ymhlith darparwyr bwyd ysgol a chyfranogwyr astudiaethau achos. Roedd ymatebwyr o ysgolion yr astudiaethau achos yn gadarnhaol tuag at gynyddu'r defnydd o gynnyrch o Gymru, yn enwedig o ran y gwerth diwylliannol ac addysgol. Er enghraifft, mewn un ysgol astudiaeth achos roedd diwrnodau â thema Gymreig pan hyrwyddwyd cynnyrch o Gymru, gan gysylltu'r bwyd a oedd yn cael ei fwyta â diwylliant Cymru. Ar ben hynny, tynnodd darparwyr bwyd ysgol sylw'n gadarnhaol at yr awydd i gefnogi economi Cymru a hyrwyddo hunaniaeth leol. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn bosibl nac yn realistig caffael cynnyrch o Gymru.

### 4.2.1. Rhwystrau i gaffael lleol

Roedd tystiolaeth yn gyfyngedig o sut y gweithredwyd arferion caffael a ffynonellau bwyd fel rhan o gyflwyno UPFSM. Ychydig iawn o fewnwelediad uniongyrchol oedd gan y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd i benderfyniadau caffael; pan oedd ymwybyddiaeth, roedd fel arfer yn ymwneud â chaffael ehangach ar lefel yr ALl, yn hytrach na threfniadau penodol i ysgolion cynradd.

Adroddwyd bod chwyddiant cynyddol mewn perthynas â chostau bwyd a chostau gweithredu uwch yn cyfyngu ar y graddau y gallai ysgolion gyrchu bwyd yn lleol. Er bod y gyfradd fesul uned wedi cynyddu 10% o £2.90 i £3.20 ym mis Rhagfyr 2023, ar adeg casglu data ar gyfer yr adroddiad hwn, nid oedd unrhyw gynnydd pellach wedi bod er gwaethaf chwyddiant parhaus (Cyllideb Derfynol 2024 i 2025). Ers hynny, mae'r gyfradd uned wedi cynyddu i £3.40 ar gyfer dyraniadau ar gyfer blynyddoedd ysgol 2025 i 2026 a 2026 i 2027 (Hwb gwerth £8 miliwn i brydau bwyd mewn ysgolion cynradd yng Nghymru). Tynnodd darparwyr bwyd ysgol sylw at y ffaith, heb gynnydd pellach mewn cyllid prydau ysgol sy'n cyd-fynd â chostau bwyd cynyddol, fod cynaliadwyedd caffael lleol dan fygythiad. Roedd cynhwysion megis cig, yn enwedig cyw iâr, yn cael eu hystyried yn rhatach pan gâi eu prynu o dramor, ac adroddwyd bod archfarchnadoedd yn bidio yn fwy nag ysgolion am eitemau tymhorol, gan wneud cyrchu lleol yn fwy heriol.

Nododd rhai darparwyr bwyd ysgol, er bod diddordeb mewn defnyddio mwy o gynnyrch o Gymru, y byddai hyn yn gofyn am gymorth ariannol neu gymorthdaliadau ychwanegol er mwyn osgoi rhoi straen ar gyllidebau ysgolion. Mynegodd darparwyr bryderon, o dan y pwysau cost presennol, y gallai ysgolion ddychwelyd at opsiynau rhatach, nad ydynt yn lleol, a allai danseilio ansawdd prydau bwyd a buddion economaidd lleol. Fe wnaethant hefyd adrodd bod rhai cyflenwyr lleol wedi dod yn fwyfwy dibynnol ar alw sy'n gysylltiedig ag UPFSM. Felly gallai unrhyw oedi mewn cyllid neu addasiadau cost beryglu lleihau archebion neu achosi caffael cynnyrch gan gyflenwyr nad ydynt yn lleol.

Nododd rhanddeiliaid ehangach a gyfwelwyd y gall yr ystod gyfyngedig o gynnyrch a ffermir yng Nghymru fod yn rhwystr i gaffael lleol. Er bod llawer o laeth a chig yn cael eu cynhyrchu, mae ffermio garddwriaethol yn gyfyngedig, gan leihau amrywiaeth y cynnyrch a ffermir yng Nghymru. O ran cynhyrchion becws, roedd staff mewn rhai ysgolion astudiaeth achos yn cwestiynu ymarferoldeb cyrchu o Gymru yn unig, gan nodi agosrwydd llawer o siopau bara yn Swydd Amwythig a Swydd Stafford gyfagos.

Adroddwyd hefyd fod cyfyngiadau storio mewn ysgolion yn cyfyngu ar y defnydd o gynnyrch lleol ffres. Nododd arbenigwr ym maes cynaliadwyedd mai yn yr haf yw uchafbwynt y tymor amaethyddiaeth, a bod lle cyfyngedig yn y rhewgell yn achosi problemau wrth storio'r cynnyrch tan ar ôl gwyliau'r haf. Gall cynhwysion ffres hefyd gael effaith ar lwyth gwaith cogyddion yr ysgol. Er bod coginio o ddim yn cynnig buddion megis ansawdd maethol gwell, gall hefyd gynyddu gwastraff, amser ac ymdrech, fel y gwelwyd gan un darparwr bwyd ysgol. Nodwyd bod symud tuag at gynhwysion ffres yn fwy cyffredinol yn achosi newid sylweddol o'r mathau o brydau bwyd y mae llawer o gogyddion yn gyfarwydd â'u paratoi. Amlygwyd cig amrwd, yn benodol, fel rhywbeth sy'n cyflwyno heriau oherwydd risg difetha, trimiadau, a lefelau uwch o wastraff na ellir ei osgoi.

Soniwyd hefyd am ddiffyg seilwaith prosesu gan ddarparwyr bwyd ysgol a rhanddeiliaid ehangach fel rhwystr i gaffael bwyd lleol. Hyd yn oed pan fo cynnyrch ar gael o ffermydd Cymru, mae cyfleusterau i'w lanhau, ei baratoi a'i brosesu i'w ddefnyddio mewn ceginau ysgolion yn gyfyngedig. Adroddodd rhanddeiliaid ehangach fod buddsoddi mewn cyfleusterau prosesu a storio yn hanfodol i ehangu'r defnydd o gynnyrch o Gymru. Ar ben hynny, nododd un arweinydd strategol ALl fod angen amser ac arbenigedd staff ychwanegol i reoli caffael lleol a pharatoi cynhwysion ffres a lleol. Siaradodd staff mewn dwy ysgol astudiaeth achos (yn yr un ALl) hefyd am sut roedd cau lladd-dy lleol wedi gorfodi newid o ffynonellau lleol yn flaenorol, ac mae'r mater hwn yn parhau i fod heb ei ddatrys yn dilyn cyflwyno UPFSM.

Er bod rhai rhanddeiliaid wedi gwneud sylwadau ar rwystrau a galluogwyr cyffredinol i gaffael lleol (a drafodwyd uchod), ychydig a ddisgrifiodd sut y lluniodd neu y dylanwadodd y ffactorau hyn yn benodol ar brosesau gweithredu. Nododd 43% o ymatebwyr yr arolwg ysgolion (20 allan o 46 o ymatebwyr) nad oedd unrhyw newidiadau yng nghyfran y bwyd o Gymru ar y fwydlen ers UPFSM (roedd gan 18 allan o'r 20 ymatebydd hyn ddarparwr arlwyo ALl), gyda 22% (10 allan o 46 o ymatebwyr) yn nodi nad oeddent yn gwybod (roedd gan 9 o'r 10 ymatebydd hyn ddarparwr arlwyo ALl).

### 4.2.2. Hwyluswyr caffael lleol

Mae rhywfaint o dystiolaeth y gall dosbarthwyr mawr helpu i hwyluso caffael bwyd lleol drwy fynd i'r afael ag un o'r prif rwystrau i gynhyrchwyr bach: logisteg (gweler uchod am rwystr sy'n ymwneud â logisteg). Darparwyd enghraifft gan randdeiliad ehangach o gwmni mawr

yn integreiddio cyflenwyr llai o Gymru i'w systemau dosbarthu presennol. Mae hyn wedi "llenwi bylchau yn y gadwyn o'r fferm i'r fforc" yn effeithiol, gan alluogi mwy o gynnyrch o Gymru i gyrraedd ceginau ysgolion ar raddfa fawr. Mae'r model cydweithredol hwn yn caniatáu i ffynonellau lleol fod yn ymarferol ac yn ddibynadwy o fewn cyfyngiadau arlwyo yn y sector cyhoeddus.

Mae sawl menter beilot a gefnogir gan Lywodraeth Cymru wedi ceisio archwilio dulliau o gynyddu caffael bwyd lleol a chefnogi cynhyrchwyr bach. Nod y cynlluniau peilot hyn oedd cryfhau cadwyni cyflenwi, gwella mynediad at gynnyrch a dyfir yng Nghymru, a phrofi modelau ymarferol ar gyfer cynyddu faint o gynnyrch a ddefnyddir mewn ysgolion sy'n cael ei gyrchu'n lleol. Er enghraifft, mae Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion yn brosiect a gydlynir gan Synnwyr Bwyd Cymru (ac a ariennir gan Gronfa Cefnogi Busnesau Lleol Llywodraeth Cymru) sy'n anelu at gynyddu faint o lysiau organig a dyfir yng Nghymru a weinir mewn prydau bwyd ysgolion cynradd ledled Cymru (Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion). Gan ddechrau yn 2022, mae'n gweithio trwy ail-lunio cadwyni cyflenwi i roi blaenoriaeth i dyfwyr lleol, lleihau dibyniaeth ar fewnforion, a chryfhau cydnerthedd bwyd Cymru. Yn 2022, dim ond 6% o lysiau a brynwyd ar gyfer y sector cyhoeddus oedd wedi'u cyrchu'n lleol yng Nghymru, tra, yn 2024, gweinodd Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion 200,000 dogn o lysiau ffres, organig mewn mwy na 200 o ysgolion. Gwnaeth rhanddeiliad ehangach sylwadau ar bwysigrwydd y fenter hon i gryfhau cysylltiadau rhwng ysgolion a ffermwyr lleol ac i fabwysiadu safbwynt system gyfan, gan gysylltu dysgu yn yr ystafell ddosbarth â ffermio a chynhyrchu bwyd.

Fel y soniwyd yn flaenorol, adroddodd rhanddeiliaid yn gyffredinol fod cyflenwadau llaeth a chig o Gymru yn doreithiog, ac mae'r cadwyn gyflenwi yn gadarn ac yn gallu ehangu i ddiwallu galw uwch. Ar adeg yr ymchwil, nododd dau ddarparwr bwyd ysgol nad oeddent yn profi unrhyw heriau o ran bodloni'r galw presennol. Awgrymodd rhanddeiliaid ehangach a darparwyr bwyd ysgol hefyd y gallai natur leol caffael wneud y gadwyn gyflenwi yn llai agored i niwed gan siociau allanol. Mewn achos o dywydd eithafol, er enghraifft, byddai cynhyrchwyr ac ysgolion yn cael eu heffeithio gan yr un aflonyddwch, sy'n golygu, os na ellid dosbarthu cynnyrch, y byddai ysgolion yn annhebygol o agor beth bynnag. Fodd bynnag, mae hyn yn debygol o fod yn berthnasol dim ond pan fo'r cynnyrch yn cael ei baratoi ar y safle. Fel y nodwyd yn gynharach, mae diffyg seilwaith prosesu lleol yn parhau i fod yn rhwystr pwysig i ehangu'r defnydd o gynnyrch o Gymru.

# 5. Deilliannau ac effeithiau sy'n dod i'r amlwg

Mae'r bennod hon yn archwilio'r deilliannau a'r effeithiau sy'n dod i'r amlwg a ganfuwyd yn ystod blwyddyn gyntaf y gwerthusiad hwn. Mae'r canfyddiadau hyn yn rhagarweiniol a byddant yn cael eu harchwilio'n fanylach wrth i'r gwerthusiad fynd rhagddo.

## 5.1. Sut mae UPFSM wedi effeithio ar nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim?

Mae'r is-adran hon yn cyflwyno data ar gyfran y dysgwyr sy'n cael prydau ysgol ers cyflwyno UPFSM (gweler Pennod 16). Mae'n tynnu sylw at dueddiadau dros amser, gwahaniaethau rhwng grwpiau blwyddyn ac ALlau, a phatrymau mewn nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim wedi'u cysylltu â'u gwybodaeth am y cynnig gyffredinol.

Mae cyfyngiadau pwysig i'w hystyried wrth ddehongli'r data. Cyfrifir nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim fel nifer y prydau bwyd a weinir, wedi'i fynegi fel cyfran o gyfanswm y prydau bwyd y gellid bod wedi'u gweini pe bai pob dysgwr ar y gofrestr wedi mynychu'r ysgol. Mae'r dull hwn yn tybio presenoldeb o 100% ac nid yw'n ystyried presenoldeb gwirioneddol, a oedd ar gyfartaledd yn 8.5% yn 2022/23 a 7.9% yn 2023/24 (Absenoldeb o ysgolion cynradd). O ganlyniad, mae nifer o ddysgwyr sy'n manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim wedi'i danamcangyfrif. Mae'r holl ffigurau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y dybiaeth o bresenoldeb llawn er mwyn cysondeb, ond rhaid eu trin yn ofalus.

Cyfyngiad arall yw absenoldeb data cymharol ar y defnydd cyn gweithredu UPFSM. Mae'r diffyg gwybodaeth sylfaenol hwn yn ei gwneud yn anodd asesu newidiadau hirdymor neu gymharu'r nifer sy'n manteisio ar y cynnig o brydau ysgol am ddim ar hyn o bryd â phatrymau blaenorol.

### 5.1.1. Lefelau y dysgwyr yn manteisio ar y cynnig UPFSM[3]

Mae data o fis Gorffennaf 2024 yn dangos bod gwahaniaethau o hyd yn nifer y dysgwyr sy'n cael prydau ysgol ar draws ALlau. Roedd y gyfradd gyfartalog o ddysgwyr a manteisiodd ar y cynnig ym mis Gorffennaf 2024 yn 69%, yn amrywio rhwng 57% ac 82%. Mae hyn yn nodi cynnydd ers i'r cynnig ddod ar gael i ddysgwyr yn y dosbarth derbyn ym mis Medi 2022, pan oedd y gyfradd a fanteisiodd ar y cynnig yn 67%. Mae'n werth nodi bod y ddau bwynt hyn yn disgyn ar ddechrau a diwedd y flwyddyn ysgol, a gall ffactorau tymhorol megis patrymau presenoldeb neu weithgareddau ysgol gael effaith fach ar y niferoedd sy'n cael prydau ysgol am ddim.

Mae'n debyg bod y duedd ar i fyny yn cael ei hegluro gan y cyflwyniad graddol, a ddechreuodd gyda'r blynyddoedd iau. Nododd staff a gyfwelwyd mewn astudiaethau achos fod y nifer a fanteisiodd ar y cynnig am brydau ysgol am ddim yn is pan ehangwyd y polisi i grwpiau blwyddyn hŷn, gan fod y dysgwyr hyn yn llai cyfarwydd â chael ciniawau ysgol.

[3] Mae'r bennod hon yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar brydau bwyd a gynigir o dan y ddarpariaeth UPFSM ac nid yw'n cynnwys ffigurau ar ddysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim nac amddiffyn wrth bontio.

Mewn cyferbyniad, mae cyfraddau manteisio ar y cynnig ymhlith dysgwyr sydd wedi cael y cynnig drwy gydol eu hamser yn yr ysgol yn uwch. Adroddodd arweinwyr strategol awdurdodau lleol batrymau tebyg: roedd y nifer uchaf o ddysgwyr yn manteisio ar y cynnig yn tueddu i fod ymhlith y blynyddoedd iau, ac roedd gostyngiad amlwg ar gyfer blynyddoedd 5 a 6 yn ystod y broses gyflwyno. Maent yn disgwyl y bydd parhau i weithredu'r polisi yn cynnal buddion amlygiad cynnar, gyda nifer y dysgwyr sy'n derbyn UPFSM yn debygol o godi wrth i garfannau iau symud i fyny drwy'r system.

#### 5.1.2. Dylanwad cynnig cyffredinol ar y nifer sy'n manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim

Yn ôl y sôn, mae'r ddarpariaeth gyffredinol o brydau ysgol am ddim o dan UPFSM wedi bod yn un o’r prif rhesymau pam mae mwy o ddysgwyr wedi manteisio ar y cynnig i gael prydau ysgol am ddim. Drwy gael gwared ar gost fel rhwystr, mae mynediad at brydau ysgol wedi ehangu, yn enwedig i deuluoedd sy'n cael trafferthion ariannol ond nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Adroddodd cyfranogwyr astudiaethau achos ac arweinwyr strategol awdurdodau lleol fod y polisi hwn o fudd penodol i deuluoedd ychydig uwchben y trothwy ar gyfer bod yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Er enghraifft, esboniodd staff mewn un ysgol astudiaeth achos fod dysgwyr yr oeddent yn gwybod eu bod wedi profi ansicrwydd bwyd yn flaenorol bellach yn gallu cael mynediad cyson at brydau bwyd. Yn yr un modd, disgrifiodd un arweinydd strategol ALl sut, cyn y polisi, roedd yn rhaid i rai teuluoedd ychydig uwchben y trothwy i’w plant bod yn gymwys am brydau ysgol am ddim, ac roedd ganddynt ddau neu dri o blant oedran cynradd, gylchdroi pwy oedd yn cael pryd ysgol, gan na allent fforddio prydau bwyd i bawb.

Er bod niferoedd y dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim sy’n manteisio ar y cynnig yn parhau i fod yn isel mewn rhai ardaloedd oherwydd absenoldeb yn hytrach na chost, i'r rhan fwyaf o deuluoedd y penderfyniad i gymryd rhan yw un ariannol yn bennaf. Teimlwyd hyn ar draws ysgolion yr astudiaeth achos, gydag un pennaeth yn pwysleisio bod “y ffaith ei fod yn rhad ac am ddim i bawb yn ddigon i hyrwyddo’r cynllun”. Yn ogystal, amlygwyd y budd ariannol o beidio â gorfod prynu cinio pecyn na thalu am giniawau ysgol i rieni/gofalwyr (gweler Pennod 5.5). Cefnogir hyn gan bedwar ymatebydd i'r arolwg ysgolion, a nododd yn ansoddol, gan fod y cynnig am ddim, fod rhieni/gofalwyr yn gwneud defnydd da ohono.

Mewn rhai ysgolion, roedd y cynnig cyffredinol hefyd yn cael ei ganfod fel un sydd wedi creu profiad ciniawa a rennir, gyda mwy o ddysgwyr yn bwyta gyda'i gilydd a chyfranogiad yn dod yn norm yn hytrach na'r eithriad. Yn ôl y sôn, mae'r newid hwn o ran normau cymdeithasol wedi cynyddu dylanwad cyfoedion, ac mae dysgwyr yn aml yn dewis yr un bwydydd â'u ffrindiau neu'n copïo'r hyn y mae eraill yn ei wneud.

Tynnodd rhieni/gofalwyr a staff ar draws sawl ysgol astudiaeth achos sylw at y ffaith bod y dynameg gymdeithasol hon yn annog plant i roi cynnig ar fwydydd newydd. Er enghraifft, esboniodd un dysgwr ei fod yn betrusgar i ddechrau bwyta nygets llysieuol ond, ar ôl i ffrind dweud pa mor blasus oeddynt, maent bellach wedi dod yn hoff bryd ysgol iddynt. Adroddodd rhai rhieni/gofalwyr fod y rhyngweithiadau hyn hefyd wedi cael effeithiau

andwyol ar arferion bwyta eu plant gartref, gan eu gwneud yn fwy parod i arbrofi gyda gwahanol fwydydd.

“Mae plant yn fodlon rhoi cynnig ar giniawau wrth wylio eu ffrindiau’n bwyta’r bwyd. Maen nhw eisiau copïo eu ffrindiau neu dim ond cael eu dylanwadu gan ei gilydd.”Rhiant/gofalwr, astudiaeth achos

“Roedd cael llawer o ffrindiau o’u cwmpas yn bwyta’r un peth â nhw yn drobwynt mawr; rydw i’n meddwl ei fod yn helpu i ddylanwadu ar eu barn am fwyd hefyd.”Athro, astudiaeth achos

Mae rhai ysgolion wedi atgyfnerthu'r ymddygiadau cadarnhaol hyn trwy newidiadau i drefniadau amser cinio a mentrau dan arweiniad cyfoedion ers cyflwyno UPFSM. Mewn un ysgol, er enghraifft, mae seddi penodedig mewn “grwpiau teuluol” wedi disodli dewis seddi, ac mae hyn yn ôl athrawon yn helpu dysgwyr i deimlo’n ddiogel wrth annog rhyngweithio y tu hwnt i’w cylchoedd cyfeillgarwch arferol. Canmolodd un rhiant/gofalwr y dull, gan ddweud ei fod wedi helpu ei blentyn i “deimlo’n ddiogel, am fod ganddo ei le eistedd dynodedig”.

Un enghraifft arall oedd cyflwyno menter ‘Criw Cinio’ mewn un ysgol, a ategodd arferion bwyta iach ymhellach. Mae dysgwyr Blwyddyn 6 yn gwisgo ffedogau wedi'u brandio ac yn gweini eitemau megis salad, bara a chwscws wrth y bar salad, gan fodelu ymddygiad da a hyrwyddo dewisiadau iach. Dywedwyd gan staff yn yr ysgol fod y strategaethau hyn, ynghyd â'r cynnig cyffredinol, yn helpu i normaleiddio prydau ysgol ac yn ehangu cyfleoedd ar gyfer modelu gan gyfoedion, gan dynnu sylw at yr amgylchedd cymdeithasol fel ffactor pwysig wrth edrych ar faint o ddysgwyr sy’n manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim.

## 5.2. Beth yw’r effeithiau sy'n dod i'r amlwg o'r polisi ar fywyd ysgol?

Fel polisi galluogi, mae tystiolaeth yn awgrymu bod llwyddiant UPFSM yn dibynnu ar rai amodau a'i weithredu'n effeithiol. Mae angen amgylchedd cefnogol i weithio fel y bwriadwyd ac atal deilliannau negyddol anfwriadol. Er enghraifft, mae ymchwil yn dangos bod trefniadau amser cinio cynhwysol a mannau bwyta sydd wedi'u cynllunio'n dda yn caniatáu i bob dysgwr fwyta cinio ysgol mewn digon o amser er mwyn cael chwarae a datblygu mewn ffordd iach (Williamson ac eraill, 2013; Nijhof ac eraill, 2018). Mae UPFSM hefyd yn fwy effeithiol pan gaiff ei weithredu ochr yn ochr â pholisi bwyd ysgol gyfan (Bryant ac eraill, 2023). Gall hefyd weithredu fel catalydd ar gyfer gwella'r polisïau hyn drwy agor sgyrsiau â chyrff llywodraethu, darparwyr arlwyo ysgolion, arweinwyr ysgolion, dysgwyr, rhieni/gofalwyr a staff addysgu ynghylch yr hyn a weinir, pam a phryd.

Mae'r is-adran hon yn archwilio effeithiau sy'n dod i'r amlwg o UPFSM ar fywyd ysgol. At ddibenion yr is-adran hon, mae ‘bywyd ysgol’ yn cyfeirio at brofiadau dyddiol dysgwyr yn yr ysgol sy'n gysylltiedig â phrydau bwyd a'r amgylchedd amser cinio. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig y weithred o fwyta a'r bwyd ei hun, ond hefyd agweddau cymdeithasol, addysgol, gweithredol ac emosiynol amseroedd bwyd, yn ogystal â sut mae polisïau ysgol, arferion staff a rhyngweithio rhwng cyfoedion yn llunio'r profiadau hyn.

### 5.2.1. Effaith ar y profiad amser cinio

Mae cyflwyno UPFSM wedi cynyddu nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar brydau ysgol (gweler Pennod 5.1), sydd wedi rhoi pwysau ar logisteg amser cinio mewn llawer o ysgolion. Dim ond ychydig o staff a dysgwyr ar draws ysgolion yr astudiaethau achos a roddodd wybod am giwiau hirach, bwyta brysiog, ac amgylchedd bwyta mwy anhrefnus o ganlyniad i niferoedd uwch o ddysgwyr yn cael mynediad at bryd ysgol. Yn ôl y sôn, mae hyn wedi bod yn wir, yn enwedig mewn ysgolion mwy sydd â lle cyfyngedig a chyfleusterau a rennir, er gwaethaf y cyllid cyfalaf a gafwyd gan Lywodraeth Cymru i wella capasiti'r gegin a'r ystafell fwyta a chefnogi cyflwyno'r polisi yn effeithiol (gweler Pennod 4.1.3). Mae staff ar draws sawl ysgol astudiaeth achos yn adrodd am heriau o ran cynnal goruchwyliaeth, cefnogi ymddygiadau bwyta iach, a sicrhau bod gan ddysgwyr ddigon o amser i fwyta, gyda rhai dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu rhuthro neu'n gadael bwyd heb ei fwyta.

“Oherwydd bod yn rhaid i ni weini 300 o blant, mae'n debyg iawn i’r canlynol: rydyn ni'n eu cael nhw i mewn, maen nhw'n eistedd, pan maen nhw'n gorffen maen nhw'n mynd allan i chwarae, nid yw fel petaen ni'n aros i fwrdd orffen neu beth bynnag. Unwaith maen nhw'n gorffen, maen nhw'n crafu’r bwyd oddi ar eu platiau – mae'r rhai hŷn yn gwneud hynny – yn pentyrru eu platiau ac yna byddan nhw'n mynd allan yn syth i chwarae.”Pennaeth, astudiaeth achos

Nododd staff cegin ar draws sawl ysgol astudiaeth achos fod amseroedd cinio prysurach yn cael effaith fwy ar ddysgwyr iau, y maent yn adrodd bod angen mwy o gymorth arnynt mewn perthynas â phrydau poeth o’u cymharu â chiniawau pecyn, wrth ddewis eu pryd, defnyddio cyllyll a ffyrc, a chael help i gario eu hambwrdd yn ôl i'w byrddau. Ategodd dysgwyr hyn hefyd, gyda rhai dysgwyr mewn un ysgol astudiaeth achos yn nodi bod y 30 munud a neilltuwyd ar gyfer ciwio am ginio ac yna bwyta cinio yn aml yn annigonol, yn enwedig ar gyfer y grwpiau blwyddyn iau.

Roedd yna hefyd rai adroddiadau gan rieni/gofalwyr a dysgwyr mewn ychydig o ysgolion astudiaeth achos bod dysgwyr hŷn weithiau'n teimlo eu bod yn cael eu rhuthro amser cinio oherwydd eu bod yn cael eu gweini'n hwyrach, gan adael llai o amser i fwyta cyn mynd allan i chwarae neu ddychwelyd i'r dosbarth. Er bod ysgolion fel arfer yn pennu hyd cinio ac yn aml yn defnyddio rotas i amrywio pa grwpiau blwyddyn sy'n bwyta gyntaf, adroddodd rhai dysgwyr a rhieni/gofalwyr fod ciwiau hirach o ganlyniad i nifer uwch o ddysgwyr yn cymryd pryd ysgol yn effeithio'n bennaf ar ddysgwyr hŷn gan eu bod yn dal i dueddu i gael eu gweini olaf. Er enghraifft, disgrifiodd un rhiant sut mae ei phlant (blynyddoedd 5 a 6) yn “llwgu” pan maen nhw’n dod allan o’r ysgol oherwydd eu bod nhw wedi cael eu rhuthro. Gwnaeth dysgwyr adrodd fod ciwiau hir ac amser cyfyngedig rhwng dosbarthiadau yn aml yn eu gadael i aros hyd yn oed ar ôl ymuno â'r ciw cinio. Mewn ysgol arall, dywedodd dysgwyr eu bod wedi dewis cael cinio pecyn oherwydd ciwiau hir ar gyfer cinio ysgol. Gwnaeth arbenigwyr iechyd cyhoeddus a maeth a gyfwelwyd ategu’r pwynt hwn, gan nodi y gall ciwiau hir a neuaddau cinio swnllyd atal dysgwyr sensitif rhag bwyta pryd ysgol, gan eu hannog i ddod â chiniawau pecyn er mwyn osgoi teimlo wedi’u llethu.

“Mae gweini prydau bwyd mewn gwirionedd yn cymryd ychydig yn hirach nag y mae pobl yn ei feddwl.”Goruchwyliwr amser cinio, astudiaeth achos

Mewn ymateb i'r cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n dewis prydau ysgol, mae rhai ysgolion wedi ad-drefnu eu trefniadau amser cinio i wneud yr amgylchedd amser cinio yn llai anhrefnus. Adroddodd staff mewn un ysgol astudiaeth achos eu bod yn gweini dau grŵp blwyddyn ar y tro, gan ddefnyddio agoriad gwasanaeth ychwanegol, ac mae pob grŵp wedi'i ddyrannu mwy o amser i gasglu eu bwyd a bwyta. Yn flaenorol, roedd yr ysgol yn anelu at symud dysgwyr drwy'r neuadd fwyta cyn gynted â phosibl, ond roedd hyn yn aml yn gadael dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu rhuthro. Esboniodd y pennaeth fod y dull newydd wedi gwneud y profiad bwyta yn llawer mwy cadarnhaol, gan nodi:

“Doedden nhw ddim yn cael eistedd i lawr mewn un lle ac roedd fel cludfelt. Peth pwysig i ni fel ysgol yw bod ein plant yn cael cyfle i eistedd a bwyta eu cinio, cymryd amser, ei fwynhau, a sgwrsio â'u ffrindiau oherwydd rydyn ni'n gwybod nad oes gan lawer o'n plant y cyfle hwnnw gartref i eistedd i lawr a'i fwynhau go iawn.”Pennaeth, astudiaeth achos

Datgelodd tystiolaeth astudiaethau achos fod ysgolion llai wedi profi llai o darfu ar wasanaethau amser cinio yn dilyn cyflwyno UPFSM. Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod y newidiadau oedd eu hangen yn fach ac nad oeddent wedi cael yr effaith ganlyniadol ar yr amgylchedd amser cinio, staffio, na phrofiad y dysgwr. Adroddodd un ysgol astudiaeth achos lai, gyda llai na 100 o ddysgwyr, fod dysgwyr iau bellach yn dod i ginio ychydig yn gynharach, fel bod ganddyn nhw ddigon o amser i orffen eu cinio cyn i'r dysgwyr hŷn gyrraedd. Fodd bynnag, nodwyd nad yw'r newid hwn wedi effeithio ar weddill trefn yr ysgol.

Mae canfyddiadau o'r arolwg ysgolion yn cefnogi'r darlun hwn o sut mae UPFSM wedi dylanwadu ar brofiadau amser cinio dysgwyr. Ers cyflwyno UPFSM, mae 17% (8 allan o 47 o ymatebwyr) yn dweud bod dysgwyr yn mwynhau amser cinio yn fwy, mae 64% (30 allan o 47 o ymatebwyr) yn dweud bod mwynhad wedi aros yr un fath, ac mae 17% (8 allan o 47 o ymatebwyr) yn nodi llai o fwynhad. Ac eto, wrth eu dadansoddi yn ôl maint yr ysgol, nododd pedwar allan o naw pennaeth mewn ysgolion ychydig yn fwy (y rhai â 301–500 o ddysgwyr) lefelau is o fwynhad, gan awgrymu bod yr ysgolion hyn yn wynebu mwy o bwysau o ganlyniad i'r polisi. Fodd bynnag, mae maint bach y sampl yn cyfyngu ar gryfder y canfyddiad hwn.

### 5.2.2. Effaith ar lwyth gwaith a llesiant staff

Mae'r cynnydd yn nifer y prydau bwyd sy'n cael eu paratoi a'u gweini o ganlyniad i UPFSM wedi gosod gofynion ychwanegol ar staff ysgolion a thimau arlwyo. Mewn rhai ysgolion, adroddodd staff y gegin fod y llwyth gwaith yn hylaw a mynegwyd boddhad â'u hamodau gwaith. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn ysgolion llai lle nad oedd angen ond newidiadau staffio lleiaf posibl, er bod adborth tebyg wedi'i nodi mewn un ysgol astudiaeth achos fwy hefyd. Fodd bynnag, cafwyd ychydig o adroddiadau am bwysau cynyddol ar staff o ganlyniad i amseroedd cinio prysurach a gorfod gweini dysgwyr yn gyflymach, gyda rhai staff yn gweithio y tu hwnt i’w horiau contractiol, gan deimlo eu bod yn cael eu brysio neu eu bod yn cael eu dibrisio. Er efallai nad yw'r cyfrifon hyn yn adlewyrchu profiad yr holl staff, maent yn cynnig cipolwg ar yr heriau a welwyd ledled Cymru. Trafodir y prosesau a gymerwyd i recriwtio staff ar gyfer cyflwyno’r polisi ym Mhennod 4.1.4.

“Mae gennym yr un faint o amser i wasanaethu dwywaith y nifer o blant.”Cogydd, astudiaeth achos

Mewn rhai ysgolion, mae'r llwyth gwaith wedi codi'n sydyn heb gynnydd cyfatebol mewn staffio, oriau na chyflog. Er enghraifft, adroddodd un cogydd fod nifer y prydau bwyd wedi codi o 24% i 30% (o tua 170 i 215 y dydd) heb unrhyw staff, lle nac amser ychwanegol, gan adael timau’r gegin yn teimlo eu bod wedi’u dibrisio a dan straen. Yn aml, telir isafswm cyflog i staff ac, mewn rhai achosion, maent yn aros y tu hwnt i oriau contractiol i gwblhau tasgau megis clirio, archebu cyflenwadau, ac adrodd.

Gwelwyd patrymau tebyg mewn mannau eraill: adroddodd un arweinydd strategol mewn ALl fod criw bach yn gweithio cyn ac ar ôl cyflwyno’r polisi, ac roedd staff yn disgrifio straen uchel wrth goginio a gweini. Tynnodd un arall sylw at gyfyngiadau o ran y gofod bwyta a goruchwyliaeth annigonol amser cinio fel ffactorau sy'n effeithio ar lesiant staff, sef problemau sy'n dyddio o'r cyfnod cyn UPFSM ac a oedd yn gysylltiedig â thoriadau cynharach i gyllidebau ysgolion. Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos bod y pwysau a welwyd yn ystod y gweithredu yn deillio o heriau presennol yn ymwneud â’r gweithlu a heriau gweithredol, sydd wedi'u dwysáu gan raddfa a chyflymder cyflwyno UPFSM. Er bod ystyriaethau llwyth gwaith yn rhan o'r broses gynllunio a bod cyllid wedi'i ddarparu i asesu gofynion staffio, tynnodd rhai arweinwyr strategol ALlau sylw at y ffaith bod yr amser byr rhwng cyhoeddi'r polisi a'i weithredu yn golygu bod trosi'r asesiadau hyn yn addasiadau staffio ymarferol yn anodd mewn rhai ardaloedd (gweler Pennod 4.1.5).

“Mae wedi bod yn flinedig yn feddyliol, oherwydd rydych chi'n gwybod na allwch chi eu gadael yn brin o staff, yn enwedig pan ydyn ni mewn rhai o'r ysgolion mawr. Mae'n achosi gorbryder a straen.”Arweinydd strategol ALl

Yn ogystal, roedd staff yn teimlo pwysau cyfrifoldeb, yn enwedig o ran rheoli deietau arbennig (e.e. alergeddau, halal), a achosodd bryder oherwydd y risgiau iechyd posibl pe bai camgymeriadau'n cael eu gwneud. Gwnaeth hyd yn oed rheolwyr profiadol gyfaddef fod ymdrin â deietau arbennig yn fwy o straen na gweini cannoedd o brydau safonol. Adroddodd staff mewn ysgolion astudiaeth achos fod y pwysau maen nhw'n ei deimlo wedi dwysáu gyda'r nifer cynyddol o ddeietau arbennig o ganlyniad i UPFSM. Roedd arweinwyr strategol awdurdodau lleol a rhanddeiliaid iechyd y cyhoedd a gyfwelwyd hefyd yn cydnabod effaith y cynnydd nodedig yn nifer y dysgwyr sydd angen deietau arbennig ar wasanaethau arlwyo ysgolion, gydag un arweinydd strategol ALl yn sylwi bod nifer y cynlluniau prydau arbennig wedi tyfu mor fawr nes iddo “ddod yn rhy fawr i'r tîm ymdopi â nhw”.

Effaith arall y polisi ar staff fu'r her o lai o gapasiti goruchwylio mewn rhai ysgolion, yn enwedig y rhai sy'n darparu ar gyfer nifer fwy o ddysgwyr. Adroddodd rhai arweinwyr strategol ALlau fod ysgolion wedi cael trafferth recriwtio neu ariannu staff goruchwylio ychwanegol, gyda rhai yn dibynnu ar gynorthwywyr addysgu i gyflawni dyletswyddau. Er nad oes disgwyl yn ffurfiol i gogyddion weithredu fel goruchwylwyr amser cinio, yn ymarferol, pan nad yw athrawon na goruchwylwyr pwrpasol ar gael, mae staff y gegin yn aml yn cael eu hunain yn ymdrin â diogelwch ac ymddygiad sylfaenol ochr yn ochr â gweini. Er enghraifft, mewn un ysgol astudiaeth achos, roedd pedwar aelod o staff y gegin ac un

fenyw ginio yn gyfrifol am reoli prydau bwyd a chynnal trefn, fel rheoli ciwiau a helpu dysgwyr iau gyda hambyrddau a chyllyll a ffyrc.

Er bod yn rhaid goruchwylio'r un nifer o blant cyn ac ar ôl UPFSM, roedd y cynnydd mewn prydau bwyd a'r gyfran fwy o blant yn derbyn cinio ysgol yn golygu bod gan staff lai o amser i ofalu am ddysgwyr yn unigol. Ynghyd â'r angen i wasanaethu mwy o ddysgwyr o fewn yr un ffenestr amser, adroddodd staff fod hyn yn gadael ychydig o gyfle ar gyfer rhyngweithio ystyrlon â dysgwyr. Nododd staff mewn un astudiaeth achos hefyd fod ciniawau pecyn bellach yn tueddu i gynnwys opsiynau llai maethlon o'u cymharu â chyn UPFSM, a bod hyn yn eu barn nhw'n gysylltiedig â chael llai o amser i fonitro ciniawau pecyn a hyrwyddo negeseuon bwyta'n iach i ddysgwyr a theuluoedd (gweler Pennod 5.5.3 am drafodaeth bellach).

Nododd rhai athrawon mewn ysgolion astudiaeth achos hefyd fod UPFSM wedi symud cyfrifoldeb dros arferion bwyta ac ymddygiad bwrdd dysgwyr, ac roedd un athro'n nodi bod ciniawau ysgol yn cael eu gweld fwyfwy fel "problem yr ysgol". Trafodir y ddadl ynghylch cyfrifoldeb dros ymddygiad bwyta ymhellach ym Mhennod 4.1.5.1.

"Nid yw rhai teuluoedd yn darparu ar gyfer anghenion unigol eu plentyn, oherwydd bod yn rhaid iddyn nhw dalu amdanynt. Yn lle, maen nhw'n dewis eu hanfon i mewn a chael y pryd ysgol am ddim, ac yn anwybyddu'r ffaith nad ydyn nhw'n bwyta llawer oherwydd nid ydyn nhw'n teimlo'n gyfrifol am hynny". Athro, astudiaeth achos

Mae cadw staff wedi bod yn her barhaus i ysgolion ers cyflwyno UPFSM. Mae hyn yn bennaf oherwydd llwythi gwaith cynyddol, cyflog isel, oriau byr, ac amodau gwaith llawn straen – heriau a oedd eisoes yn bresennol cyn UPFSM. Adroddodd llawer o ALlau am heriau parhaus o ran recriwtio digon o staff arlwyo pan fydd swyddi gwag yn codi, yn enwedig ar gyfer rolau rhan-amser ac mewn ardaloedd gwledig.

### 5.2.3. Effaith ar wastraff bwyd

Mae cyflwyno UPFSM wedi arwain at gynnydd canfyddedig mewn gwastraff bwyd, yn ôl rhai staff yn y rhan fwyaf o ysgolion yr astudiaethau achos. Priodolwyd hyn i raddau helaeth i fwy o ddysgwyr yn cymryd prydau ysgol ond nid bob amser yn eu bwyta. Hefyd, adroddodd staff fod gwastraff yn aml yn gysylltiedig â dewisiadau dysgwyr o ran blas neu gyflwyniad, a dim ond yn achlysurol oherwydd ansawdd gwael. Tynnodd y penaethiaid a arolygwyd sylw hefyd at broblemau gwastraff bwyd pan nad yw dysgwyr yn hoffi'r bwyd neu pan fydd rhieni/gofalwyr yn archebu prydau bwyd ymlaen llaw nad yw eu plant eu heisiau.

Nododd rhai staff a gyfwelwyd mewn astudiaethau achos fod rhywfaint o wastraff bwyd yn dod o ddysgwyr yn rhoi cynnig ar fwydydd newydd, yn enwedig ffrwythau a llysiau anghyfarwydd. Mae'r canfyddiad hwn yn awgrymu, drwy'r polisi, fod dysgwyr yn rhoi cynnig ar ffrwythau a llysiau anghyfarwydd ac felly'n cael eu cyflwyno i opsiynau iachach na fyddent efallai'n dod ar eu traws fel arall.

Mae tystiolaeth yr astudiaethau achos yn dangos bod staff cegin yn chwarae rhan hanfodol wrth leihau gwastraff bwyd. Mae strategaethau'n cynnwys cynnig bwyd dros ben i ddysgwyr neu staff, darparu dognau mwy i ddysgwyr hŷn, defnyddio eu profiad i archebu'n gywir, a

rhewi bwyd dros ben ar gyfer cylchdroi bwydlenni yn y dyfodol. Yn nodedig, adroddodd ychydig o staff ar draws ysgolion yr astudiaethau achos nad oedd unrhyw gynnydd cymesur mewn gwastraff bwyd ers cyflwyno UPFSM, gan awgrymu, mewn rhai lleoliadau, bod dysgwyr yn bwyta'r rhan fwyaf o'r bwyd a ddarperir.

“Mae yna rywfaint o wastraff bwyd wedi bod erioed ac rwy’n credu y bydd yna bob amser. Dydy plant ddim bob amser yn bwyta popeth, dydyn nhw ddim bob amser yn hoffi'r hyn maen nhw wedi'i ddewis.”Pennaeth, astudiaeth achos

Adroddodd rhai staff ysgolion mewn astudiaethau achos eu bod yn edrych ar ffyrdd y gallant weithio gyda theuluoedd a'r tîm arlwyo i leihau gwastraff cymaint â phosibl. Roedd gan un pennaeth awgrymiadau ar sut i liniaru’r cynnydd mewn gwastraff bwyd:

“Mae’r holl fwyd yna’n mynd i gael ei wastraffu a phan fyddwch chi’n adnabod y bobl, a phan allwch chi weld rhai teuluoedd sydd heb lawer o arian, mae’n teimlo’n rhwystredig. Rydyn ni wedi meddwl, os oes bwyd ar ôl, a ellid ei roi mewn bocsys a dweud wrth deuluoedd, ‘Mae gennym ni gynifer o brydau bwyd – dewch i gasglu un os ydych chi eisiau’, ond mae yna rheoliadau ar waith (o amgylch diogelwch a storio bwyd).”Pennaeth, astudiaeth achos

### 5.2.4. Effaith ar lwythi gwaith gweinyddol

Adroddodd bron pob aelod o staff gweinyddol mewn ysgolion astudiaeth achos ac arweinwyr strategol ALlau mai un o effeithiau mwyaf y polisi UPFSM oedd gostyngiad yn y gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â rheoli dyled arian cinio. Cyn cyflwyno'r polisi, treuliodd staff gweinyddol gryn dipyn o amser yn cysylltu â rhieni/gofalwyr, yn rheoli systemau talu, ac yn mynd ar drywydd balansau heb eu talu, a oedd yn aml yn rhoi straen ar berthnasoedd â theuluoedd. Gydag UPFSM yn dileu elfen gost pryd ysgol, dywedodd llawer o staff fod ganddyn nhw fwy o amser nawr i ganolbwyntio ar eu cyfrifoldebau craidd, gan wella effeithlonrwydd cyffredinol gweinyddiaeth yr ysgol. Mewn un ysgol astudiaeth achos, adroddodd staff fod dileu dyled arian cinio hefyd wedi helpu i “hwyluso” y drefn foreol: yn syml, mae athrawon bellach yn cofnodi dewis pryd pob plentyn, lle o’r blaen roedd yn rhaid iddynt wirio a oes gan y plentyn ddigon o arian yn eu cyfrif neu gadarnhau eu bod yn gymwys am brydau ysgol am ddim.

“Mae wedi bod yn rhyddhad peidio â gorfod mynd ar ôl teuluoedd am arian cinio mwyach. Arferai fod dyled cinio, a phob prynhawn Gwener roedd yn rhaid i mi fynd ar drywydd hynny. Cymerodd amser. Dydw i ddim yn gwybod ble byddwn i'n dod o hyd i'r amser i wneud hynny nawr, a dweud y gwir.”Dirprwy bennaeth, astudiaeth achos

“Yn aml, doedd y peiriant ddim yn gweithio, neu roedd angen newid ar rieni i roi yn y peiriant, felly roedd hyn yn cymryd llawer o fy amser bob bore – felly does gen i ddim o hynny nawr.”Ysgrifennydd ysgol, astudiaeth achos

Y tu hwnt i leihau'r llwyth gwaith, nododd sawl aelod o staff yn y rhan fwyaf o ysgolion yr astudiaethau achos fod UPFSM wedi helpu i leddfu'r baich cymdeithasol ac emosiynol sy'n gysylltiedig â thrafod balansau arian cinio heb eu talu gyda rhieni/gofalwyr. Yn flaenorol, roedd y sgyrsiau hyn yn aml yn anghyfforddus a gallent greu tensiwn gyda theuluoedd, gan

roi staff mewn sefyllfa anodd. Ystyriwyd bod dileu'r angen am ryngweithiadau o'r fath wedi gwella'r berthnasoedd rhwng staff a rhieni/gofalwyr ac wedi cyfrannu at amgylchedd ysgol mwy cadarnhaol.

“Mae’n achosi ffrithiant weithiau, a dydyn ni ddim eisiau ffrithiant gyda’n teuluoedd.”Athro, astudiaeth achos

Nododd rhai staff ysgol yn ysgolion yr astudiaethau achos hefyd, cyn UPFSM, fod yn rhaid i'r ysgol yn aml dalu costau prydau bwyd heb eu talu o'u cyllidebau eu hunain pan na allai rhieni/gofalwyr dalu. Mewn nifer fach o achosion, roedd hyn yn cyfateb i filoedd o bunnoedd yn flynyddol, gan ddargyfeirio arian o flaenoriaethau addysgol. Roedd y mater yn arbennig o ddifrifol mewn ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau mwy dan anfantais, lle'r oedd teuluoedd yn ei chael yn anodd fforddio ciniawau ysgol ond nid oedd eu plant yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim. Gwaethygodd y sefyllfa hon anghydraddoldebau.

“Gwaith mawr ei erlid. A swydd anodd, oherwydd nid yw'n beth braf mynd ar ôl dyled, yn enwedig pan mae'n cronni'n sylweddol a'r un bobl flwyddyn ar ôl blwyddyn yw’r rhai nad yw’n ei thalu. Ac yna fe wnaeth hynny drosglwyddo a dod allan o gyllideb ein hysgol, felly rydych chi'n gwybod eich bod chi'n colli miloedd y flwyddyn.”Pennaeth, astudiaeth achos

Er bod UPFSM wedi lleihau'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â thaliadau am brydau bwyd, adroddodd llawer o staff ysgolion ac arweinwyr strategol yr ALlau am ganlyniad anfwriadol canfyddedig, sef bod llai o rieni/gofalwyr yn cofrestru ar gyfer prydau ysgol am ddim. Mae'n bwysig nodi bod yna nifer o ffactorau tebygol yn dylanwadu ar gyfraddau cofrestru. Er enghraifft, mae bod yn ddysgwr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim wedi'i glymu i drothwy incwm o £7,400. Mae'n bosibl bod cynnydd diweddar yn y cyflog byw cenedlaethol wedi gwthio rhai teuluoedd uwchlaw'r trothwy hwn, sy'n golygu y gallai newidiadau mewn cofrestru adlewyrchu newidiadau economaidd ehangach yn hytrach na chyflwyniad UPFSM yn unig. Mae hyn yn tynnu sylw at y ffaith y gallai ffactorau economaidd ehangach fod wedi cyfrannu at newidiadau yn nifer y teuluoedd sy'n gymwys ac felly'n gallu cofrestru, er nad yw'n hysbys i ba raddau y gallai hyn fod yn wir.

Serch hynny, gyda phrydau ysgol bellach ar gael i bawb, roedd sawl aelod o staff ar draws ysgolion yr astudiaethau achos hefyd yn credu y gallai rhai rhieni/gofalwyr dybio ar gam nad oes angen iddynt wneud cais am brydau ysgol am ddim mwyach oherwydd eu bod yn ei gysylltu â hawlogaeth i brydau ysgol. Mae'r gamddealltwriaeth hon, yn eu barn nhw, wedi cyfrannu at ostyngiad amlwg yn nifer y ceisiadau, er gwaethaf y ffaith bod statws ‘dysgwr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim’ yn parhau i ddatgloi budd-daliadau ychwanegol pwysig megis grantiau gwisg ysgol a chyllid ar gyfer tripiau ysgol. Mewn ymateb, mae hyn wedi golygu bod angen i ALlau ac ysgolion fuddsoddi cryn dipyn o amser ac ymdrech mewn ymgyrchoedd cyfathrebu. Disgrifiodd arweinwyr strategol a staff awdurdodau lleol mewn ysgolion astudiaeth achos ymdrechion parhaus i hysbysu teuluoedd ar ffurf llythyrau, postiadau ar gyfryngau cymdeithasol, awgrymiadau ar ffurflenni derbyn, a sioeau teithiol costau byw, ond mae'r ymdrechion hyn wedi cael llwyddiant cyfyngedig.

“Byddai aelod o staff amser llawn yn cymryd tymor i gefnogi teuluoedd yn iawn gyda deall a gwneud cais am ddysgwr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim – sef capasiti nad oes gan yr ysgol.”Pennaeth, astudiaeth achos

Efallai fod cyfraddau cofrestru dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim is wedi effeithio ar gynllunio ar gyfer rhai ysgolion, gan fod niferoedd y dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim yn pennu dyraniad y Grant Datblygu Disgyblion (PDG) i raddau helaeth, sy'n cefnogi adnoddau ar gyfer dysgwyr dan anfantais. Adroddodd rhai ysgolion eu bod wedi gorfod treulio amser ychwanegol yn annog rhieni/gofalwyr i gofrestru eu statws ‘dysgwr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim’, a disgrifiodd staff hyn fel rhywbeth anghyfforddus sy’n cymryd llawer o amser. Er na wnaeth y gyllideb PDG leihau mewn gwirionedd,[4] adroddodd rhai ysgolion am gysylltiad rhwng niferoedd is o blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a llai o gyllid ar gael ar gyfer gweithgareddau megis tripiau ysgol â chymhorthdal neu gymorth arall i ddysgwyr dan anfantais.

“Nid oes gennym y cymhelliant hwnnw i rieni lenwi’r ffurflenni mwyach. Er ein bod ni'n dweud wrth rieni ‘Edrychwch, mae'n bwysig iawn i ni oherwydd fel ysgol byddwn ni'n cael swm penodol o arian’.”Pennaeth, astudiaeth achos

Mae'r pwysau ariannu hyn, ynghyd â'r ymdrech weinyddol sydd ei hangen ar gyfer cyfathrebu dro ar ôl tro â theuluoedd, yn dangos, er bod UPFSM wedi symleiddio'r ddarpariaeth prydau bwyd, ei fod hefyd wedi cyflwyno cymhlethdodau newydd i ysgolion ac ALlau. Awgrymodd rhai arweinwyr strategol ALlau ac academyddion a gyfwelwyd fod y mater hwn yn gofyn am atebion ar lefel polisi megis cofrestru awtomatig i ddiogelu adnoddau ar gyfer dysgwyr agored i niwed. Argymhellodd rhai staff mewn ysgolion astudiaeth achos ailenwi dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim hefyd i'w gwneud yn fwy amlwg i rieni/gofalwyr fod y grant hwn yn cwmpasu mathau eraill o fudd-daliadau yn ogystal â phrydau ysgol am ddim (gweler Cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim (eFSM) a mwy: adolygiad data (crynodeb) am adolygiad o gyfrifiadau dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim).

Awgrymodd tystiolaeth o ysgolion astudiaethau achos fod effaith ganfyddedig niferoedd y dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim sy'n gostwng yn amrywio yn ôl maint a chyd-destun yr ysgol. Roedd staff mewn ysgolion mwy, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd trefol mwy dan anfantais, yn tueddu i fynegi mwy o bryder ynghylch y gostyngiad yn niferoedd y dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r goblygiadau posibl ar gyfer cyllid ac adnoddau. Mewn cyferbyniad, gwelwyd bod ysgolion llai neu'r rhai sy'n gwasanaethu cymunedau llai dan anfantais yn wynebu newidiadau bach iawn neu hyd yn oed gyfraddau cofrestru sefydlog. Yn aml, roedd staff mewn ysgolion llai yn priodoli hyn i'r nifer llai o deuluoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a oedd yn ei gwneud yn haws i staff eu hadnabod a chyfathrebu â nhw. Mae'r arsylwadau hyn yn adlewyrchu canfyddiadau a phrofiadau staff; yn absenoldeb data meintiol, nid yw'n bosibl pennu'r union

[4] Er bod y gyllideb PDG gyffredinol wedi aros yn gyson, mae chwyddiant wedi effeithio ar ei gwerth gwirioneddol.Gall awdurdodau lleol ddefnyddio dyraniadau llyfnhau i sicrhau bod ysgolion yn cael lefel gyson o gyllid hyd yn oed pan fydd niferoedd y dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim yn newid. Roedd rhai ffigurau dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim cynharach yn cynnwys dysgwyr amddiffyn wrth bontio a oedd wedi'u codio'n anghywir, felly gostyngodd cyfraddau dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim yr adroddwyd amdanynt pan gywirwyd y gwallau hyn.

resymau dros newidiadau o ran nifer y dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim sy’n cofrestru na chyfraniad cymharol gwahanol ffactorau, megis ymddygiadau ymgeisio, trothwyon cymhwysedd, neu godio gweinyddol.

### 5.2.5. Effaith ar weddill y diwrnod ysgol

Hyd yn hyn, roedd tystiolaeth gyfyngedig bod UPFSM wedi dylanwadu ar ddulliau ysgol gyfan ehangach ysgolion o ran bwyd. Mewn ysgolion sydd â sylfeini cryf mewn addysg bwyd, mae'r polisi wedi helpu i atgyfnerthu pwysigrwydd mentrau presennol sy'n hyrwyddo bwyta'n iach, megis prosiectau garddio, dosbarthiadau coginio, a gwersi sy'n canolbwyntio ar faeth. Er enghraifft, nododd aelod o staff mewn un ysgol astudiaeth achos “gan ein bod wedi blaenoriaethu bwyd i ddechrau, cafodd (y polisi) ei gynnwys yn ein cwricwlwm a’n bywyd bob dydd”.

Disgrifiodd staff mewn ysgolion eraill gyfleoedd a gollwyd i UPFSM ddylanwadu ar newidiadau ehangach yn niwylliant bwyd yr ysgol oherwydd cyflymder y cyflwyniad. Tynnodd nifer fach o rieni/gofalwyr mewn ysgolion astudiaeth achos sylw hefyd at densiynau rhwng negeseuon yr ystafell ddosbarth am ddeietau iach a'r opsiynau llai cytbwys a weinir amser cinio. At ei gilydd, er bod UPFSM wedi cefnogi ysgolion sydd eisoes yn blaenoriaethu addysg bwyd, mae ei integreiddio i'r diwrnod ysgol a'r cwricwlwm ehangach yn parhau i fod yn anghyson.

Pwysleisiodd nifer o randdeiliad iechyd cyhoeddus a darparwyr bwyd ysgol botensial tymor hwy UPFSM i gyfrannu at newid diwylliannol ehangach yn ymwneud â bwyd mewn ysgolion. Fe wnaethon nhw bwysleisio y byddai buddion y polisi yn cael eu cynyddu i'r eithaf pe bai prydau ysgol am ddim yn cael eu hymgorffori mewn dull ysgol gyfan o ymdrin â bwyd – gan alinio'r cwricwlwm, y profiad ciniawa, ac ethos yr ysgol. Ymhlith y cyfleoedd a awgrymwyd gan academyddion a maethegwyr iechyd cyhoeddus a gyfwelwyd roedd lleoli UPFSM o fewn dull ysgol gyfan sy'n cynnwys addysg goginio a maeth, helpu dysgwyr i ddeall o ble mae bwyd yn dod, a chreu amgylchedd ysgol sy'n dathlu bwyta'n iach mewn ffordd weladwy. Ystyriwyd bod dull o'r fath yn ganolog i normaleiddio dewisiadau iach a chefnogi newid ymddygiad cynaliadwy.

## 5.3. Pa effaith mae'r polisi wedi'i chael ar iechyd a llesiant plant a theuluoedd?

Mae corff cynyddol o lenyddiaeth yn tynnu sylw at botensial UPFSM i leihau anghydraddoldebau o ran iechyd plant trwy gynyddu mynediad at giniawau ysgol iachach. Er enghraifft, canfu adolygiad systematig gysylltiad cadarnhaol rhwng prydau ysgol i bawb ac ansawdd deietegol gwell, yn enwedig pan fo safonau maethol cryf ar waith, fel y rhai sy'n gwneud ffrwythau, llysiau, a grawn cyflawn yn ofynnol (Cohen ac eraill, 2021).

Mae ymchwil hefyd yn awgrymu bod y buddion hyn yn cael eu mwyhau i'r eithaf mewn amgylchedd sy’n galluogi lle mae prydau bwyd wedi'u cynllunio i gefnogi iechyd deietegol plant (Au ac eraill, 2016). Mae'r effaith hon ar iechyd a llesiant yn cael ei hatgyfnerthu gan dystiolaeth sy'n dangos bod ciniawau ysgol am ddim i bawb yn iachach yn gyffredinol na chiniawau pecyn. O’u cymharu â phrydau pecyn, canfu astudiaeth a gynhaliwyd yn y DU fod

ciniawau ysgol yn tueddu i gynnwys llai o fwydydd wedi'u prosesu'n ormodol, mwy o amrywiaeth a mwy o ffrwythau a llysiau, a gwell cydbwysedd o ran ffibr, halen, braster a siwgr (Parnham ac eraill, 2022).

Mae'r bennod hon yn archwilio'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ynghylch a yw UPFSM wedi gwella iechyd a llesiant dysgwyr a theuluoedd drwy gynyddu mynediad at brydau ysgol.

### 5.3.1. Effaith ar newyn ac ansicrwydd bwyd

Sylwodd staff a rhieni/gofalwyr fod gan ddysgwyr a oedd gynt yn cyrraedd yr ysgol yn llwglyd ddigon i'w fwyta bellach, gan gefnogi eu hiechyd corfforol a'u lefelau egni. Mae'r effaith yn ymddangos gryfaf ymhlith dysgwyr o gefndiroedd mwy dan anfantais, yn enwedig y rhai sydd ychydig uwchben y trothwy i fod yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Nododd sawl aelod o staff mai pryd yr ysgol yw'r unig bryd poeth y mae rhai dysgwyr yn ei gael yn ystod y dydd yn aml. At ei gilydd, mae tystiolaeth ansoddol yn dangos bod y polisi yn cyflawni ei nod bwriadedig ac yn gwneud gwahaniaeth ystyrlon i'r rhai y mae'n anelu at eu cefnogi.

“Rwy’n falch bod cydbwysedd o faetholion yn y prydau bwyd – bod y plant yn cael rhywbeth, yn enwedig pan ydyn ni’n meddwl am blant o gefndiroedd dan anfantais. Mae rhai teuluoedd yma sy'n elwa'n fawr.”Cynorthwyydd addysgu, astudiaeth achos

“Rwy’n meddwl ei fod yn bolisi da iawn, ond yn bennaf oherwydd amddifadedd plant…Nid yw plant bob amser yn cael bwyd. Rydyn ni'n cael plant sy'n dod i’r clwb brecwast, yna maen nhw'n cael hwn i ginio ac efallai na fyddan nhw'n cael bwyd tan y diwrnod canlynol pan fyddan nhw'n dychwelyd (i'r ysgol). (…) Y pryd o fwyd y maen nhw’n ei gael yn yr ysgol yw eu prif bryd o fwyd. Felly mae'n wirioneddol bwysig i'r plant hyn eu bod nhw'n gallu cael pryd ysgol am ddim.”Swyddog gweinyddol, astudiaeth achos

Dangosodd ymatebion i’r arolwg gan benaethiaid ac uwch-arweinwyr ganlyniadau cymysg. Ar y cyfan, nododd 55% (26 allan o 47 o ymatebwyr) nad oedd unrhyw newid o ran newyn nac ansicrwydd bwyd ers cyflwyno UPFSM, tra oedd 30% (14 allan o 47 o ymatebwyr) yn nodi gweld gwelliannau cadarnhaol a 15% (7 allan o 47 o ymatebwyr) yn nodi effeithiau/newidiadau heriol.[5]Roedd gan ardaloedd gwledig ymatebion amrywiol. Roedd 23% (3 allan o 13 o ymatebwyr) yn nodi gwelliannau, roedd 46% yn nodi dim newid (6 allan o 13 o ymatebwyr), ac roedd 31% (4 allan o 13 o ymatebwyr) yn nodi heriau. Roedd penaethiaid mewn ysgolion mewn ardaloedd trefol yn fwy cadarnhaol ar y cyfan: roedd 32% (10 allan o 31 o ymatebwyr) yn nodi gwelliannau a dim ond 10% (3 allan o 31 o ymatebwyr) oedd yn nodi heriau. Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod y polisi'n helpu rhai dysgwyr, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, ond mae ei effeithiolrwydd o bosibl yn anghyson ac mae'n fwyaf tebygol ei fod wedi'i ddylanwadu gan amrywiol ffactorau, megis dewisiadau dysgwyr ac amgylcheddau ystafelloedd bwyta (gweler Pennod 4.1.5).

[5] Ni wnaeth yr arolwg gasglu data sylfaenol cyn i’r polisi cael ei weithredu.O ganlyniad, gallai “dim newid” adlewyrchu lefelau cyson isel o newyn ac ansicrwydd bwyd neu lefelau cyson uchel, ac ni ellir pennu’r gwahaniaeth hwn o’r data sydd ar gael. Yn yr un modd, gall “effeithiau/newidiadau heriol” fod yn gysylltiedig â gwelliannau o ran newyn neu ddiogelwch bwyd neu ddim newidiadau o ran newyn neu ddiogelwch bwyd.

### 5.3.2. Ansawdd bwyd a maeth

Mae UPFSM wedi cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dewis prydau ysgol, gan roi mwy o gyfle i ysgolion ddylanwadu ar ddeietau o'i gymharu â chiniawau pecyn, sy'n amrywio'n fawr o ran ansawdd maethol. Er nad yw'r polisi ynddo'i hun yn gwarantu cynnydd o ran bwyta'n iach, rhaid i brydau ysgol gydymffurfio â'r Rheoliadau Bwyta'n Iach (ac eithrio pan wneir addasiadau rhesymol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 neu ar gyfer deietau a ragnodir yn feddygol), gan ddarparu llinell sylfaen fwy dibynadwy. Mae mwy o ddysgwyr yn bwyta prydau ysgol hefyd yn golygu bod mwy o ddysgwyr yn dod i gysylltiad â phrydau mwy maethlon a chytbwys yn rheolaidd ac yn cael eu hannog i roi cynnig ar fwydydd newydd, â chefnogaeth mentrau megis addysg ar fwydlenni, ymgysylltu â chogyddion, a dylanwad cadarnhaol gan gyfoedion (gweler Pennod 5.1.1).

“Rwy'n credu, wyddoch chi, bod y polisi yn galluogi plant i gael mynediad at fwyd. Yn galluogi plant i gael mynediad at fwyd iachach.”Rheolwr busnes ysgol, astudiaeth achos

“Rwy’n meddwl, oherwydd eu bod nhw'n bwyta gyda'i gilydd a phawb yn bwyta yno ac yn cael yr un peth, mae fel y pŵer yna pan fydd pawb arall yn ei fwyta. Rwy’n mynd i roi cynnig arni, mewn gwirionedd dydy hi ddim yn ddrwg.”Rhiant/gofalwr, astudiaeth achos

Roedd sawl aelod o staff yn ystyried bod ciniawau pecyn yn llai iach na phrydau ysgol cyn ac ar ôl UPFSM, gan gynnwys bwydydd wedi'u prosesu megis rholiau selsig, creision a siocled yn aml. Er y gall ysgolion fabwysiadu polisïau ynghylch cynnwys ciniawau pecyn i helpu i gyd-fynd â'r Rheoliadau Bwyta'n Iach, adroddodd staff mewn sawl ysgol astudiaeth achos fod monitro'r cynnig arlwyo i sicrhau ei fod yn hyrwyddo bwyta'n iach wedi dod yn heriol. Nododd rhai hefyd nad oes ganddyn nhw'r gallu bob amser i wirio cynnwys ciniawau pecyn.

Cytunodd llywodraethwyr a phenaethiaid mewn rhai ysgolion astudiaeth achos fod darpariaeth gyffredinol yn helpu i fynd i'r afael â'r pryderon hyn drwy leihau nifer y dysgwyr sy'n dod â chiniawau pecyn, nad ydynt yn cael eu rheoleiddio o dan y Rheoliadau Bwyta'n Iach. Gan fod telerau ac amodau'r grant a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer UPFSM yn ei gwneud yn ofynnol i ALlau ddarparu pryd o fwyd sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Bwyta'n Iach, mae mwy o ddysgwyr yn bwyta prydau ysgol yn cynyddu cyfran y prydau sy'n bodloni'r rheoliadau. Mae ALlau a chyrff llywodraethu yn goruchwylio cydymffurfedd â'r rheoliadau hyn.

Mewn rhai ysgolion, adroddwyd bod cynnydd yn y nifer sy'n bwyta prydau ysgol wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar gynnwys y ciniawau pecyn eu hunain. Disgrifiodd un arweinydd strategol ALl welliannau gweladwy o ran arferion bwyta, yn enwedig ymhlith dysgwyr a oedd gynt yn dod â chiniawau pecyn â gwerth maethol cyfyngedig – er enghraifft, dysgwyr sydd bellach yn cynnwys salad neu ffrwythau yn eu bocsys cinio ar ôl dewis yr eitemau hyn yn rheolaidd o far salad yr ysgol ar y dyddiau y maent yn dewis pryd ysgol. Mae hyn yn dangos, hyd yn oed i ddysgwyr sy'n parhau i ddod â chinio pecyn, y gall UPFSM annog dewisiadau bwyd iachach yn anuniongyrchol trwy eu cyflwyno i opsiynau maethlon yn yr ysgol.

Tynnodd athrawon mewn ysgolion astudiaeth achos sylw hefyd at ostyngiad o ran ymddygiadau bwyta “ffyslyd” ymhlith y rhai sy’n cael prydau ysgol, gan fod gan y dysgwyr hyn lai o gyfle i osgoi rhai bwydydd o’i gymharu â phan fyddant yn dod â chiniawau pecyn o adref. Ar nodyn tebyg, datgelodd arsylwadau amser cinio a grwpiau ffocws gyda dysgwyr eu bod yn teimlo eu bod wedi’u grymuso i roi cynnig ar fwydydd newydd oherwydd bod yr ysgol a’u rhieni/gofalwyr yn cefnogi’r dull hwn. Yn aml, roedd staff y gegin yn chwarae rhan bwysig wrth annog y newidiadau hyn, fel y nodwyd ym Mhennod 5.2.2.

Er bod y polisi'n cael ei ystyried fel un sy’n gosod y sylfaen ar gyfer arferion iach hirdymor, mae pryderon yn parhau ynghylch ansawdd bwyd. Adroddodd rhai staff mewn ysgolion astudiaeth achos eu bod yn credu bod safonau wedi gostwng ers UPFSM oherwydd cyfyngiadau gweithredol a mesurau arbed costau, megis mwy o ddefnydd o fwydydd wedi'u prosesu'n helaeth a chynhwysion rhatach. Awgrymodd staff eraill mewn ysgolion astudiaeth achos fod heriau'n adlewyrchu tueddiadau ehangach, tymor hwy cyn y polisi, ac roedd un cogydd profiadol yn nodi dirywiad graddol ers COVID-19. Mae hyn yn helpu i roi cyd-destun i ganfyddiadau rhai rhieni/gofalwyr y gallai ciniawau pecyn fod yn ddewis arall iachach yn lle prydau ysgol.

“Byddai fy mhlant yn bwyta’n iachach pe bawn i’n dal i baratoi ciniawau pecyn iddyn nhw.”Rhiant/gofalwr, astudiaeth achos

“Rydw i’n meddwl bod llawer o’r bwyd, wel, yn rhad nawr bob dydd Mercher, cluniau cyw iâr ydyw. Mae'n gig braf, ond dyna'r cyfan rydym yn ei gael, dyna'r unig gig rydym yn ei gael. Mae'r plant yn edrych ar y bwyd ac nid ydyn nhw am ei fwyta. Rydw i wedi rhoi cynnig ar bob ffordd i'w wneud i edrych yn ddeniadol ac yn wahanol, ond dydy e ddim yn edrych yn dda ar yr hambwrdd. Mae'n rhaid i mi weithio'n eithaf caled ar hynny.”Cogydd, astudiaeth achos

Dylai ALlau ystyried ffactorau megis anghenion deietegol, alergeddau, a gofynion diwylliannol neu grefyddol wrth gynllunio darpariaeth prydau ysgol, tra bod proses ar wahân ar gyfer deietau a ragnodir yn feddygol pan fo’n rhaid i rieni/gofalwyr gyflwyno cais ffurfiol gyda thystiolaeth gan feddyg teulu neu ddeietegydd. Er gwaethaf hyn, cododd sawl rhanddeiliad bryderon nad oes gan bob dysgwr gyfle cyfartal i gael prydau ysgol, yn enwedig y rhai â deietau arbennig neu ofynion crefyddol a diwylliannol. Mae tystiolaeth astudiaethau achos yn dangos bod rhieni/gofalwyr yn aml yn troi at giniawau pecyn pan nad yw prydau ysgol yn diwallu anghenion yn ymwneud ag alergedd, halal neu ddiwylliant. Teimlai rhanddeiliaid fod y diffyg cynhwysiant hwn yn cyfyngu ar fynediad at brydau bwyd sy'n bodloni'r Rheoliadau Bwyta'n Iach, sy'n golygu nad yw rhai dysgwyr yn cael y buddion maethol a fwriadwyd gan UPFSM, a all effeithio'n negyddol ar eu hiechyd a'u llesiant o’u cymharu â chyfoedion sy'n cael prydau bwyd ysgol cytbwys.

Mae canllawiau statudol gan Lywodraeth Cymru yn annog ALlau a chyrff llywodraethu i gynnwys dysgwyr yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch dewisiadau bwyd a bwydlenni. Er bod disgresiwn dros gynllunio bwydlenni yn nwylo ALlau ac ysgolion yn hytrach nag ar lefel polisi UPFSM, gall creu bwydlenni sy'n adlewyrchu anghenion a dewisiadau lleol wella cynhwysiant a sicrhau bod y cynnig yn briodol yn ddiwylliannol. Tynnodd un academydd a gyfwelwyd sylw at bwysigrwydd rhoi ymdeimlad o allu a chyffro i

ddysgwyr drwy eu cynnwys wrth gynllunio bwydlenni a threfn prydau bwyd (gweler Pennod 4.1.5.2).

At ei gilydd, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod UPFSM wedi cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant dysgwyr drwy gynyddu mynediad at brydau bwyd iachach, llywio arferion deietegol, ac annog eu parodrwydd i roi cynnig ar fwydydd newydd, tra hefyd yn dylanwadu ar ansawdd maethol ciniawau pecyn. Er bod pryderon yn parhau ynghylch ansawdd bwyd a phwysau gweithredol, mae'r polisi'n cael ei ystyried yn eang fel un sy'n gosod y sylfaen ar gyfer gwelliannau hirdymor o ran maeth a llesiant.

Yn y cyfnod interim hwn, mae tystiolaeth ar effaith ehangach bosibl UPFSM ar iechyd a llesiant teuluoedd yn parhau i fod yn gyfyngedig. Fodd bynnag, mae arwyddion o fuddion anuniongyrchol posibl sy'n gysylltiedig â llai o straen ariannol, a allai gefnogi llesiant teuluoedd drwy leihau straen a rhyddhau adnoddau ar gyfer hanfodion eraill, fel y trafodwyd ym Mhennod 5.5.

## 5.4. Beth yw'r effeithiau addysgol sy'n dod i'r amlwg o'r polisi?

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd hyd yn hyn ar effeithiau addysgol UPFSM yn gymedrol ac yn ansoddol yn bennaf, wedi'i thynnu o arsylwadau staff, adroddiadau rhieni/gofalwyr a dysgwyr, ac ymweliadau astudiaethau achos ar draws sawl ALl. Er bod mesurau meintiol uniongyrchol yn gyfyngedig, mae themâu cyson o dystiolaeth ansoddol yn dod i'r amlwg ynghylch cymdeithasu, sgiliau bywyd, ymddygiad amser cinio a llesiant, gan ddarparu sail ddibynadwy i nodi buddion addysgol tebygol. Mae rhai canfyddiadau'n ddibynnol ar gyd-destun, ac mae amrywiad ar draws ysgolion a grwpiau oedran.

Mae sawl astudiaeth wedi canfod bod cyfranogiad mewn rhaglenni prydau bwyd ysgol yn gysylltiedig â gwelliannau o ran ymddygiad, canolbwyntio a chymdeithasu. Er enghraifft, dangosodd un astudiaeth nodedig fod amseroedd prydau bwyd ysgolion cynradd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant feithrin perthnasoedd a datblygu sgiliau cymdeithasol, a all wella mwynhad o'r ysgol a chefnogi llesiant emosiynol (Baines a MacIntyre, 2019). Yn yr un modd, canfu astudiaeth a gynhaliwyd yn Norwy fod cyflwyno prydau ysgol am ddim wedi arwain at amgylchedd dysgu mwy llonydd a chynhwysol, ac mae athrawon yn gweld perthnasoedd cymdeithasol cryfach a llai o anghydraddoldebau ymhlith dysgwyr (Heim ac eraill, 2019). Ystyriodd adolygiad tystiolaeth ymyriadau polisi o sawl gwlad, yn enwedig y cynnig o brydau ysgol am ddim i bawb mewn ysgolion babanod yn Lloegr, rhaglen prydau ysgol am ddim Sweden, a rhaglenni yn yr Unol Daleithiau, gan ddangos bod buddion yn ymwneud â deilliannau iechyd dysgwyr ac, mewn rhai achosion, yn ymwneud â chyrhaeddiad a manteision yn ddiweddarach mewn bywyd (Adolygiad Tystiolaeth: Effeithiau Prydau Ysgol am Ddim i Bawb). Mae'r canfyddiadau hyn yn tanlinellu pwysigrwydd deilliannau cymdeithasol ac ymddygiadol fel effeithiau posibl UPFSM, yn ogystal â'i effaith ar ddysgu a chyrhaeddiad.

### 5.4.1. Effaith ar sgiliau cymdeithasol a datblygiad y dysgwr

Mewn llawer o ysgolion astudiaeth achos, ymddengys fod UPFSM wedi cryfhau buddion cymdeithasol a datblygiadol trwy droi amser cinio yn brofiad strwythuredig a rennir pan fydd dysgwyr yn datblygu moesau wrth y bwrdd, sgiliau cyllyll a ffyrc, a rhyngweithio

cymdeithasol. Mae tystiolaeth gan staff a rhieni/gofalwyr, ac arsylwadau o'r gwasanaeth amser cinio, yn dangos bod darpariaeth gyffredinol wedi lleihau teimladau o allgáu ac wedi creu amgylchedd cadarnhaol, tebyg i gymuned sy'n cefnogi cymdeithasu a sgiliau bywyd.

Adroddodd staff mewn sawl ysgol astudiaeth achos am newidiadau sy'n dod i'r amlwg o ran rhyngweithiadau cymdeithasol dysgwyr yn dilyn cyflwyno UPFSM (gweler Pennod 5.1.2). Dangosodd arsylwadau o'r gwasanaeth amser cinio mewn astudiaethau achos a grwpiau ffocws gyda dysgwyr fod llawer o ddysgwyr wedi dewis ciniawau ysgol oherwydd bod eu ffrindiau'n gwneud hynny, gan awgrymu bod yr hyblygrwydd a ddarperir gan UPFSM wedi galluogi profiad amser cinio mwy cymdeithasol a chynhwysol. Tynnodd rhai dysgwyr sylw at y ffaith bod cael pryd ysgol wedi eu helpu i osgoi teimlo eu bod wedi'u "gadael allan" o'u cymharu â chyfoedion â chinio pecyn.

Nododd staff mewn ychydig o ysgolion astudiaeth achos hefyd fod amseroedd bwyd a rennir wedi cefnogi datblygiad sgiliau bywyd ymarferol, megis ymddygiadau wrth y bwrdd a'r defnydd cywir o gyllyll a ffyrc, wrth i ddysgwyr arsylwi ar ymddygiadau a'u dynwared. Gwelwyd bod y profiadau hyn yn gwella mwynhad mewn perthynas â bwyd, gyda rhiant-lywodraethwr mewn un ysgol astudiaeth achos yn pwysleisio bod "llawer o sgiliau bywyd yn gysylltiedig ag amser pryd bwyd". Cytunodd llawer o staff yr ysgol fod amser cinio wedi dod yn rhan fwy cadarnhaol o'r diwrnod ysgol, gydag un pennaeth yn datgan:

"Roedd llawer o'n plant yn dod i mewn heb wybod sut i ddefnyddio cyllell a fforc, ddim o reidrwydd hyd yn oed yn bwyta eu bwyd gyda llwy, felly rydym wedi gallu dysgu ymddygiadau wrth y bwrdd a beth i'w wneud pan fydd pawb wedi gorffen, gan hyrwyddo'r mathau hyn o sgiliau cymdeithasol."Pennaeth, astudiaeth achos

### 5.4.2. Effaith ar ymddygiad a chanolbwyntio

Teimlai staff a gyfwelwyd mewn ysgolion astudiaeth achos fod UPFSM wedi cael effaith gymedrol ond cadarnhaol ar ymddygiad dysgwyr a'u gallu i ganolbwyntio, yn bennaf trwy leihau newyn a chreu amseroedd cinio tawelach. Er nad oedd y rhan fwyaf o staff wedi nodi unrhyw newidiadau mawr, nododd sawl un fod dysgwyr bellach yn dychwelyd i wersi wedi'u setlo'n fwy ac yn llai llwglyd, a bu rhywfaint o welliant o ran egni a chanolbwyntio yn ystod sesiynau'r prynhawn. Nid yw'r effeithiau hyn yn gyffredinol a gallant gael eu dylanwadu gan ffactorau eraill, ond fe'u hamlygwyd yn gyson fel rhai buddiol.

Sylwodd penaethiaid a llywodraethwyr mewn rhai ysgolion astudiaeth achos fod ymddygiad yn ystod amseroedd bwyd wedi gwella, ac mae amgylcheddau bwyta mwy llonydd wedi annog mwy o ddysgwyr i fwyta eu bwyd. Dywedodd un pennaeth o ysgol astudiaeth achos "os nad ydyn nhw wedi cael pryd da, dydyn nhw ddim yn mynd i ffynnu yn yr un ffordd, ac mae plant yn ddiamau'n bwyta'n well". Nododd ychydig o athrawon a oedd yn rhan o'r astudiaethau achos wahaniaeth amlwg o ran ymgysylltiad dysgwyr ar ôl cinio o'i gymharu â chyn y polisi. Yn flaenorol, roedd rhai dysgwyr yn dal i fod yn llwglyd yn y prynhawn, ac yn aml roedd yn rhaid i athrawon oedi gwersi am egwyl ychwanegol er mwyn i ddysgwyr allu bwyta. Erbyn hyn, "mae'r plant yn llawn, wedi bwyta'n dda, ac yn barod am y prynhawn eto".

Ategodd rhai rhieni/gofalwyr mewn un ysgol astudiaeth achos y safbwyntiau hyn, ac roedd un rhiant/gofalwr yn benodol yn nodi bod ei blentyn, a oedd gynt yn bwyta cinio pecyn, yn

aml yn dod adref yn llwglyd, a oedd yn effeithio ar ei allu i ganolbwyntio yn yr ysgol. Ers UPFSM, adroddodd y rhiant/gofalwr fod ei blentyn "yn ymddangos ei fod yn gwneud yn well gan ei fod wedi bwyta pryd o fwyd", gan ei alluogi i ganolbwyntio mwy a chymryd rhan yn well mewn gwersi. Ar y cyfan, cytunodd staff a rhieni/gofalwyr fod mynediad at bryd o fwyd maethlon yn ystod y diwrnod ysgol yn cefnogi dysgu a llesiant, hyd yn oed os yw graddfa'r effaith yn amrywio ar draws lleoliadau.

### 5.4.3. Effaith ar bresenoldeb

Nid oes tystiolaeth glir bod UPFSM wedi gwella presenoldeb yn yr ysgol yn uniongyrchol. Awgrymodd un aelod o staff mewn un ysgol astudiaeth achos y gallai rhai rhieni/gofalwyr bellach roi blaenoriaeth i anfon eu plant i'r ysgol nid yn unig at ddibenion addysgol ond hefyd i sicrhau eu bod yn derbyn pryd bwyd gwarantedig, gan fframio'r ysgol fel ffynhonnell gofal ehangach. Fodd bynnag, roedd y canfyddiad hwn yn anecdotaidd ac nid oedd yn gyffredin.

Mae data cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24 yn dangos bod 53.3% o ddysgwyr cynradd sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn absennol yn gyson (ar goll mwy na 10% o sesiynau), o'i gymharu â 24.4% o ddysgwyr nad oeddent yn gymwys (Presenoldeb ac absenoldeb o ysgolion). Er bod y ffigurau hyn wedi gwella ers cyrraedd uchafbwynt yn 2022 i 2023[6] a bod y bwlch rhwng dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim a dysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael prydau bwyd am ddim wedi culhau, mae'r gwahaniaeth yn parhau i fod yn sylweddol. O ystyried yr ystod o ffactorau sy'n dylanwadu ar bresenoldeb, mae'n anodd priodoli unrhyw newid yn uniongyrchol i UPFSM.

Bydd effeithiau posibl ar bresenoldeb a chyrhaeddiad yn cael eu harchwilio ymhellach yng ngham nesaf yr astudiaeth hon.

## 5.5. Pa effaith mae'r polisi wedi'i chael ar gyllid teuluoedd?

Gwelir UPFSM hefyd fel polisi lefelu cyffredinol ar gyfer lleihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol (Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, 2023). Dangoswyd bod arbedion ariannol uniongyrchol o beidio â thalu am ginio yn lleihau straen ariannol i deuluoedd ac yn cynyddu'r adnoddau sydd ar gael i'r cartref. Mae tystiolaeth o'r gwerthusiad o weithredu UPFSM yn Llundain hefyd yn awgrymu bod arbedion o UPFSM yn annog ac yn caniatáu i deuluoedd gynyddu ansawdd neu faint y bwyd a brynir yn y cartref, gan gyfrannu at safonau byw uwch (Impact on Urban Health, 2024).

Nid yw'r dystiolaeth gyfredol ar effaith UPFSM ar gyllid teuluoedd yn bendant eto, er ei bod yn tynnu sylw at newidiadau ystyrlon mewn cyllidebu aelwydydd a diogelwch bwyd. Mae mewnwelediadau cynnar yn awgrymu y gallai'r polisi leddfu straen ariannol i deuluoedd, yn enwedig y rhai ar incwm isel neu ychydig uwchben y trothwy cymhwysedd ar gyfer bod yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Bydd y cam ymchwil nesaf yn cynnwys arolwg

[6] Er mai rhwng 2022 a 2023 y cyflwynwyd UPFSM, cyfeirir at ddata presenoldeb ar gyfer y flwyddyn honno yma oherwydd mai dyma'r flwyddyn gyntaf y casglwyd data yn dilyn pandemig COVID-19.Digwyddodd y casgliad data blaenorol rhwng 2018 a 2019, nad yw'n gymaradwy gan ei fod yn adlewyrchu patrymau presenoldeb cyn COVID.

rhieni/gofalwyr i brofi a dilysu'r canfyddiadau hyn sy'n dod i'r amlwg, gan ddarparu data mwy cadarn ar fuddion ariannol.

### 5.5.1. Effaith ar gyllid teuluol

Roedd adroddiadau gan staff a rhieni/gofalwyr ar draws y rhan fwyaf o astudiaethau achos ysgolion yn dangos bod y polisi UPFSM wedi lleddfu pwysau ariannol ar deuluoedd, yn enwedig y rhai sydd â nifer o blant (gweler Pennod 5.2.4). Nid oes angen i rieni/gofalwyr gyllidebu ar gyfer sawl pryd y mae angen talu ar eu cyfer mwyach na dibynnu ar ddewisiadau amgen rhatach ar gyfer ciniawau pecyn. Drwy ddarparu pryd poeth a maethlon i bob dysgwr, mae'r polisi wedi creu maes chwarae mwy cyfartal, gan sicrhau mynediad cyfartal at opsiynau bwyd waeth beth fo incwm y teulu.

Roedd rhanddeiliaid yn gyson yn tynnu sylw at gost bwyd iach fel un o'r prif heriau i deuluoedd. Adroddodd llawer o staff yn yr astudiaethau achos fod rhieni/gofalwyr yn cael trafferth darparu opsiynau maethlon gartref, ac roedd un athro'n nodi'r anhawster o "allu cyllidebu i sicrhau bod gan y plant y pryd maethlon hwnnw". Ar draws astudiaethau achos, cytunodd staff fod fforddiadwyedd yn broblem i lawer o rieni/gofalwyr, yn enwedig i'r rhai sydd ar fin bod yn gymwys am brydau ysgol am ddim, a bod UPFSM wedi helpu i leihau treuliau wythnosol. Er na all UPFSM ddileu tlodi ar ei ben ei hun, credwyd ei fod yn gwneud bywyd yn haws i deuluoedd dan straen ariannol ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y system flaenorol, pan oedd rhai dysgwyr yn cyrraedd yr ysgol gyda chiniawau pecyn nad oeddent yn cynnwys llawer o fwyd.

"Mae'n gwneud gwahaniaeth enfawr gwybod bod ganddyn nhw ginio poeth."Goruchwyliwr amser cinio, astudiaeth achos

"Rwy'n credu, yn ariannol, ei fod wedi cael effaith gadarnhaol enfawr ar ein rhieni eu bod nhw'n cael sicrwydd y bydd eu plentyn yn bwyta'r diwrnod hwnnw. Ac mae'n swnio'n eithafol, ond yr hyn rydyn ni'n delio ag ef yw efallai na fydd plant yn bwyta os nad ydyn nhw'n cael pryd ysgol. Neu hyd yn oed os ydyn nhw'n bwyta, y pryd o fwyd y maen nhw'n ei gael yn yr ysgol yw'r pryd mwyaf y maen nhw'n ei gael yn ystod y dydd, ac felly maen nhw'n dibynnu ar hynny. Ac yna efallai na fyddent pe bai'n rhaid iddynt dalu amdano."Swyddog cyswllt teuluol, astudiaeth achos

### 5.5.2. Effeithiau ar stigma

Yn ôl y sôn, mae UPFSM wedi lleihau'r stigma a'r anghydraddoldeb cymdeithasol sy'n gysylltiedig â phrydau ysgol am ddim ymhlith dysgwyr drwy sicrhau eu bod i gyd yn cael yr un ddarpariaeth, gan greu amgylchedd mwy cynhwysol a chyfartal. Nododd staff, rhieni/gofalwyr a dysgwyr fod hyn wedi gwella llesiant dysgwyr, wedi dileu rhaniadau gweladwy, ac wedi normaleiddio prydau ysgol, er bod rhai staff mewn ysgolion astudiaeth achos yn nodi bod systemau di-arian parod a oedd yn bodoli eisoes wedi lliniaru stigma i raddau.

"Nawr, dydych chi ddim yn gwybod a yw eich mam ar £50,000 y flwyddyn neu 50c. Mae'n gyfartal ac yn hygyrch i unrhyw un, sef yr hyn y dylai fod."Cynorthwyydd addysgu, astudiaeth achos

Credwyd yn gyffredinol hefyd fod UPFSM wedi lleddfu straen ariannol i deuluoedd ychydig uwchben y trothwy ar gyfer bod yn gymwys am brydau ysgol am ddim, gan sicrhau bod dysgwyr yn cael pryd maethlon gwarantedig a lleihau straen rhieni. Adroddodd staff a rhieni/gofalwyr fod darpariaeth gyffredinol nid yn unig yn lleddfu pwysau economaidd ond hefyd yn dileu stigma i aelwydydd incwm isel, gan feithrin mwy o gydraddoldeb a rhyddhad emosiynol. Roedd tystiolaeth gref o astudiaethau achos a chyfweliadau ag arweinwyr strategol awdurdodau lleol o effeithiau cadarnhaol y polisi ar rieni/gofalwyr yn dilyn dileu dyled arian cinio, sydd hefyd wedi helpu i leihau stigma a straen i rieni/gofalwyr. Adroddwyd bod y newid hwn yn lleddfu ymhellach y pwysau ar gyllid teuluoedd drwy sicrhau bod gan bob plentyn fynediad at bryd o fwyd yn yr ysgol.

“Wyddoch chi, dydy’r plant ddim am gael eu cosbi nawr oherwydd maen nhw wedi cael gwarant o bryd o fwyd.”Rheolwr busnes ysgol, astudiaeth achos

### 5.5.3. Effeithiau ar fywyd teuluol

Yn ogystal â lleddfu pwysau ariannol a chael gwared ar stigma, mae UPFSM wedi darparu buddion ymarferol ac emosiynol i deuluoedd. Drwy ddileu’r angen i baratoi ciniawau pecyn, adroddodd rhieni/gofalwyr fod y polisi’n arbed amser iddynt ac yn lleihau straen dyddiol. Disgrifiodd un rhiant/gofalwr y newid fel “un peth yn llai i dalu amdano, un peth yn llai i roi trefn arno”, gan dynnu sylw at y cyfleustra a’r rhyddhad y mae’n ei gynnig, yn enwedig i aelwydydd â nifer o blant neu rieni/gofalwyr sy’n gweithio oriau hir neu afreolaidd.

Esboniodd rhieni/gofalwyr yr ymgynghorwyd â nhw yn ystod yr astudiaethau achos fod mynediad gwarantedig at bryd o fwyd poeth a maethlon bob dydd yn rhoi tawelwch meddwl iddynt, gan leddfu pryderon ynghylch a fyddai eu plentyn yn bwyta'n dda. Disgrifiwyd y sicrwydd hwn fel “pwysau enfawr yn cael eu codi” gan staff a rhieni/gofalwyr fel ei gilydd. I lawer o rieni/gofalwyr a gyfwelwyd fel rhan o'r astudiaethau achos, mae'r polisi wedi gwella llesiant emosiynol drwy leihau'r euogrwydd sy'n gysylltiedig ag amser neu adnoddau cyfyngedig ar gyfer paratoi prydau iach gartref.

Adroddodd rhieni/gofalwyr hefyd fod UPFSM yn helpu gyda chynllunio prydau bwyd. Mae gwybod bod eu plentyn wedi cael pryd sylweddol yn ystod y dydd yn caniatáu hyblygrwydd ar gyfer prydau gyda'r nos heb beryglu maeth. Mewn un ysgol, nododd rhai teuluoedd fod bwydlenni’r ysgol wedi ysbrydoli syniadau newydd ar gyfer coginio gartref, ac mae timau arlwyo yn cynnig ryseitiau ar gais.

At ei gilydd, mae tystiolaeth bod y buddion eilaidd, gan gynnwys arbed amser, cyfleustra, a rhyddhad emosiynol, yn ategu effaith ariannol UPFSM, gan wneud bywyd yn haws i deuluoedd a chefnogi profiad ysgol mwy teg.

## 5.6. Pa effaith gafodd y polisi ar system fwyd ysgolion Cymru, dosbarthwyr, cyflenwyr a chynhyrchwyr?

### 5.6.1. Effeithiau cadarnhaol cynnar

Mae rhywfaint o arwyddion cynnar y gallai caffael lleol greu buddion i system fwyd ysgolion Cymru a'r economi leol, er bod tystiolaeth ar hyn o bryd yn gyfyngedig a dylid ei dehongli'n

ofalus. Awgrymodd un darparwr ysgol fod pryniant yr ALl o laeth a chynnyrch lleol yn cefnogi'r economi leol wrth leihau milltiroedd bwyd. Fe wnaethant dynnu sylw at y ffaith y gallai ymchwil bellach i fuddion caffael lleol helpu i egluro'r buddion i'r economi leol a chynaliadwyedd, y tu hwnt i ddewis yr opsiwn rhataf yn unig. Nododd y darparwr hefyd y gallai eu model gweithredu fod yn astudiaeth achos ledled Cymru. Maent yn cynnig ymweliadau addysgol â'r fferm yn rhad ac am ddim i ysgolion yn yr ALl fel y gall dysgwyr gael mwy o ymwybyddiaeth o'r cynnyrch maen nhw'n ei fwyta, ac ar yr un pryd mae'n drip ysgol addysgiadol rhatach.

### 5.6.2. Diffyg ymwybyddiaeth

Er gwaethaf buddion posibl caffael a chyrchu lleol, fel y nodir ym Mhennod 4.2, mae ymwybyddiaeth o arferion cyrchu a chaffael bwyd yn parhau i fod yn gyfyngedig ar draws ysgolion, ac nid yw'n glir i ba raddau y mae hyn yn gysylltiedig â'r polisi. Datgelodd un cogydd a gyfwelwyd fel rhan o astudiaeth achos ysgol fod staff y gegin yn aml yn brin o wybodaeth ynghylch a oedd bwyd yn dod o Gymru neu'n lleol. Er enghraifft, er bod cig wedi'i gaffael yn lleol yn flaenorol, dywedodd rhai ysgolion nad oedd hyn yn wir mwyach. Esboniodd rhieni/gofalwyr mewn un astudiaeth achos fod y diffyg ymwybyddiaeth hwn yn ymestyn i ddysgwyr: gall dysgwyr hŷn gyfrifo ‘milltiroedd bwyd’ mewn gwersi, ond ychydig iawn o ddealltwriaeth sydd ganddynt o darddiad y bwyd maen nhw’n ei fwyta amser cinio.

Nid yw llawer o ysgolion a staff cegin yn ymwneud yn uniongyrchol â phenderfyniadau caffael, sydd fel arfer yn cael eu rheoli gan ALlau. Mewn un ysgol astudiaeth achos, adroddodd staff y gegin eu bod yn teimlo nad oedd eu hadborth ar fwydlenni wedi cael ystyriaeth ystyrlon. Yn yr achos hwn, nid oedd staff yr ysgol yn hyderus o ran yr wybodaeth sydd ganddyn nhw am y ddarpariaeth prydau ysgol, fel y trafodwyd uchod. Ar ben hynny, ystyriwyd y gegin fel “endid ar wahân” o fewn amgylchedd yr ysgol gan ei bod yn cael ei chyfarwyddo a’i rheoli’n uniongyrchol gan yr ALl.

# 6. Casgliadau, gwersi a ddysgwyd, ac argymhellion

## 6.1. Casgliadau

Mae'r bennod hon yn crynhoi canfyddiadau'r ymchwil a gynhaliwyd hyd yma, gan ganolbwyntio ar y broses weithredu ac arwyddion cynnar effaith polisi UPFSM.

Mynegodd y rhan fwyaf o randdeiliaid (ALlau, penaethiaid, staff cegin, athrawon, staff ysgolion, rhieni/gofalwyr) gefnogaeth i'r polisi UPFSM, yn enwedig oherwydd ei botensial i leihau stigma a chefnogi teuluoedd incwm isel a allai fel arall wynebu rhwystrau ariannol i gael mynediad at brydau ysgol. Er bod rhanddeiliaid yn cefnogi mynediad i bawb at brydau ysgol yn gyffredinol, roedd nifer fach o benaethiaid a rhieni/gofalwyr yn cwestiynu a oedd dull cyffredinol bob amser yn decaf, gan awgrymu y gallai cymorth mwy targedig fod yn briodol mewn rhai cyd-destunau.

Yn gyffredinol, ystyriwyd bod cyflwyno'r polisi fesul cam, ynghyd â chyllid cyfalaf a refeniw wedi'i dargedu, yn gadarnhaol o ran galluogi ysgolion ac ALlau i reoli gwaith i uwchraddio seilwaith, gwneud addasiadau logistaidd, a mynd i’r afael â phwysau staffio a ddaeth yn sgil gweithredu'r polisi. Er bod profiadau'n amrywio yn dibynnu ar gapasiti lleol, maint yr ysgol

ac amseriad y gweithredu, roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn gallu paratoi'n effeithiol gyda chymorth canllawiau ymarferol gan ALlau. Fodd bynnag, bu heriau pan oedd gwaith uwchraddio'n gymhleth, cadwyni cyflenwi wedi'u gohirio, neu pan oedd recriwtio staff arlwyo a goruchwylio ychwanegol yn anodd, gan dynnu sylw at bwysau gweithredol parhaus.

Weithiau roedd cyfathrebu gan Lywodraeth Cymru hefyd yn cael ei ystyried yn hwyr neu'n aneglur, yn enwedig yn syth ar ôl y cyhoeddiad polisi, a oedd yn rhoi cyfrifoldeb ychwanegol ar ALlau i ddehongli canllawiau a chefnogi ysgolion.

Erbyn mis Gorffennaf 2024, roedd y gyfradd gyfartalog yn manteisio ar UPFSM yn 69% (yn amrywio o 57% i 82% ar draws ALlau), ac roedd y cyfradd yn uwch ymhlith dysgwyr iau a oedd wedi cael y cynnig drwy gydol eu hamser yn yr ysgol. Natur gyffredinol, rhad ac am ddim y polisi fu'r galluogwr cryfaf, yn enwedig i deuluoedd ychydig uwchben y trothwy cymhwysedd ar gyfer fod yn gymwys i'w plant gael prydau ysgol am ddim. Mewn ymdrechion i gynyddu'r nifer sy'n cymryd prydau ysgol, mae sawl ALl ac ysgol wedi gweithredu strategaethau ymarferol i annog mwynhad o brydau ysgol (megis cynyddu amrywiaeth ar fwydlenni) ochr yn ochr ag ymdrechion wedi'u targedu i gryfhau hyder ac ymgysylltiad dysgwyr a rhieni yn y cynnig prydau ysgol. Fodd bynnag, mae heriau'n parhau, yn enwedig o ran hybu'r nifer o ddysgwyr hŷn sy’n manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim a bodloni gofynion deietegol a diwylliannol.

Yn y cyfnod interim hwn, mae amrywiaeth o effeithiau sy'n dod i'r amlwg o UPFSM wedi cael eu hadrodd amdanynt; crynhoir y rhain isod.

Yn gadarnhaol, mae UPFSM wedi gwella mynediad at brydau maethlon i bob dysgwr, gan gefnogi arferion bwyta iach a lleihau ansicrwydd bwyd, yn enwedig i deuluoedd ychydig uwchben y trothwy ar gyfer bod yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae cael gwared ar gostau prydau bwyd hefyd wedi lleddfu beichiau gweinyddol sy'n gysylltiedig â dyled arian cinio, wedi gwella cydberthnasau rhwng ysgolion a theuluoedd, ac wedi caniatáu i staff ganolbwyntio mwy ar addysgu a chyfrifoldebau eraill. Mewn rhai ysgolion, mae'r polisi wedi meithrin buddion cymdeithasol, ac mae amseroedd bwyd a rennir yn annog rhyngweithio rhwng cyfoedion, modelu bwyta'n iach, a phrofiad bwyta mwy cynhwysol. Mae yna hefyd rywfaint o dystiolaeth gyfyngedig o well ymddygiad a chanolbwyntio, ac mae'r polisi wedi lleddfu pwysau ariannol ar deuluoedd, yn enwedig y rhai sydd â nifer o blant neu sydd ychydig uwchlaw'r trothwy cymhwysedd.

Mae nifer o ganlyniadau anfwriadol hefyd wedi dod i'r amlwg. Mae mwy o ddysgwyr yn bwyta prydau bwyd wedi rhoi pwysau ar logisteg amser cinio, yn enwedig mewn ysgolion mwy. Adroddodd rhai ysgolion am fwy o amseroedd cinio brysiog neu anhrefnus ers cyflwyno'r polisi, a llwyth gwaith a straen uwch i dimau arlwyo, yn enwedig o ran rheoli deietau arbennig a nifer uwch o brydau bwyd. Mae gwastraff bwyd wedi cynyddu mewn rhai lleoliadau, yn enwedig pan fydd dysgwyr yn rhoi cynnig ar fwydydd anghyfarwydd, ac mae heriau parhaus yn ymwneud â chynnal goruchwyliaeth a hyrwyddo bwyta'n iach yn ystod amseroedd cinio prysurach. Yn ogystal, mae her newydd wedi dod i'r amlwg gyda llai o rieni/gofalwyr yn cofrestru ar gyfer ‘dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim’, ac mae goblygiadau o ran cyllid a ddyrennir i ddysgwyr o gefndiroedd mwy dan anfantais ac adnoddau ysgol cysylltiedig.

## 6.2. Gwersi a ddysgwyd ac argymhellion

Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r prif wersi a ddysgwyd a'r argymhellion o'r gwerthusiad. Mae pob gwers yn gysylltiedig ag argymhellion sydd wedi'u hanelu at Lywodraeth Cymru, CLlLC, ALlau, timau arlwyo neu ysgolion.

### 6.2.1. Cymorth parhaus i ALlau ac ysgolion i hyrwyddo dysgwyr i fanteisio ar y cynnig UPFSM

Er bod y broses o gyflwyno UPFSM wedi'i chwblhau'n llwyddiannus, mae ALlau, ysgolion a rhieni/gofalwyr yn parhau i wynebu heriau parhaus. Mae'r nifer sy'n manteisio ar y cynnig yn parhau i fod yn is mewn rhai ysgolion ac ALlau, ac mae rhai'n nodi anawsterau wrth fodloni gofynion deietegol cynyddol neu addasu i bwysau gweithredol. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod canllawiau amserol a chyfathrebu clir yn parhau i fod yn bwysig i helpu ysgolion ac ALlau i reoli'r heriau hyn yn effeithiol, yn enwedig wrth i newidiadau pellach i'r Rheoliadau Bwyta'n Iach gael eu cyflwyno (wedi'u cynllunio ar gyfer mis Hydref 2026).

Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru:

- parhau i ddarparu un pwynt cyswllt o fewn Llywodraeth Cymru ar gyfer ymholiadau neu heriau parhaus gan ALlau sy'n ymwneud â’r niferoedd sy’n manteisio ar y cynnig UPFSM, gan gynnwys ymholiadau ynghylch y diweddariad i'r Rheoliadau Bwyta'n Iach

Argymhellion ar gyfer ALlau:

- cynnal cymorth a chanllawiau parhaus i gynorthwyo ysgolion gyda heriau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg ac i annog pob dysgwr i fanteisio ar y cynnig o brydau ysgol am ddim, yn enwedig pan fydd newidiadau i’r Rheoliadau Bwyta'n Iach yn cael eu cyflwyno
- defnyddio rhwydweithiau, fforymau, neu sianeli cydweithredol eraill i rannu datrysiadau ymarferol, astudiaethau achos, a gwersi a ddysgwyd ar gyfer cynyddu nifer y dysgwyr sy’n manteisio ar y cynnig, gan alluogi ysgolion i fabwysiadu arferion gorau
- darparu gwybodaeth mewn sawl iaith a sicrhau bod yr iaith yn hygyrch

### 6.2.2. Nifer y dysgwyr sy’n manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim

Adroddodd ysgolion eu bod yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i annog dysgwyr i fanteisio ar y cynnig, megis addasu bwydlenni, annog staff, ac ymgysylltu â rhieni/gofalwyr. Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n manteisio ar y cynnig yn parhau i fod yn anghyson ar draws ysgolion ac ALlau. Mae ysgolion yn chwarae rhan hanfodol fel y prif gyswllt rhwng gwasanaethau arlwyo a theuluoedd; pan fo ymgysylltiad rhwng ysgolion ac arlwywyr yn gyfyngedig, efallai y bydd cyfleoedd i hyrwyddo gwerth prydau ysgol ac annog dysgwyr i’w cael yn cael eu colli. Roedd rhai o'r rhwystrau a grybwyllwyd yn cynnwys apêl y fwydlen, anghenion diwylliannol/deietegol, a llai o ddysgwyr hŷn yn manteisio ar y cynnig am brydau ysgol.

Argymhelliad ar gyfer ALlau:

- sefydlu rhwydwaith i ysgolion gael rhannu arferion gorau ac archwilio gwahanol ddulliau i gynyddu nifer y dysgwyr sy’n manteisio ar y cynnig a fyddai’n caniatáu i ysgolion ddysgu oddi wrth ei gilydd a mabwysiadu strategaethau effeithiol

Argymhelliad ar gyfer CLILC:

- helpu ALlau i weithio gydag ysgolion i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n cael prydau ysgol ac i nodi heriau cyffredin a dulliau llwyddiannus ar draws ALlau, yn enwedig lle mae'r nifer sy'n cael prydau bwyd yn isel

Argymhelliad ar gyfer ysgolion:

- rhannu strategaethau llwyddiannus yn rhagweithiol gyda chymheiriaid drwy fforymau lleol neu grwpiau cydweithredol i feithrin dysgu ar y cyd

### 6.2.3. Data

Adroddwyd bod diffyg data cyson a manwl yn ymwneud â faint o ysgolion a dysgwyr sy’n manteisio ar y cynnig. Mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i ddadansoddi tueddiadau a deall cydberthnasau (e.e. rhwng presenoldeb a’r nifer sy’n cael prydau bwyd). Er bod Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau ar gasglu data, argymhellir rhoi rhagor o gefnogaeth i safoni casglu data ar draws ALlau ac ysgolion. Yn enwedig o ran nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar y cynnig, bydd data mwy cynhwysfawr a chyson yn helpu i ddadansoddi tueddiadau a chanolbwyntio ar feysydd lle gallai fod angen rhagor o gymorth.

Argymhelliad i Lywodraeth Cymru:

- parhau i ddarparu canllawiau i ALlau ar sut i gasglu data safonol o ansawdd uchel a sut i'w ddefnyddio i fonitro tueddiadau o ran manteisio ar y cynnig, nodi patrymau, ac asesu beth sy'n gweithio

Argymhellion ar gyfer ALlau:

- defnyddio data ar lefel yr ysgol i fonitro nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar y cynnig a deall patrymau mewn perthynas â dysgwyr, a defnyddio hyn i lywio addasiadau i fwydlenni a chefnogi gwneud penderfyniadau ac ymyriadau wedi'u targedu
- rhannu mewnwelediadau ar strategaethau effeithiol i gynyddu nifer y dysgwyr sy’n manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim

### 6.2.4. Dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim

Mae cyflwyno UPFSM yn dod â risg bosibl na fydd rhai teuluoedd yn cofrestru eu plant fel dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim, gan fod plant yn derbyn pryd o fwyd am ddim waeth beth fo'u cymhwysedd. Er nad yw'n glir pa mor fawr yw maint yr effaith hon yn ymarferol, gallai unrhyw dan-gofrestru effeithio ar fynediad at fudd-daliadau ychwanegol a chywirdeb data ynghylch dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim. Felly mae

argymhellion yn canolbwyntio ar liniaru'r risg hon drwy gefnogi cofrestru a sicrhau y gall plant cymwys gael mynediad at yr holl fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt.

Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru:

- archwilio newidiadau deddfwriaethol i gael gwared ar rwystrau i wneud cais am brydau ysgol am ddim megis cyflwyno cofrestru awtomatig neu brosesau symlach i ddiogelu cyllid i ddysgwyr o gefndiroedd mwy dan anfantais
- ystyried ailenwi cynllun ‘dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim’ i wneud yn siŵr bod ei fanteision ehangach (e.e. grantiau gwisg ysgol, cymorthdaliadau teithio) yn glir i’r rhai a allai fod yn gymwys

Argymhelliad ar gyfer ALlau ac ysgolion:

- gweithredu strategaethau cyfathrebu wedi'u targedu i godi ymwybyddiaeth o gymhwysedd a buddion y cynllun dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim, gan sicrhau bod pob teulu cymwys yn cael gwybod ac yn cael eu cefnogi i gyflwyno ceisiadau; gallai hyn adeiladu ar ganllawiau neu gyfathrebiadau presennol Llywodraeth Cymru

### 6.2.5. Cynnyrch lleol

Mae cefnogaeth gref i gaffael cynnyrch o Gymru / cynnyrch lleol, ond mae sawl rhwystr yn cyfyngu ar ei bresenoldeb mewn ysgolion cynradd. Roedd y rhwystrau a nodwyd yn cynnwys cyfyngiadau mewn perthynas â’r gadwyn gyflenwi, diffyg seilwaith prosesu, a phryderon ynghylch chwyddiant bwyd cynyddol. Mae'r argymhellion yma'n canolbwyntio ar leihau/dileu'r rhwystrau hyn a hwyluso caffael lleol parhaus mewn ysgolion cynradd lle mae arferion gorau yn bodoli.

Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru:

- archwilio datblygu a hyrwyddo diffiniad o beth sy'n cyfrif fel cynnyrch ‘lleol’ mewn perthynas â chaffael bwyd ysgol
- ystyried pa gymorth neu ganllawiau wedi'u targedu a allai helpu ysgolion i gynnal caffael lleol, yn enwedig yng nghyd-destun costau bwyd cynyddol, gan gynnwys cymorth ariannol neu gymorthdaliadau, offer ymarferol, neu rannu dulliau arfer gorau
- parhau i gefnogi treialu gwahanol brosiectau a all helpu i nodi ffyrdd o gynyddu'r cyflenwad lleol, fel y fenter Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion
- datblygu neu adeiladu ar strategaethau presennol i roi blaenoriaeth hirdymor i gaffael lleol, gan sicrhau cysondeb ar draws ysgolion ac ALlau a chefnogi arfer caffael cynaliadwy
- cryfhau cyfathrebu a chydlynu ar draws ALlau, gan gynnwys rhannu canllawiau, arferion gorau, a dulliau o gaffael yn lleol, er mwyn sicrhau gweithrediad cyson, lleihau dryswch, a helpu i oresgyn rhwystrau logistaidd neu gaffael

### 6.2.6. Darpariaethau lefel ysgolion uwchradd

Codwyd pryderon ynghylch effaith hirdymor y polisi yn absenoldeb darpariaeth ar lefel uwchradd. Nodwyd y gallai dysgwyr deimlo effeithiau bod yn ddysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim (neu ddim yn gymwys) am y tro cyntaf yn ystod y cyfnod pontio i'r ysgol uwchradd, gan deimlo mwy o stigma a chanlyniadau negyddol i'w hiechyd a'u cyrhaeddiad addysgol o bosibl. Felly, argymhellir archwilio beth allai fod yn ymarferol o ran lleihau effeithiau o'r fath pan fydd dysgwyr yn pontio i’r ysgol uwchradd.

Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru:

- archwilio opsiynau ar gyfer ymestyn y ddarpariaeth dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim i lefel yr ysgol uwchradd
- archwilio dichonoldeb cyflwyno cynnig cyffredinol i ysgolion uwchradd

### 6.2.7. Profiad amser cinio

Un ffactor a nodwyd fel rhywbeth a allai fod yn rhwystro dysgwyr rhag manteisio ar y cynnig yw'r profiad amser cinio. Ystyriwyd bod lle cyfyngedig yn y neuadd fwyta a chiwiau hir yn effeithio'n negyddol ar y profiad cyffredinol, a allai yn ei dro leihau parodrwydd dysgwyr i gael pryd ysgol. Felly, argymhellir, pan fo modd, gwneud ymdrechion i greu amgylchedd amser cinio mwy hamddenol a phleserus.

Argymhellion ar gyfer ALlau ac ysgolion:

- rhoi blaenoriaeth i fesurau ymarferol, fel gwella cynlluniau ystafelloedd bwyta i wella llif, addasu neu wasgaru amseroedd cinio i leihau ciwiau, a chyflwyno trefniadau eistedd strwythuredig i hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol ac ymdeimlad o gymuned
- creu amgylchedd mwy hamddenol a phleserus i annog mwy o ddysgwyr i fanteisio ar y cynnig UPFSM

# Atodiadau

## Atodiad 1: Setiau data

**Tabl 1: Cyllid refeniw UPFSM wedi'i ddyrannu fesul ALI (GBP)**

| ALI | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | 671,684 | 1,483,133 | 1,897,615 | 1,950,949 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 955,337 | 1,966,816 | 4,344,989 | 4,715,771 |
| **Caerffili** | 1,848,650 | 4,391,074 | 5,373,910 | 5,249,642 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 1,359,879 | 8,390,675 | 10,652,352 | 10,547,818 |
| **Ceredigion** | 1,223,742 | 3,705,327 | 5,945,114 | 5,915,247 |
| **Dinas Caerdydd** | 724,515 | 1,713,809 | 1,985,083 | 1,969,616 |
| **Conwy** | 959,983 | 2,345,432 | 2,928,023 | 2,903,490 |
| **Sir Ddinbych** | 435,750 | 1,755,652 | 2,883,223 | 2,856,023 |
| **Sir y Fflint** | 797,428 | 2,852,971 | 4,679,504 | 4,557,903 |
| **Gwynedd** | 961,971 | 3,108,269 | 3,450,161 | 3,403,227 |
| **Ynys Môn** | 648,883 | 1,679,894 | 2,074,683 | 1,993,616 |
| **Merthyr Tudful** | 557,669 | 1,048,593 | 2,092,283 | 2,071,483 |
| **Sir Fynwy** | 918,743 | 2,161,436 | 2,700,288 | 2,668,821 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 1,023,038 | 2,760,033 | 3,662,963 | 3,624,562 |
| **Casnewydd** | 1,751,104 | 4,252,519 | 5,329,643 | 5,412,843 |
| **Sir Benfro** | 1,362,407 | 3,067,883 | 3,848,031 | 3,759,497 |
| **Powys** | 816,567 | 2,132,915 | 3,851,231 | 3,805,897 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 2,028,028 | 4,842,492 | 7,681,128 | 7,609,661 |
| **Abertawe** | 788,917 | 2,445,206 | 5,938,995 | 6,724,854 |
| **Torfaen** | 1,610,723 | 4,768,436 | 4,772,305 | 4,702,438 |
| **Bro Morgannwg** | 878,929 | 2,119,788 | 2,626,688 | 2,636,288 |
| **Wrecsam** | 865,336 | 3,295,431 | 4,037,366 | 3,978,698 |
| **Cyfanswm CYMRU** | 23,189,284 | 66,287,785 | 92,755,577 | 93,058,344 |

Noder: Mae'r ffigurau ar gyfer cyllid refeniw ar gyfer 2022 i 2023 yn cynnwys dyraniadau ar gyfer dosbarthiadau meithrin.

**Tabl 2: Cyllid cyfalaf UPFSM fesul ALI (GBP)**

| ALI | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | 477,124 | 667,974 | 0 | 0 | 0 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 1,162,705 | 1,627,787 | 0 | 688,143 | 346,933 |
| **Caerffili** | 1,483,742 | 2,077,239 | 0 | 286,984 | 0 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 1,570,320 | 2,198,448 | -55,155 | 0 | 0 |
| **Ceredigion** | 570,214 | 798,300 | 0 | 0 | 0 |
| **Dinas Caerdydd** | 2,730,253 | 3,822,354 | 1,427,856 | 2,165,340 | 0 |
| **Conwy** | 889,111 | 1,244,756 | -66,630 | 66,630 | 0 |
| **Sir Ddinbych** | 859,456 | 1,203,238 | 8,762 | 95,990 | 540 |
| **Sir y Fflint** | 1,262,167 | 1,767,034 | 0 | 0 | 0 |
| **Gwynedd** | 1,121,603 | 1,570,244 | 60,000 | 80,000 | 0 |
| **Ynys Môn** | 594,412 | 832,177 | 0 | 0 | 0 |
| **Merthyr Tudful** | 475,828 | 666,159 | 0 | 176,890 | 0 |
| **Sir Fynwy** | 609,318 | 853,045 | 0 | 0 | 0 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 1,110,632 | 1,554,885 | -1,000,053 | 2,058,306 | 453,173 |
| **Casnewydd** | 1,277,744 | 1,788,842 | 0 | 0 | 0 |
| **Sir Benfro** | 950,398 | 1,330,558 | -615,107 | 1,464,855 | 0 |
| **Powys** | 1,099,255 | 1,538,958 | 0 | 0 | 0 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 2,026,096 | 2,836,535 | 2,470,000 | 1,875,000 | 479,399 |
| **Abertawe** | 1,804,997 | 2,526,996 | -1,940,073 | 341,114 | 573,428 |
| **Torfaen** | 715,174 | 1,001,244 | 178,450 | 0 | 0 |
| **Bro Morgannwg** | 1,137,937 | 1,593,112 | 0 | 35,780 | 200,290 |
| **Wrecsam** | 1,071,512 | 1,500,117 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm CYMRU** | 24,999,998 | 35,000,002 | 468,050 | 9,335,032 | 2,053,763 |

Noder: Mae'r ffigurau ar gyfer cyllid refeniw ar gyfer 2022 i 2023 yn cynnwys dyraniadau ar gyfer dosbarthiadau meithrin.

**Tabl 3: Enw'r ALI a dyddiad cyflwyno'r polisi yn llawn**

| Enw'r ALI | Mis a blwyddyn cyflwyno'r polisi yn llawn |
|---|---:|
| Ynys Môn | Medi 2023 |
| Blaenau Gwent | Medi 2023 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Medi 2024 |
| Caerffili | Medi 2023 |
| Caerdydd | Mehefin 2024 |
| Sir Gaerfyrddin | Ebrill 2024 |
| Ceredigion | Medi 2023 |
| Conwy | Medi 2023 |
| Sir Ddinbych | Ionawr 2024 |
| Sir y Fflint | Ebrill 2024 |
| Gwynedd | Medi 2023 |
| Merthyr Tudful | Chwefror 2024 |
| Sir Fynwy | Medi 2023 |
| Castell-nedd Port Talbot | Medi 2023 |
| Casnewydd | Medi 2023 |
| Sir Benfro | Medi 2023 |
| Powys | Ebrill 2024 |
| Rhondda Cynon Taf | Ebrill 2024 |
| Abertawe | Medi 2024 |
| Torfaen | Medi 2023 |
| Bro Morgannwg | Ebrill 2023 |
| Wrecsam | Medi 2023 |

# Atodiad 2: Fframwaith gwerthuso manwl

Gwerthusiad o’r gweithrediad ar lefel uchel – Cwestiwn 1: Pa mor effeithiol y mae polisi UPFSM wedi'i weithredu?

- Sut wnaeth Llywodraeth Cymru baratoi ar gyfer cyflwyno UPFSM? Pa mor effeithiol a phriodol oedd y gweithgareddau hyn wrth gefnogi'r gweithrediad?
- Sut mae gwahanol fathau o ysgolion, ALlau a darparwyr arlwyo wedi paratoi, cynllunio a gweithredu i gefnogi cyflwyniad UPFSM a’i roi ar waith yn gynnar?
- Pwy sy'n monitro effeithiolrwydd y rhaglen/polisi gan ddefnyddio pa ddata?
- Pa wersi sydd wedi cael eu dysgu? Sut mae rhwystrau i weithredu wedi cael eu goresgyn?

Gwerthusiad o’r gweithrediad ar lefel uchel – Cwestiwn 2: Sut mae gweithredu UPFSM wedi cefnogi nodau ac amcanion y polisi?

- Sut mae polisi UPFSM wedi cefnogi darparu prydau maethlon i blant ysgolion cynradd yng Nghymru?
- Beth fu rôl byrddau llywodraethu ysgolion wrth gefnogi ac annog gweithredu UPFSM yn effeithiol a sicrhau bod dysgwyr yn manteisio ar y cynnig?
- Sut mae ysgolion, ALlau a darparwyr arlwyo wedi mynd ati i staffio a recriwtio ar gyfer ehangu UPFSM a sut brofiad ydynt wedi’i gael?
- Sut mae'r polisi UPFSM wedi effeithio ar lwyth gwaith gwahanol aelodau o staff yr ysgol (e.e. staff addysgu, staff cinio, staff cymorth)?
- Sut mae gweithredu UPFSM wedi effeithio ar ansawdd data dangosyddion dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim yr adroddwyd amdano?

Gwerthusiad o’r gweithrediad ar lefel uchel – Cwestiwn 3: Sut mae ALlau / y darparwr arlwyo wedi gweithredu newidiadau i arferion cyrchu a chaffael bwyd yn dilyn cyflwyno UPFSM?

- Pa rwystrau neu hwyluswyr mewn perthynas â chynyddu faint o fwyd sy’n cael ei gaffael yn lleol y mae ALlau wedi'u profi ers UPFSM?
- Sut mae bwydlenni ysgolion wedi newid i adlewyrchu ffocws ar gynnyrch lleol / cynnyrch o Gymru ers cyflwyno UPFSM?
- A yw'r galw am fwyd lleol / fwyd o Gymru yng nghadwyn gyflenwi ysgolion wedi cynyddu ers cyflwyno UPFSM?

Gwerthusiad o’r gweithrediad ar lefel uchel – Cwestiwn 4: Pa ffactorau sy'n effeithio ar y nifer sy'n manteisio ar y cynnig UPFSM?

- Pa effaith gafodd gweithredu'r polisi'n raddol ar y nifer a oedd wedi manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim yn gyffredinol ac ymhlith grwpiau penodol o ddysgwyr?
- Beth yw'r ffactorau sy'n rhwystro ac yn galluogi dysgwyr i fanteisio ar y cynnig, yn enwedig ymhlith y plant a'r teuluoedd mwyaf dan anfantais?
- Sut mae teuluoedd a dysgwyr yn profi UPFSM?
- A yw dysgwyr yn bwyta bwyd o ansawdd gwell a/neu fwyd sy'n fwy maethlon o ganlyniad i UPFSM?
- Beth yw rhai arferion da a gwersi a ddysgwyd o ran sut i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y cynnig?
- Sut mae'r cynnig cyffredinol wedi effeithio ar deimladau o stigma sy'n gysylltiedig â manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim?

Gwerthusiad o'r gweithrediad ar lefel uchel – Cwestiwn 5: Beth yw effeithiau'r polisi ar fywyd ysgol sy'n dod i'r amlwg?

- Pa effaith mae'r polisi wedi'i chael ar gyfleoedd ar gyfer chwarae iach (gweithgarwch corfforol, gemau, a chymdeithasu iach gyda ffrindiau ac ati)?
- Pa effeithiau ehangach sydd wedi bod ar fywyd ysgol (gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol) ers cyflwyno UPFSM?
- Sut mae'r polisi wedi effeithio ar amserlenni'r ysgol a threfniadaeth amser cinio?
- Pa effeithiau/canlyniadau anfwriadol a brofwyd ar fywyd ysgol?

Gwerthusiad o'r gweithrediad ar lefel uchel – Cwestiwn 6: Pa effaith mae'r polisi wedi'i chael ar iechyd a llesiant plant a theuluoedd?

- Sut mae'r polisi wedi effeithio ar ansicrwydd bwyd ac arferion bwyta dysgwyr (yn yr ysgol)?
- Sut mae'r polisi wedi effeithio ar arferion bwyta cartrefi?
- Sut mae'r polisi wedi effeithio ar statws maethol plant (amrywiaeth ddeietegol, amlder prydau bwyd, pwysau a thwf, iechyd deintyddol, diabetes math 2 / cyn-diabetes ac ati)?
- A oes tystiolaeth bod anghydraddoldebau o ran iechyd corfforol a meddyliol ymhlith plant oedran ysgol gynradd yn lleihau?

Gwerthusiad o'r gweithrediad ar lefel uchel – Cwestiwn 7: Beth yw'r effeithiau addysgol sy'n dod i'r amlwg o'r polisi?

- Sut mae'r polisi wedi effeithio ar sgiliau cymdeithasol dysgwyr, gan gynnwys yn ystod ac y tu allan i amseroedd bwyd?

- Sut mae'r polisi wedi effeithio ar ymddygiad dysgwyr, gan gynnwys yn ystod ac y tu allan i amseroedd bwyd?
- Sut mae'r polisi wedi effeithio ar bresenoldeb dysgwyr?
- Sut mae'r polisi wedi effeithio ar gyrhaeddiad dysgwyr?
- A oes tystiolaeth bod anghydraddoldebau o ran deilliannau addysgol a phenderfynyddion yn lleihau?

Gwerthusiad o’r gweithrediad ar lefel uchel – Cwestiwn 8: Pa effaith mae'r polisi wedi'i chael ar gyllid teuluoedd?

- A yw teuluoedd wedi arbed costau o ganlyniad i'r polisi drwy beidio â pharatoi ciniawau ac, os felly, faint / i ba raddau?
- Sut mae amser a arbedwyd o ganlyniad i beidio â gorfod paratoi ciniawau wedi effeithio ar deuluoedd?
- A oes tystiolaeth bod anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol yn lleihau?

Gwerthusiad o’r gweithrediad ar lefel uchel – Cwestiwn 9: Pa effaith gafodd y polisi ar system fwyd ysgolion Cymru, dosbarthwyr, cyflenwyr a chynhyrchwyr?

- Sut mae cyflwyno UPFSM wedi effeithio ar gyflenwyr ar bob haen (o dyfwyr i gyfanwerthwyr)?
- A yw cynnwys mwy o fwyd lleol ers UPFSM wedi cael goblygiadau o ran cost?

Gwerth am arian lefel uchel – Cwestiwn 10 (economi): Sut mae'r adnoddau sydd ar gael i LlC, ALlau, darparwyr arlwyo ac ysgolion wedi cael eu defnyddio ac a yw adnoddau wedi cael eu defnyddio'n dda i ddarparu'r ansawdd cywir am y gost leiaf?

- Pa adnoddau sydd wedi bod ar gael i system fwyd ysgolion Cymru i weithredu UPFSM? Beth yw costau'r rhaglen? Sut mae'r cyllid wedi'i ddyrannu ar draws costau cyfalaf a refeniw? A ystyriwyd bod adnoddau’n ddigonol?
- Sut mae ALlau wedi defnyddio'r adnoddau sydd ar gael? Sut mae Llywodraeth Cymru a phartneriaid cyflawni (ALlau) eraill wedi sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol?
- Sut mae ysgolion wedi defnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddynt, os o gwbl?
- A ddefnyddiwyd y grantiau refeniw cyfalaf i brynu offer o ansawdd da am gost resymol?
- A yw'r taliadau cost fesul pryd wedi galluogi prynu mewnbynnau sydd eu hangen i ddarparu prydau bwyd o ansawdd da?
- A effeithiodd cyflymder y cyflwyniad ar economi'r defnydd o adnoddau?

Gwerth am arian lefel uchel – Cwestiwn 11 (effeithlonrwydd): A yw'r allbynnau a gyflawnwyd (nifer ac ansawdd prydau bwyd) yn dda o'u cymharu â'r adnoddau a ddefnyddir i weithredu UPFSM?

- Pa allbynnau sydd wedi'u cyflawni o'r mewnbynnau a brynwyd, a sut mae'r rhain wedi cyfrannu at amcanion y polisi?
- A yw'r rhaglen wedi llwyddo i ddarparu prydau maethlon o ansawdd uchel i bob plentyn am gost resymol (o fewn y dyraniadau a ddarparwyd)?
- A yw'r rhaglen wedi achosi costau ychwanegol nad ydynt wedi'u had-dalu gan Lywodraeth Cymru?

Gwerth am arian lefel uchel – Cwestiwn 12: Pa fuddion y mae'r polisi wedi'u darparu, a sut mae'r rhain yn cymharu â'u costau?

- Beth yw gwir gost y polisi?
- Pa ddeilliannau sydd wedi cael eu heffeithio arnynt, ac i ba raddau y gellir priodoli'r rhain i'r polisi?
- A ellir gwerthuso unrhyw un o'r deilliannau y mae'r polisi'n eu cyflawni mewn termau ariannol?

Gwerth am arian lefel uchel – Cwestiwn 13: A yw buddion y polisi wedi cael eu dosbarthu'n deg?

- Pwy sydd wedi elwa o'r polisi?
- A yw'r polisi wedi bod o fudd i blant a theuluoedd o'r grwpiau a'r ardaloedd mwyaf dan anfantais?

# Atodiad 3: Atodiad methodolegol

## Atodiad 3.1: Dulliau cyfweliadau ansoddol

Roedd y ffrâm samplu ar gyfer y cyfweliadau ansoddol yn cynnwys tri grŵp gwahanol o randdeiliaid: cynrychiolwyr ALlau, darparwyr bwyd ysgol, a rhanddeiliaid ehangach. Cynlluniwyd y strwythur hwn i sicrhau dealltwriaeth gynhwysfawr o weithrediad ac effaith y polisi UPFSM ar draws gwahanol lefelau o gyfranogiad.

Llywodraeth Cymru a ddarparodd y rhan fwyaf o'r manylion cyswllt a nododd y rhanddeiliaid perthnasol i siarad â nhw ar draws y tri grŵp o randdeiliaid a oedd wedi cymryd rhan yn y cyfweliadau. Pan na ddarparwyd manylion cyswllt yn uniongyrchol, awgrymwyd enwau a chynhaliwyd chwiliadau ar wefannau cwmnïau am fanylion perthnasol.

Cyfwelwyd â chynrychiolwyr o bob ALl ledled Cymru. Gwrthododd cyfanswm o dri o’r rhai a gyfwelwyd y gwahoddiad i gyfweliad, sef dau ddarparwr bwyd ysgol ac un rhanddeiliad ehangach. Y rhesymau a roddwyd oedd bod ganddyn nhw ddealltwriaeth gyfyngedig o'r polisi a’r ffaith eu bod yn gyfarwydd â gweithrediadau ledled y DU (yn hytrach na ffactorau sy'n benodol i gyd-destun Cymru). Profwyd yn anodd cysylltu â thri sefydliad darparwr bwyd ysgol a rhanddeiliad ehangach gan ei bod yn heriol nodi cyswllt addas â gwybodaeth weithredol berthnasol. Yn y sefyllfaoedd hyn, gofynnwyd i Lywodraeth Cymru nodi gwahanol unigolion o fewn sefydliad, ac i aelodau o’i tîm wneud cyflwyniadau lle'r oedd cydberthnasau eisoes yn bodoli.

Y nifer targed o gyfweleion oedd 22 ar gyfer cynrychiolwyr ALl, wyth ar gyfer darparwyr bwyd ysgol, a naw ar gyfer rhanddeiliaid ehangach.

Datblygwyd tri chanllaw pwnc ar gyfer y cyfweliadau, un i bob grŵp o randdeiliaid, er mwyn sicrhau bod y cwestiynau'n berthnasol i brofiad y cyfweleion. Roedd pob canllaw pwnc yn rhoi esboniad byr o'r gwerthusiad a phwrpas y cyfweliad i'r cyfwelydd ei drafod ar ddechrau'r cyfweliad yn ogystal â chwestiynau a phrociau. Cafodd pob canllaw pwnc ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ymlaen llaw.

Roedd pynciau penodol yn amrywio yn ôl categori rhanddeiliaid. Ymhlith y pynciau a drafodwyd ag arweinwyr strategol yr awdurdodau lleol roedd y dull o gyflwyno'r ddarpariaeth ar raddfa fwy, rhwystrau a galluogwyr o ran gweithredu, canllawiau a chymorth a ddarperir i ysgolion, dosbarthu cyllid, strategaethau cyfathrebu, a chanfyddiadau o fuddion a diffygion y polisi. Mewn cyfweliadau â darparwyr bwyd ysgol, roedd y pynciau'n cynnwys mecanweithiau ar gyfer gweithio gydag ysgolion, newidiadau i fodelau caffael a chyflenwi, effeithiau ar y gadwyn gyflenwi, diogelwch ac ansawdd mewn perthynas â pharatoi prydau bwyd, lefelau manteisio ar y cynnig am brydau ysgol am ddim, a heriau a chyfleoedd yn y dyfodol. Roedd cyfweliadau â rhanddeiliaid ehangach yn ymdrin â safbwyntiau ehangach ar gyflwyniad cychwynnol UPFSM, llunio polisïau, effeithiau hirdymor disgwyliedig ar ansicrwydd bwyd, addysg a llesiant, yn ogystal â safbwyntiau ar effeithiau ar gydraddoldeb.

Er bod y canllaw pwnc i arweinwyr strategol ALlau yn fwy rhagnodol a bod yr holl gwestiynau wedi'u gofyn i'r holl randdeiliaid dan sylw, mabwysiadodd y darparwyr bwyd

ysgol a'r rhanddeiliaid ehangach a gyfwelwyd ddull mwy lled-strwythuredig i alluogi addasu i arbenigedd y cyfwelai.

## Atodiad 3.2: Dulliau'r arolwg ysgolion

Nod yr arolwg ysgolion oedd casglu barn uwch-arweinwyr o fewn ysgolion ar y polisi UPFSM. Roedd uwch-arweinwyr yn cynnwys y pennaeth neu'r dirprwy bennaeth, rheolwr busnes yr ysgol, neu aelodau perthnasol o staff sydd â gwybodaeth am brydau ysgol neu sy'n eu goruchwylio.

Lansiwyd yr arolwg ar 4 Gorffennaf a daeth i ben ar 28 Gorffennaf 2025.

Anfonwyd dau nodyn atgoffa ar ffurf negeseuon e-bost at yr un cynrychiolwyr ALl, yn eu hannog i annog penaethiaid i gwblhau'r arolwg. Yn ogystal, cynhaliwyd gwaith dilynol uniongyrchol gydag ysgolion a oedd wedi dechrau ond heb gwblhau'r arolwg eto i'w hannog i'w gwblhau.

Ymatebodd cyfanswm o 47 o benaethiaid neu uwch-aelodau o staff i'r arolwg ysgolion, sef tua 4% o'r holl ysgolion yng Nghymru.

Ar ôl casglu data, cafodd data'r arolwg eu glanhau â llaw gan ddefnyddio Excel. Cynhaliwyd dadansoddiadau ystadegol disgrifiadol manwl, gan gynnwys nodweddion demograffig a chymdeithasol-economaidd.

**Ffrâm samplu**

Gwahoddwyd pob un o'r 1,199 o ysgolion cynradd, gan gynnwys ysgolion arbennig gyda dysgwyr oedran cynradd, yng Nghymru i gymryd rhan yn yr arolwg ysgolion. Gwahoddwyd ysgolion i gymryd rhan yn yr arolwg drwy'r post. Anfonwyd llythyr ffisegol at bob ysgol sydd â dysgwyr oedran cynradd a oedd yn cynnwys gwahoddiad i gymryd rhan yn ogystal â hysbysiad preifatrwydd. Roedd y llythyr yn cynnwys dolen TinyURL i'r arolwg a chod QR er mwyn hwyluso mynediad. Rhannwyd yr holl ddeunyddiau cyfathrebu ynghylch yr arolwg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Y penderfyniad i anfon llythyrau ffisegol yn hytrach na dibynnu ar negeseuon e-bost oedd oherwydd bod penaethiaid yn aml yn cael llawer iawn o gyfathrebu digidol. Gobeithiwyd y byddai llythyr printiedig yn fwy amlwg felly, a thrwy hynny'n cynyddu'r tebygolrwydd y byddai ysgolion yn ymateb i'r arolwg. Defnyddiwyd y dull hwn yn yr un modd yn ystod y gwerthusiad o UPFSM yn Llundain.

Anfonwyd dwy neges e-bost atgoffa at gynrychiolwyr ALlau, yn eu hannog i brocio penaethiaid i gwblhau'r arolwg.

**Materion ansawdd**

Mae cyfeiriadau ar gyfer pob ysgol yng Nghymru yn wybodaeth gyhoeddus, sydd ar gael trwy wefan Llywodraeth Cymru. Fel arfer, mae cyfeiriadau e-bost ar gael i'r cyhoedd, ond nid ydynt yn cael eu cadw ar un gronfa ddata ganolog. Pan gasglwyd cyfeiriadau e-bost ar gyfer astudiaethau achos yr ysgolion, gwahoddwyd ysgolion i gymryd rhan drwy neges e-

bost hefyd (ac eithrio'r ysgolion a oedd wedi'u cynnwys yn y gweithgaredd ymchwil astudiaeth achos).

Ni chafodd pedwar gwahoddiad post eu danfon a chawsant eu dychwelyd i swyddfeydd ICF. Er mwyn sicrhau bod yr ysgolion hyn wedi cael cyfle i gwblhau'r arolwg, cawsant eu gwahodd drwy neges e-bost i gwblhau'r arolwg, a daethpwyd o hyd i'r cyfeiriadau e-bost hyn ar wefan yr ysgol. Y rheswm dros y gwahoddiadau post heb eu danfon oedd bod ysgolion wedi symud lleoliad, ond nid oedd y gronfa ddata ganolog wedi'i diweddaru.

Cafodd rhai derbynwyr anawsterau wrth gael mynediad at y dolenni TinyURL a oedd wedi'u cynnwys yn y llythyrau gwreiddiol. I ddatrys hyn, anfonwyd llythyrau diwygiedig yn cynnwys y dolenni arolwg llawn drwy neges e-bost at gynrychiolwyr ALl a oedd wedi cael eu cyfweld ar gyfer yr astudiaeth, yn ogystal ag at benaethiaid a ddewiswyd ar gyfer astudiaethau achos (a nodwyd trwy wefannau ysgolion neu ALlau).

**Datblygu'r offer ymchwil**

Gweinyddwyd yr arolwg drwy Forsta, platfform arolwg dibynadwy ICF. Mae platfform Forsta yn darparu arolygon dibynadwy y gellir eu haddasu o ansawdd uchel. Mae data o Forsta yn hawdd ei dynnu i daenlen Microsoft Excel ar gyfer cyflwyno croes-tabiau a galluogi technegau dadansoddi data eraill.

Datblygwyd cwestiynau'r arolwg gyda phwyslais cryf ar y nifer sy'n manteisio ar y cynnig UPFSM, yn hytrach na'i weithredu yn unig, wedi'u harwain y ddamcaniaeth newid. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau meintiol i raddau helaeth, gydag ychydig o flychau testun agored dewisol pan fo'n briodol. Roedd yr offeryn ymchwil yn galluogi cyflwyno cwestiynau arolwg o dan is-themâu penodol:

- Profiad o UPFSM
- Cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y cynnig
- Cyllid
- Newidiadau i brydau ysgol, caffael a'r gwasanaeth ers cyflwyno UPFSM
- Data a monitro
- Cofrestru a chanfyddiadau ynghylch 'dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim'
- Polisïau bwyd ysgol gyfan
- Staffio ac amgylchedd yr ystafell fwyta
- Effeithiau

**Ymarfer peilot**

Cyn lansio'r arolwg, gwahoddwyd tri phennaeth o dri ALl i brofi'r arolwg mewn cynllun peilot. Nodwyd y rhain trwy gynrychiolwyr yr ALlau yn cynnig enwau ysgolion a fyddai'n fodlon

cymryd rhan yn y peilot. Ymatebodd dwy ysgol a gwnaethant sylwadau a gafodd sylw cyn y lansiad swyddogol.

**Cyfradd ymateb**

Roedd 47 o ymatebion cyflawn i'r arolwg ar draws 18 o awdurdodau lleol. Mae 47 yn cyfateb i bron i 4% o gyfanswm yr ymatebwyr. Ni chafodd ymatebion anghyflawn eu hymgorffori yn y dadansoddiad er mwyn sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn cydsynio i gyflwyno eu hatebion terfynol.

Mewn ymgais i hybu'r gyfradd ymateb, cysylltwyd ag ysgolion a oedd ag ymatebion anghyflawn drwy neges e-bost, yn ogystal ag anfon nodyn atgoffa ychwanegol at gynrychiolwyr yr ALI lle nad oedd unrhyw ymatebion (Merthyr Tudful, Powys, Bro Morgannwg, Torfaen).

**Sylwadau yr ymatebwyr**

Nod yr arolwg oedd cael ystod eang o gynrychiolaeth. Roedd y gynrychiolaeth yn canolbwyntio ar ddetholiad priodol o ALlau, maint ysgolion, a chanran y dysgwyr yn yr ysgol sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.[7] Mae cymhariaeth o'r nodweddion hyn ar draws ysgolion cynradd Cymru â'r rhai a ymatebodd i'r arolwg wedi'u manylu arnynt isod.

**Tabl 4: Nifer yr unigolion a ymatebodd i'r arolwg fesul ALI**

| ALI | Canran yr ysgolion yng Nghymru yn yr ALI (%) | Canran yr ymatebwyr ysgol yn yr arolwg (%) |
|---|---:|---:|
| Blaenau Gwent | 2 | 2 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 4 | 7 |
| Caerffili | 6 | 5 |
| Caerdydd | 8 | 11 |
| Sir Gaerfyrddin | 8 | 2 |
| Ceredigion | 3 | 2 |
| Conwy | 4 | 5 |
| Sir Ddinbych | 4 | 7 |
| Sir y Fflint | 5 | 11 |
| Gwynedd | 7 | 7 |
| Ynys Môn | 3 | 2 |
| Merthyr Tudful | 2 | 0 |
| Sir Fynwy | 3 | 5 |
| Castell-nedd Port Talbot | 4 | 5 |
| Casnewydd | 4 | 2 |
| Sir Benfro | 4 | 2 |
| Powys | 6 | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 7 | 9 |
| Abertawe | 6 | 5 |
| Bro Morgannwg | 4 | 0 |
| Torfaen | 2 | 0 |
| Wrecsam | 5 | 11 |

[7] Defnyddiwyd codau ysgol yn yr arolwg i gysylltu ysgolion â'u data nodwedd ehangach.Ni chafodd hyn ei gynnwys yn yr arolwg peilot felly mae'r tablau'n seiliedig ar 45 o ymatebwyr y gallwn adnabod eu nodweddion.

**Tabl 5: Ymatebwyr yr arolwg yn ôl maint yr ysgol**

| Maint yr ysgol | Canran yr ysgolion yng Nghymru (%) | Canran yr ymatebwyr ysgol yn yr arolwg (%) |
|---|---|---|
| 0-50 | 8 | 4 (n=2) |
| 51-150 | 31 | 33 (n=16) |
| 151-300 | 38 | 38 (n=18) |
| 301-500 | 21 | 20 (n=9) |
| 500+ | 2 | 4 (n=2) |

**Tabl 6: Ymatebwyr yr arolwg fesul canran o ddysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim mewn ysgol**

| Dysgwyr ysgol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (%) | Canran yr ysgolion yng Nghymru (%) | Canran yr ymatebwyr ysgol yn yr arolwg (%) |
|---|---|---|
| 0-25 | 74 | 76 |
| 26-50 | 23 | 22 |
| 51-75 | 3 | 2 |

## Atodiad 3.3: Dulliau astudiaethau achos ysgolion

Mae'r atodiad hwn yn cyflwyno'r dulliau a ddefnyddiwyd i gynnal astudiaethau achos ansoddol o 14 ysgol yng Nghymru.

**Dull**

Datblygodd y tîm gwerthuso astudiaethau achos manwl o 14 o ysgolion yng Nghymru. Roedd yr astudiaethau achos yn cynnwys gwaith maes manwl gyda staff ysgolion ac arlwyo, rhieni/gofalwyr, a dysgwyr dros ddau ddiwrnod ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2025.

Nod yr astudiaethau achos oedd archwilio sut mae’r cynllun UPFSM wedi'i weithredu a'i brofi mewn gwahanol leoliadau ysgol ac ystyried buddion ac effeithiau sy'n dod i'r amlwg. Byddai gwneud hynny’n meithrin dealltwriaeth fanwl o’r ffactorau sydd wedi dylanwadu ar gyflwyno UPFSM ar draws gwahanol fathau o ysgolion, cymunedau a modelau arlwyo, a’u hamgylchiadau, heriau a llwyddiannau unigryw. Byddai hefyd yn ystyried buddion ac effeithiau sy'n dod i'r amlwg o UPFSM.

**Ffrâm samplu**

Dewisodd y tîm gwerthuso astudiaethau achos ysgol mewn dau gam. Yn gyntaf, drwy **ddewis set o ardaloedd ALl** a oedd yn adlewyrchu ystod ac amrywiaeth o ddaearyddiaethau, poblogaethau, a chymysgedd o ysgolion ledled Cymru. Yn ail, drwy **nodi rhestr fer o ysgolion** yn yr ardaloedd ALl hynny a oedd yn adlewyrchu ystod ac amrywiaeth o nodweddion ysgolion, poblogaethau dysgwyr, a chefndiroedd cymunedol ar lefel leol.

Pwrpas y dull samplu pwrpasol, dau gam hwn oedd cofnodi'r amrywiaeth o ffyrdd y mae UPFSM wedi'i gyflwyno a'i brofi ledled Cymru. Byddai gwneud hynny’n sicrhau bod y canfyddiadau’n berthnasol i wahanol ysgolion, systemau arlwyo, a chymunedau. Byddai hefyd yn nodi agweddau sy'n gweithio'n dda a heriau sy'n bodoli mewn gwahanol leoliadau. Darperir rhestr o'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn Nhabl 7.3.2.

**Cam 1: Dewis ardaloedd ALlau**

Dewisodd y tîm gwerthuso set o saith ardal ALl a oedd yn adlewyrchu ystod o nodweddion ar lefel ardal. Gwnaed hyn drwy ddadansoddi gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus am ddaearyddiaeth, poblogaeth, a chymysgedd ysgolion ALlau, yn ogystal â gwybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch cyflwyno UPFSM. Asesodd yr adolygiad ddata am y ffactorau canlynol:

- **Ffactorau daearyddol**, gan gynnwys y rhanbarth economaidd, y boblogaeth, dwysedd y boblogaeth, a chyfran yr ardaloedd trefol a gwledig.
- **Ffactorau economaidd-gymdeithasol a nodweddion y boblogaeth**, gan gynnwys amddifadedd sy'n effeithio ar blant, cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim, a chefndiroedd ethnig y boblogaeth breswyl.

- **Maint a nodweddion yr ysgolion**, gan gynnwys nifer a math yr ysgolion, cyfartaledd y dysgwyr fesul ysgol, cyfrwng iaith, a statws ffydd. Roedd y detholiad yn cynnwys

- **Cyflwyno UPFSM**, gan gynnwys y math o ddarparwr arlwyo, cyfartaledd nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar y cynnig UPFSM, y dyddiad cyflwyno UPFSM terfynol, a nifer y digwyddiadau cyflwyno UPFSM.

Mae'r detholiad yn cynnwys ardaloedd ALl ar draws y Gogledd, y Canolbarth, y De-orllewin a'r De-ddwyrain, gan adlewyrchu ardaloedd â phoblogaethau trefol, poblogaethau sy'n gymysgedd o drefol a gwledig, a phoblogaethau gwledig iawn. Mae gan ardaloedd ALlau lefelau amrywiol o amddifadedd plant, cymhwysedd am brydau ysgol am ddim, a chyfrannau trigolion o grwpiau ethnig heblaw Gwyn Prydeinig, Cymreig, Seisnig, Albanaidd, ac unigolion o Ogledd Iwerddon, gydag ardaloedd islaw, uwchlaw, ac yn agos at y cyfartaleddau cenedlaethol yn cael eu cynrychioli. Mae amrywiad sylweddol o ran strwythur ysgolion ar draws yr ardaloedd ALlau a ddewiswyd, gan gynnwys nifer yr ysgolion a weithredir gan yr ALl, eu maint, bodolaeth ysgolion canol a meithrinfeydd, ac yng nghyfran yr ysgolion sy'n gyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, neu'n defnyddio'r ddwy iaith.

Mae'r cyd-destunau arlwyo yn yr ardaloedd ALl a ddewiswyd hefyd yn wahanol, gan adlewyrchu bod gwasanaethau prydau ysgol yn cael eu gweithredu gan ALlau yn bennaf, tra bod rhai yn cael eu gweithredu gan gwmnïau masnachu yr ALl a chontractwyr preifat. Mae hefyd yn adlewyrchu'r amrywiaeth sylweddol o ran y defnydd o UPFSM ar draws ardaloedd ALlau a bod ardaloedd ALlau wedi cyflwyno'r polisi yn gynharach na, yn agos at, ac ar ôl y dyddiadau a gynghorwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Cam 2: Llunio rhestr fer o ysgolion**

Nod y tîm gwerthuso oedd cynnal dau ymweliad ag ysgolion ym mhob ardal ALl, i ddangos sawl ffordd y mae UPFSM wedi'i weithredu a'i brofi yn yr ardaloedd hynny. I wneud hynny, dadansoddodd y tîm gwerthuso wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus am nodweddion a phoblogaeth dysgwyr ysgolion unigol. Asesodd yr adolygiad ddata am y ffactorau canlynol:

- **Nodweddion ysgol**, gan gynnwys y math (cynradd neu ganol), cyfrwng iaith, a statws o ran ffydd. Roedd hyn hefyd yn cynnwys dosbarthiad trefol-gwledig yr ardal gyfagos, er y gall dysgwyr ddod o ymhellach i ffwrdd.

- **Nodweddion dysgwyr**, gan gynnwys y boblogaeth dysgwyr, statws dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, a chefndir ethnig.

Arweiniodd yr adolygiad at set o feini prawf ar gyfer pob astudiaeth achos yn yr ardaloedd ALl, a ddefnyddiwyd i bennu rhestr gul o ysgolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau recriwtio. Nid yw'r cyfuniadau wedi'u rhannu er mwyn cynnal cyfrinachedd; darperir enghraifft isod:

> "Ysgol gynradd fwy, cyfrwng Saesneg, mewn ardal drefol yn bennaf â mwy o ddysgwyr yn gymwys am brydau ysgol am ddim, a chyfran uwch o ddysgwyr o

grwpiau ethnig heblaw Gwyn Prydeinig, Cymreig, Seisnig, Albanaidd neu unigolion o Ogledd Iwerddon.”

**Materion ansawdd**

Ychydig iawn o broblemau yn ymwneud ag ansawdd a wynebodd y tîm gwerthuso wrth weithredu'r dull samplu ar lefel yr ALl, gan fod gwybodaeth ar gael yn rhwydd am boblogaethau, ysgolion a dysgwyr yr ALl. Fe wnaeth gwybodaeth am y cyflwyniad a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru gynorthwyo'r tîm gwerthuso i ddeall tueddiadau gweithredu cyffredinol ar lefel yr ALl.

Daeth y tîm gwerthuso ar draws mwy o broblemau yn ymwneud ag ansawdd ar lefel yr ysgol. Er bod gwybodaeth am statws a nifer y plant sy'n cael prydau ysgol am ddim ar gael, roedd diffyg gwybodaeth am gyflwyno UPFSM ar y lefel hon yn golygu bod yn rhaid i'r tîm gwerthuso ddibynnu ar dybiaethau ynghylch y nifer tebygol o dysgwyr mewn ysgolion sy’n manteisio ar y cynnig yn seiliedig ar ddata ar lefel yr ALl. Yn yr un modd, llwyddodd y tîm gwerthuso i oresgyn diffyg data cynhwysfawr ar ddalgylchoedd ysgolion gan ddefnyddio data gofodol ar yr ardal gyfagos. Roedd hyn yn cynnwys trwy driongli ystadegau amddifadedd lleol â data ar gyfran y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim er mwyn deall lefelau amddifadedd tebygol a barnu i ba raddau yr oedd dysgwyr yn dod o ardaloedd trefol neu wledig yn seiliedig ar ddosbarthiad yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is cyfagos.

**Targed**

Nod y tîm gwerthuso oedd datblygu astudiaethau achos o 14 ysgol ar draws saith ardal ALl. Cynhyrchwyd dwy restr fer ar gyfer pob ardal ALl, yn cynrychioli gwahanol gyfuniadau o nodweddion targed; byddai un astudiaeth achos yn cael ei datblygu o bob rhestr fer. Ystyriodd y tîm gwerthuso gynnal astudiaeth achos ychwanegol rhag ofn bod angen mwy o wybodaeth; penderfynwyd na fyddai hyn yn angenrheidiol.

**Recriwtio**

Cynhaliwyd y recriwtio rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2025. Cysylltwyd ag ysgolion i gymryd rhan dros y ffôn a thrwy neges e-bost; pan nad oedd cyfeiriadau e-bost ar gael yn gyhoeddus, darparodd arweinwyr strategol yr awdurdodau lleol ar gyfer arlwyo ac addysg ysgolion gymorth i gysylltu â staff perthnasol.

Gwnaed cysylltiad cychwynnol â'r ysgolion a oedd yn cyfateb orau i'r meini prawf dethol ym mhob ardal. Hysbyswyd ysgolion am bwrpas y gwerthusiad a beth fyddai cymryd rhan yn ei olygu, a rhoddwyd cyfleoedd iddynt ofyn cwestiynau. Pan nad oedd ysgolion wedi ymateb neu pan nad oeddent yn gallu cymryd rhan, cysylltodd y tîm gwerthuso ag ysgolion eraill ar y rhestr fer.

Pan nododd ysgolion eu bod yn barod i gymryd rhan, cytunodd y tîm gwerthuso ar ddyddiadau dros dro gyda'r pennaeth neu'r uwch-arweinwyr, cyn trefnu galwad fer i ddarparu manylion pellach, trafod ymholiadau, a chytuno ar amserlen ddrafft ar gyfer yr ymweliad. Darparwyd pecyn gwybodaeth i'r ysgolion a gymerodd ran a oedd yn cynnwys:

- Taflenni gwybodaeth yn egluro pwrpas a fformat y gweithgareddau ymchwil, ar gyfer staff ysgolion ac arlwyo, rhieni/gofalwyr, a llywodraethwyr.
- Dolenni i hysbysiadau preifatrwydd data sy'n manylu ar sut y byddai data'n cael eu casglu, eu prosesu a'u storio ar gyfer yr ymchwil.
- Taflenni gwybodaeth ar gyfer dysgwyr, mewn fformat hawdd ei ddeall.
- Drafftio posteri yn hysbysebu'r bore coffi i rieni/gofalwyr, i'w defnyddio gan ysgolion.
- Rhestr wirio o gamau gweithredu i'r ysgol eu cwblhau cyn yr ymweliad, er mwyn sicrhau y gallai'r ymweliad bod yn hwylus a bod yr holl bersonél perthnasol wedi cael gwybod.

**Strwythur yr astudiaethau achos**

Strwythurwyd ymweliadau astudiaethau achos dros ddau ddiwrnod. Gan fod yr amgylcheddau hyn yn brysur ac yn amrywiol, mae ymweld ag ysgolion dros sawl diwrnod yn caniatáu i ymchwilwyr gael dealltwriaeth gyfoethocach o sut mae UPFSM wedi'i weithredu a'i brofi yn yr ysgol. Mae gwneud hynny'n rhoi amser i feithrin cydberthynas, cynnal mwy o weithgareddau ymchwil, a meithrin dealltwriaeth o ddiwylliant yr ysgol, yn ogystal â'r cyfle i weld dau wasanaeth cinio. Roedd ymweliadau astudiaethau achos yn cynnwys y gweithgareddau canlynol:

- **Cyfweliadau â staff yr ysgol a staff arlwyo**, gan gynnwys y pennaeth, y bwrsar, y prif gogydd, ac athrawon, yn ogystal â'r llywodraethwyr. Casglodd y cyfweliadau trylwyr hyn ddata cyfoethog ar brofiad yr ysgol o'r cyflwyniad, sut mae prydau bwyd yn cael eu darparu, ac unrhyw effeithiau y mae UPFSM yn eu cael ar ddysgwyr, amgylchedd yr ysgol, a staffio.
- **'Sgyrsiau anffurfiol â phwrpas' gyda staff eraill sy'n ymwneud â phrydau ysgol**, gan gynnwys staff y gegin, staff gweinyddol, goruchwylwyr canol dydd, athrawon, a staff cymorth eraill. Pwrpas yr ymgysylltiadau byr hyn wedi'u targedu oedd casglu mewnwelediadau pellach gan amrywiaeth o staff, y gellid eu cynnal yn hyblyg, a lleihau'r aflonyddwch i staff.
- **Profi'r gwasanaeth amser cinio** i arsylwi sut mae prydau bwyd yn cael eu paratoi, eu gweini a'u bwyta yn yr ysgol. Dros ddau wasanaeth amser cinio, mae ymchwilwyr yn archwilio agweddau a weithiodd yn dda a'u heriau ar waith. Roedd amser cinio hefyd yn gyfle i gael sgyrsiau anffurfiol â dysgwyr, gan y gall bwyta pryd o fwyd gyda'i gilydd ddarparu amgylchedd hamddenol i rannu eu meddyliau'n rhydd am brydau ysgol.
- **Sgyrsiau â rhieni a gofalwyr** drwy grwpiau ffocws bach neu foreau coffi a drefnwyd ac y rhoddwyd gwybod amdanynt ymlaen llaw gyda chymorth yr ysgol. Rhoddodd y rhain gyfleoedd i archwilio barn rhieni a gofalwyr ynghylch UPFSM, unrhyw newidiadau y maent wedi'u sylwi, a'u barn ynghylch prydau ysgol.
- **Trafodaethau grŵp ffocws â dysgwyr** ym mlynyddoedd 3 i 6, a drefnwyd gyda chymorth yr ysgol. Y pwrpas oedd archwilio eu profiadau o brydau ysgol cyn ac ar ôl cyflwyno UPFSM, eu hanghenion a'u dewisiadau deietegol, sut mae dewisiadau'n cael eu gwneud, ac awgrymiadau ar gyfer gwella. Dewiswyd dysgwyr lefel iau i glywed eu barn bersonol gymysg a gonest.

**Tabl 7: Cyfrwng iaith a nifer y cyfranogwyr fesul astudiaeth achos ysgol**

| Cyfeirnod yr ysgol | Cyfrwng iaith | Nifer y rhai a gafodd eu cyfweld ac a gymerodd ran mewn sgyrsiau anffurfiol |
|---|---:|---:|
| 1 | Saesneg | 52 |
| 2 | Saesneg | 19 |
| 3 | Saesneg | 51 |
| 4 | Cymraeg | 15 |
| 5 | Deuol | 52 |
| 6 | Saesneg | 42 |
| 7 | Cymraeg | 13 |
| 8 | Cymraeg | 18 |
| 9 | Cymraeg | 33 |
| 10 | Saesneg | 51 |
| 11 | Cymraeg | 32 |
| 12 | Saesneg | 22 |
| 13 | Saesneg | 31 |
| **Cyfanswm** | **7 Saesneg, 5 Cymraeg, 1 deuol** | **431** |

Datblygwyd offer ymchwil yn y Gymraeg a'r Saesneg, a ddarparwyd i ymchwilwyr mewn pecyn ymchwil cynhwysfawr. Datblygwyd canllawiau pwnc ar gyfer pob math o weithgaredd a rhanddeiliad ac integreiddiwyd y fframwaith gwerthuso a’r cwestiynau ymchwil. Defnyddiwyd iaith glir i sicrhau y gallai ymchwilwyr ymgysylltu â rhanddeiliaid yn hygyrch ac yn gyfleus; darparwyd canllaw pwnc hawdd ei ddeall i ymchwilwyr ar gyfer grwpiau ffocws gyda dysgwyr a rhestr wirio i arwain eu harsylwadau.